

---

## **Cynllun Blynyddol 2018/19**

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

---

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 28 Mawrth 2018

## Gair am y ddogfen hon

---

Pwrpas Ofcom yw sicrhau bod y marchnadoedd cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. I gyflawni hyn, mae gennym dri phrif nod: hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr; sicrhau safonau a gwella ansawdd; a diogelu defnyddwyr rhag niwed. Mae ein Cynllun Blynyddol yn disgrifio rhai o'r meysydd gwaith allweddol y byddwn yn ceisio'u cyflwyno er mwyn cyflawni'r nodau hyn, ar draws y DU ac yn y gwledydd. Rydym hefyd yn disgrifio ein gwaith parhaus ehangach sy'n cefnogi'r nodau hyn, a sut byddwn yn gweithio ar ran defnyddwyr ar draws gwledydd y DU.

Cafodd ein *Cynllun Blynyddol Arfaethedig 2018/19* ei gyhoeddi gennym ar gyfer ymgynghori arno ar 1 Rhagfyr 2017. Ym mis Ionawr 2018 cynhalion ni ddigwyddiadau cyhoeddus ar gyfer rhanddeiliaid er mwyn cyflwyno a thrafod y Cynllun. Cafodd y digwyddiadau eu cynnal yng Nghaerdydd, Llundain, Belfast a Chaeredin. Cawsom 46 o ymatebion, sydd wedi'u crynhoi yn Atodiad 2. Mae'r Cynllun terfynol hwn wedi ystyried barn rhanddeiliaid ar y Cynllun arfaethedig, a'u hymatebion iddo.

# Cynnwys

---

## Adran

1. Beth rydym yn ei wneud	1
2. Cyd-destun y farchnad	3
3. Ein nodau ac uchafbwyntiau prosiect ar gyfer 2018/19	7
4. Gwaith parhaus i gyflawni ein nodau a'n dyletswyddau	12
5. Cyflawni ein nodau ledled y DU	20
6. Sicrhau gwerth am arian	24

## Atodiad

A1. Cynllun gwaith ar gyfer 2018/19	26
A2. Ymatebion i'r ymgynghoriad	34

# 1. Beth rydym yn ei wneud

- 1.1 Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo ar-alwad, y post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu gwarchod rhag triniaeth ac ymarfer annheg. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr.
- 1.2 Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau. Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethu datganoledig. Rydym yn darparu cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein hadolygiadau rheolaidd o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y DU (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

## Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

- 1.3 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol<sup>1</sup>. Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau'n ymwneud â gwarchod defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth; mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

## Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n tywys cyfeiriad ein gwaith

- 1.4 Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:
- sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
  - sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm radio;
  - sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o ansawdd da yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
  - sicrhau bod pobl yn cael eu gwarchod rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu; a

---

<sup>1</sup> Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau'r Economi Ddigidol 2010 a 2017 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

- sicrhau bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

1.5 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post a thelegyfathrebiadau, yn wahanol i'w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr ydym wedi'u cymeradwyo.

## **Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth**

1.6 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau<sup>2</sup> i:

- orfodi gwaharddiadau ar gytundebau gwrthgystadleuol a'r camddefnydd o safle goruchafol, fel y nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998, a'r darpariaethau cyfatebol o dan y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd; ac
- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).

1.7 Bydd Ofcom yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

---

<sup>2</sup> Mae'r term 'materion cyfathrebiadau' yn cynnwys gwahanol agweddau ar gyfathrebiadau electronig, yn ogystal â darlledu a darparu gwasanaethau post. Rydym yn defnyddio'r pwerau hyn ar y cyd â'r CMA.

## 2. Cyd-destun y farchnad

2.1 Mae marchnadoedd cyfathrebiadau yn datblygu yn gyflym, mae anghenion defnyddwyr a busnesau yn newid ac mae rhwydweithiau, dyfeisiau a gwasanaethau yn arloesi yn gyson. Wrth osod ein nodau yn y cynllun hwn, rydym wedi ystyried yr amgylchedd rydym yn gweithredu ynddo, sut mae'n newid, a sut mae hynny'n effeithio ar ein dull ar gyfer hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rai o'r materion trawsbynciol sydd wedi dylanwadu ar ein dull gweithredu yn y cynllun hwn.

### Cefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau

2.2 Mae defnyddwyr a busnesau yn parhau i alw am gysylltiadau rhynggrwyd symudol a sefydlog sy'n gynt ac yn well. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r data mae pob cysylltiad band eang preswyl, a phob cysylltiad symudol, yn eu defnyddio bob mis ar gyfartaledd, wedi cynyddu dros 33%. Gyda mwy a mwy yn dymuno defnyddio nifer o ddyfeisiau wedi'u cysylltu, poblogrwydd cynyddol gwasanaethau fideo ar-alwad, a phoblogrwydd cynyddol cysylltedd i fusnesau, mae'r disgwyliadau o ran ansawdd y profiad wedi cynyddu, ac mae disgwyl i'r duedd hon barhau.

2.3 Er mwyn darparu'r hyn sydd ei eisiau ar gwsmeriaid a'i angen ar fusnesau, rhaid buddsoddi'n barhaus mewn rhwydweithiau sefydlog a symudol. Rydym yn credu bod buddsoddi o fudd i ddefnyddwyr, a rôl Ofcom yw cefnogi hynny drwy greu'r amodau cywir i gwmnïau fuddsoddi. Roedd ein Hadolygiad o Gyfathrebiadau Digidol yn nodi amcan clir i hyrwyddo rhagor o fuddsoddi mewn rhwydweithiau ffibr-llawn gwibgyswllt ac yn y genhedlaeth nesaf o rwydweithiau symudol.<sup>3</sup> Yr hyn a fyddai orau gennym yw gweld cystadleuaeth rhwng cwmnïau er mwyn hybu buddsoddiad, ond rydym yn cydnabod efallai nad yw hynny'n bosibl mewn rhai rhannau o'r DU. Yn yr achosion hynny, efallai fod gan gyd-fuddsoddi rôl i'w chwarae, ac mewn ardaloedd eraill efallai na cheir buddsoddiad nes i'r Llywodraeth neu Ofcom ymyrryd.

2.4 Rydym yn parhau â'n gwaith, sy'n anelu at ysgogi buddsoddiad, drwy wneud y canlynol:

- creu Openreach mwy annibynnol, sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn rhwydweithiau er budd ei holl gwsmeriaid, a monitro a yw hyn yn digwydd yn ymarferol;
- edrych ar leihau costau adeiladu rhwydwaith drwy gynyddu argaeledd a'r defnydd o fynediad i bolion a phibellau, a gweithio gyda'r Llywodraeth i leihau'r rhwystrau cynllunio;
- gweithredu unrhyw fesurau rheoleiddio angenrheidiol yn dilyn ein hadolygiad o'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol lle rydym yn ystyried ffyrdd o warchod cymhellion buddsoddi i Openreach ac i fuddsoddwyr eraill mewn rhwydweithiau; a

---

<sup>3</sup> Ofcom, Mawrth 2015, *Adolygiad o Gyfathrebiadau Digidol*.

<https://www.ofcom.org.uk/cymru/phones-telecoms-and-internet/information-for-industry/policy/digital-comms-review>

- sicrhau bod sbectrwm ychwanegol yn barod ar gyfer y genhedlaeth nesaf o rwydweithiau symudol, gan sbarduno gwelliannau yn narpariaeth gwasanaethau symudol presennol.
- 2.5 Yn ddiweddar, mae'r momentwm y tu ôl i fand eang ffibr llawn yn y DU wedi codi stêm yn sylweddol. Mae ystod o gwmnïau band eang wedi cyhoeddi cynlluniau i fuddsoddi, gan gynnwys y canlynol:
- Mae Virgin Media wedi gwneud cynnydd ar ei ymrwymiad blaenorol i gyrraedd pedair miliwn yn rhagor o adeiladau, a hanner y rheini gan ddefnyddio ffibr-llawn.
  - Nod Gigaclear yw cyrraedd 150,000 o eiddo gwledig erbyn 2020;
  - Nod Hyperoptic yw darparu ffibr llawn i bum miliwn o adeiladau erbyn 2025;
  - Nod KCOM yw sicrhau darpariaeth ffibr llawn ledled ei rwydwaith erbyn mis Mawrth 2019, gan gyrraedd 200,000 o adeiladau yn ardal Hull;
  - Nod CityFibre, mewn partneriaeth â Vodafone, yw cyflwyno ffibr llawn i bum miliwn o gartrefi erbyn 2025;
  - Nod Openreach yw cysylltu tair miliwn o gartrefi a busnesau â ffibr llawn erbyn 2020;
  - Nod TalkTalk yw darparu ffibr llawn i dair miliwn o adeiladau.
- 2.6 Gallai'r cynlluniau hyn gynyddu darpariaeth ffibr llawn yn y DU o 3% i 20% erbyn 2020. Mae ein gwaith wedi'i ddylunio i helpu i gyflawni hyn ac i hybu rhagor o fuddsoddiad ar gyfer uchelgeisiau eraill.

## Sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio i ddefnyddwyr

- 2.7 Er ein bod yn canolbwyntio ar annog cystadleuaeth effeithiol er mwyn sicrhau'r buddsoddiad sydd ei angen i ddatblygu'r gwasanaethau mae cwsmeriaid am eu cael yn y dyfodol, rydym yn ymwybodol o'r angen i gydbwysu'r hyn â sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr nawr.
- 2.8 Er enghraifft, mae nifer sylweddol o gartrefi yn y DU yn dal yn cael cyflymder llwytho i lawr o'r rhyngwyd sy'n llai na 10Mbit yr eiliad. Yn yr un modd, er bod darpariaeth symudol wedi cynyddu mae pryder o hyd bod darpariaeth mewn rhai rhannau o'r DU yn dal yn gymharol isel. Mae risg y bydd defnyddwyr mewn rhannau gwledig o'r DU a'i gwledydd, un ai mewn eiddo neu wrth deithio, yn dal i gael anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaethau symudol.
- 2.9 Ar ddiwedd 2017, ar ôl cyhoeddi ein Cynllun arfaethedig, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n deddfu ar gyfer rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang, gan roi hawl gyfreithiol i ddefnyddwyr yn y DU i ofyn am gysylltiad band eang 10Mbit yr eiliad.<sup>4</sup> Disgwyliwn y bydd rôl Ofcom yn hyn yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth maes o lawr, a bydd hyn yn dod yn flaenoriaeth i ni. Byddwn yn parhau i ddarparu adnoddau a data i helpu defnyddwyr i gael gwybodaeth am y cyflymderau band eang a'r ddarpariaeth symudol maent yn debygol o'u cael, yn ogystal ag edrych yn benodol ar anghenion

---

<sup>4</sup> Yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mis Rhagfyr 2017, *Band eang cyflym i ddod yn hawl gyfreithiol*. <https://www.gov.uk/government/news/high-speed-broadband-to-become-a-legal-right>

defnyddwyr agored i niwed. Byddwn yn sicrhau y cyflawnir rhwymedigaethau o ran darpariaeth symudol, ac yn ystyried rhwymedigaethau mewn dyfarniadau sbectrwm newydd.

## Sicrhau safonau darlledu

- 2.10 Mae'r ffordd mae defnyddwyr yn gwyllo cynnwys yn parhau i newid, ac mae cronfa tanysgrifwyr y prif wasanaethau ffrydio ar-alwad tanysgrifio yn dal i dyfu. Roedd yr amser mae pob person yn ei dreulio ar gyfartaledd yn gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu wedi parhau i leihau'n raddol yn 2016: serch hynny, roedd cwmpwr serth yn yr amser mae plant rhwng 4 a 15 oed ac oedolion rhwng 16 a 24 oed yn ei dreulio ar gyfartaledd yn gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu. Bu cynnydd bach ymysg pobl dros 64 oed.<sup>5</sup> Er y newidiadau hyn, mae darlledu wedi aros yn gadarn. Bydd parhau â'n gweithgarwch rheoleiddio ym maes darlledu a rheoleiddio cynnwys, gan gynnwys cynnal a chryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn elfennau pwysig o waith Ofcom.
- 2.11 Y llynedd fe wnaethom ddechrau ar y gwaith o reoleiddio'r BBC. Byddwn yn canolbwyntio eleni ar ymgorffori'r gwaith hwn yn ein rhaglen waith gyfredol. Er enghraifft, byddwn yn edrych eleni ar sut mae'r BBC yn bodloni ei ofynion ei Fframwaith Gweithredu a'i Drwydded Weithredu, ac yn adolygu'r cynigion ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC a'u heffaith bosibl ar gystadleuaeth. Byddwn hefyd yn adolygu'r gofynion ar raglenni â gwerth gwasanaeth cyhoeddus penodol i gynulleidfaoedd yn y DU, er enghraifft rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain. Byddwn yn parhau i ystyried amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal ym maes darlledu ar y teledu neu'r radio, ac yn adrodd ar berfformiad y diwydiant.

## Deall cydgyfeiriant a'r newidiadau mewn marchnadoedd

- 2.12 Mae'n bwysig bod ein gwaith rheoleiddio'n ystyried newid yn y marchnadoedd rydym yn gyfrifol amdanynt. Ar ben ein cynllun gwaith a'n rhaglen waith gyfredol, rydym yn monitro datblygiadau ac yn adolygu ein dull rheoleiddio yng ngoleuni'r cydgyfeirio cynyddol mewn marchnadoedd, y gwasanaethau newydd sy'n dod i'r wyneb, a'r newid yn y ffordd mae cynnwys yn cael ei gyflwyno.
- 2.13 Er enghraifft, mae'r cynnydd yn faint o gynnwys newyddion sy'n cael ei weld drwy wasanaethau cynnwys ar-lein yn codi cwestiynau ynghylch sut gall rheoleiddio barhau i sicrhau safonau a gwarchod cynulleidfaoedd, ac yn y tymor hir gallai'r cynnydd hwn effeithio ar ddefnydd a chynaliadwyedd cynnwys o'r fath yn y fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Dros amser, gallai'r cynnydd yn y defnydd o wasanaethau cynnwys a chyfathrebiadau ar y rhyngwyd, yn arbennig gan ddefnyddwyr iau, gael effaith ar y galw am rwydweithiau ffôn traddodiadol a dosbarthu darllediadau mewn modd traddodiadol.

---

<sup>5</sup> Ffynhonnell: BARB, Ofcom, Awst 2017, *Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebiadau 2017*, t. 38.



## Addasu i newidiadau rheoleiddiol

- 2.14 Byddwn yn parhau i addasu ein gwaith yn ôl yr amgylchedd rheoleiddio a pholisi sy'n newid. Yn ogystal ag ymgorffori'r gwaith o reoleiddio'r BBC yn ein rhaglen waith, byddwn yn dechrau ar waith o dan ein dyletswyddau newydd a osodwyd gan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017, gan gynnwys , cynnal adolygiad o gynnwys plant, er enghraifft.
- 2.15 Fel rheoleiddiwr cyfryngau a thelegyfathrebiadau'r DU – yn niwtral ac yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r cwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio gennym – nid oes gan Ofcom farn ar Brexit. Ond rydym yn llawn cefnogi dymuniad y Llywodraeth am waith rheoleiddio effeithiol parhaus, wedi'i ddarparu drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid yn Ewrop. Rydym yn rhoi cyngor i Lywodraeth y DU ynghylch y pynciau sy'n ymwneud â'r sectorau sy'n cael eu rheoleiddio gennym, a byddwn yn parhau helpu'r Llywodraeth â'i thrafodaethau yn y dyfodol.

## 3. Ein nodau ac uchafbwyntiau prosiect ar gyfer 2018/19

3.1 Pwrpas Ofcom yw sicrhau bod y marchnadoedd cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. I gyflawni hyn, mae gennym dri nod strategol lefel uchel a hirdymor:

**Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr**

**Sicrhau safonau a gwella ansawdd**

**Diogelu defnyddwyr rhag niwed**

3.2 Bydd rhaglen waith 2018/19 Ofcom yn sicrhau bod y meysydd canlynol yn cael eu blaenoriaethu'n briodol:

- gweithio gyda'r diwydiant i gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith uwch cystadleuol, gan gynnwys cyd-fuddsoddiad, a buddsoddiad ychwanegol gan Openreach o ganlyniad i reoleiddio a gwahanu cyfreithiol. Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar y cynnydd o ran gwahanu Openreach a BT yn gyfreithiol;
- cwblhau'r broses o ymgorffori ein cyfrifoldebau newydd ar gyfer rheoleiddio'r BBC, gan gynnwys Adolygiad Blynyddol cyntaf ar y BBC, asesiad cystadleuaeth cyntaf o gynigion y BBC ar gyfer gwasanaeth teledu i'r Alban, ac adolygiad thematig cyntaf o'r BBC;
- paratoi ar gyfer dyfarniadau sbectrwm yn y dyfodol wrth iddynt gael eu clirio a'u rhyddhau, er mwyn helpu i gwrdd â'r galw cynyddol am gapasiti ac wrth baratoi ar gyfer gwasanaethau 5G newydd;
- ymestyn argaeledd gwasanaethau, yn benodol drwy ddechrau gweithredu USO band eang a chyflwyno rwymedigaethau darpariaeth newydd ar gyfer sbectrwm symudol.

3.3 I gyflawni ein nodau, mae angen i ni roi sylw i heriau penodol yn ein sectorau. Ar gyfer pob nod, rydym yn nodi isod y meysydd gwaith sy'n arbennig o bwysig yn 2018/19. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhagor o fanylion am ein cynllun gwaith ehangach gan gynnwys y meysydd gwaith hyn a amlygir. Mae ein gwaith rhaglennol cyfredol ehangach hefyd yn cefnogi'r nodau hyn.

### **Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr**

3.4 Ein nod yw sicrhau bod defnyddwyr a busnesau yn gallu elwa o amrywiaeth o gynnyrch a gwasanaethau cyfathrebiadau, gyda'r farchnad yn sicrhau canlyniadau da o ran dewis, pris, ansawdd, buddsoddi ac arloesi.

3.5 Gwnawn hyn drwy sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol, drwy reoleiddio lle bo'n briodol, er mwyn i ddefnyddwyr allu elwa o fanteision cystadleuaeth.

3.6 Yn benodol, byddwn yn gwneud y canlynol yn ystod cyfnod 2018/19:

- 3.7 **Cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith rhwydweithiau.** Byddwn yn gweithredu rheoleiddio yn sgil ein hadolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol<sup>6</sup>, ac yn parhau i weithio gyda phob cyfranogwr yn y diwydiant yn ôl yr angen er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i ystod o fuddsoddiadau sydd ar waith ac wedi'u cyhoeddi mewn seilwaith rhwydweithiau ffibr llawn uwch sy'n cystadlu â'i gilydd - gan gynnwys cyd-fuddsoddiad.
- 3.8 **Diwygio Openreach yn effeithiol.** Byddwn yn monitro ac yn adrodd ar y cynnydd o ran y trefniadau i wahanu Openreach a BT yn gyfreithiol. Byddwn yn asesu effeithiolrwydd y camau a gymerir i sicrhau manteision i ddefnyddwyr, gan gynnwys mynd i'r afael â'n pryderon o ran cystadleuaeth ac annog buddsoddiad newydd mewn rhwydweithiau.
- 3.9 Paratoi ar gyfer yr adolygiadau nesaf o'r farchnad, gan gynnwys asesiad o anghenion busnesau a chwmnïau telegyfathrebiadau a gwasanaethau llinellau ar les (y Farchnad Cysylltedd Busnes).
- 3.10 **Helpu defnyddwyr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig, i ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau** drwy nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau o ran cystadleuaeth a gwneud dewisiadau.
- 3.11 **Paratoi ar gyfer dyfarniadau sbectrwm yn y dyfodol** wrth iddynt gael eu clirio a'u rhyddhau. Bydd hyn yn cynnwys dylunio unrhyw arwerthiannau, goblygiadau a mesurau i hyrwyddo cystadleuaeth fel rhan o ddyfarnu trwydded ar gyfer y bandiau 700MHz a 3.6 i 3.8.
- 3.12 Cynnal ein **hasesiad cystadleuaeth cyntaf o gynigion y BBC i lansio gwasanaeth teledu BBC Scotland** newydd.

## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

- 3.13 Ein nod yw sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu a darlledu o ansawdd da yn fforddiadwy, yn hygyrch ac ar gael yn eang i ddefnyddwyr ledled y DU.
- 3.14 Er bod cystadleuaeth wrth wraidd ein dull o sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr, rydym yn cydnabod na all cystadleuaeth ei hun ddarparu'r ystod lawn o ganlyniadau a ddymunwn. Lle bo hyn yn briodol, rydym yn gwneud ymyriadau wedi'u targedu i wella canlyniadau i ddefnyddwyr a dinasyddion.
- 3.15 Yn benodol, byddwn yn gwneud y canlynol yn ystod cyfnod 2018/19:
- 3.16 **Ymgynghori ar y rhwymedigaeth gwasanaethau cyffredinol yng nghyswllt band eang (USO).** Bydd Ofcom yn rhoi rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yng nghyswllt band eang ar waith ar ôl i'r Llywodraeth osod deddfwriaeth eilaidd yn nodi prif nodweddion y gwasanaeth. Byddwn yn ymgynghori ar ddynodi darparwr/darparwr gwasanaeth cyffredinol, sut caiff y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ei hariannu, a'r amodau a osodwyd ar y darparwyr gwasanaeth cyffredinol dynodedig.

---

<sup>6</sup> Ofcom, Mawrth 2018, *Adolygu'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol*. <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/wholesale-local-access-market-review>

- 3.17 **Gwella darpariaeth symudol.** Byddwn yn sicrhau bod y rhwymedigaethau darpariaeth presennol yn cael eu cyflawni, ac rydym eisoes yn ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer rhwymedigaethau trwydded sbectrum 700 MHz newydd<sup>7</sup>, sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu gwelliannau i ddarpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig.
- 3.18 **Cyhoeddi Adroddiad blynyddol cyntaf Ofcom ar y BBC:** Byddwn yn nodi sut rydym wedi cynnal ein dyletswyddau newydd ac yn asesu cydymffurfiaid y BBC â'r gofynion penodol yn y Fframwaith Gweithredu a'r Drwydded Weithredu. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar wahân yn mesur perfformiad y BBC o ran cyflawni'r genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus. Ar ben hynny, byddwn yn cyhoeddi canlyniadau ein **hadolygiad thematig cyntaf ar sut mae'r BBC yn cynrychioli ac yn portreadu cymunedau amrywiol gwledydd a rhanbarthau'r DU.**
- 3.19 **Adolygu'r canllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynhyrchu y tu allan i Lundain,** ac ystyried a yw'r rhain yn dal yn addas i'r diben ran cefnogi a chryfhau cynhyrchu ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.
- 3.20 **Adolygu cynnwys plant.** Byddwn yn adolygu faint o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfa oedol iau, ynghyd â'i amrywiaeth a'i ansawdd, gan gynnwys y posibilrwydd o osod meini prawf ar gyfer rhaglenni plant.
- 3.21 **Hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu.** Byddwn yn cyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol ar y diwydiant teledu yn y DU, a'n hadroddiad cyntaf ar y diwydiant radio yn y DU, er mwyn darparu darlun cynhwysfawr o berfformiad darlledwyr unigol – a'r diwydiant drwyddo draw – yng nghyswllt cyfleoedd cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyflogaeth.
- 3.22 **Adolygu'r Cod EPG ac Amlygrwydd PSB.** Mae'n rhaid i ni adrodd ar y wybodaeth a ddarperir ar gyfeirddion rhaglenni electronig am raglenni ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus neu wasanaethau rhaglenni ar-alwad PSB, a mynediad atynt. Byddwn yn adrodd ar amlygrwydd PSB fel y mae ar hyn o bryd, yn ystyried cwestiynau polisi ehangach sy'n codi o'r gwaith hwn ac yn adolygu Cod EPG Ofcom.

## Gwarchod defnyddwyr rhag niwed

- 3.23 Ein nod yw sicrhau nad yw defnyddwyr yn wynebu ymarfer annheg a bod defnyddwyr bregus yn cael eu gwarchod rhag niwed penodol lle gallent fod mewn perygl.
- 3.24 Gwnawn hyn drwy gamu i mewn yn uniongyrchol i warchod defnyddwyr, yn enwedig grwpiau bregus sydd mewn perygl o gael eu niweidio. Rydym yn rhoi rhagor o fesurau ar waith os oes risg y bydd rhywun yn agored i ymddygiad niweidiol gan gwmnïau neu i gynnwys tramgwyddus ar y teledu a'r radio.
- 3.25 Yn benodol, byddwn yn gwneud y canlynol yn ystod cyfnod 2018/19:

---

<sup>7</sup> Ofcom, Mawrth 2018, *Gwella darpariaeth symudol: Cynigion ar gyfer rhwymedigaethau darpariaeth wrth ddyfarnu'r band sbectrum 700MHz*. [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0022/111937/consultation-700mhz-coverage-obligations.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/111937/consultation-700mhz-coverage-obligations.pdf)

- 3.26 **Adolygu'r gost o ffonio gwasanaethau ymholiadau rhifau ffôn** i wneud yn siŵr bod y prisiau'n dryloyw ac yn deg i ddefnyddwyr.
- 3.27 Nodi ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir yn sgil darparwyr cyfathrebiadau yn **mudo i brotocol llais dros y rhyngwyd (VoIP)**, gan gynnwys y posibilrwydd o ddiffodd y Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus yn y dyfodol. Nod hynny yw gwarchod defnyddwyr rhag niwed a lleihau'r amhariad.
- 3.28 **Sicrhau bod gweithredwyr rhwydwaith yn dylunio ac yn gweithredu rhwydweithiau yn unol â'n canllawiau ac ymarfer diogelwch a chadernid da.** Bydd hyn yn cynnwys paratoi a gweithredu gofynion arfaethedig y Gyfarwydddeb Rhwydwaith a Diogelwch Gwybodaeth a chefnogi cynllun peilot TBEST yr Adran dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer sicrwydd diogelwch seibr.

## Ymgysylltu yn ystod newidiadau i ddeddfwriaeth Ewropeaidd

- 3.29 Byddwn yn **diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a busnesau yn y DU drwy gydol proses Brexit.** Byddwn yn ystyried sut gallai ein perthynas newydd â'r UE effeithio ar farchnadoedd a deddfwriaeth berthnasol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu i sicrhau bod newidiadau arfaethedig i reoliadau o dan y Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig a'r Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yn diwallu anghenion defnyddwyr y DU yn ôl y galw.
- 3.30 Nid oes gan Ofcom farn ar Brexit. Ond rydym yn llawn cefnogi dymuniad y Llywodraeth am waith rheoleiddio effeithiol parhaus, wedi'i ddarparu drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid yn Ewrop. Rydym yn rhoi cyngor i Lywodraeth y DU ynghylch y pynciau sy'n ymwneud â'r sectorau sy'n cael eu rheoleiddio gennym, a byddwn yn parhau helpu'r Llywodraeth â'i thrafodaethau yn y dyfodol.

## Ein dull rheoleiddio

- 3.31 I gyflwyno ein pwrpas o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb, mae'n hanfodol fod y rheoliadau sy'n berthnasol i'r marchnadoedd cyfathrebiadau'n dal yn briodol. O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n ofynnol i Ofcom leihau'r baich mae'n ei roi ar y cwmnïau mae'n eu rheoleiddio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu'r broses reoleiddio'n gyson er mwyn sicrhau nad yw (a) yn gosod beichiau diangen; neu (b) yn parhau i greu beichiau sydd bellach yn ddiangen. Mae'n rhaid i Ofcom leihau neu gael gwared â beichiau diangen lle mae'n dod ar eu traws. Mae'r gofynion hyn yn sail i'n holl waith rheoleiddio, gan gynnwys ein rhaglen o adolygiadau marchnad.
- 3.32 Mae rheoliadau Ofcom ar gyfer gwarchod defnyddwyr yn cael eu hategu gan yr Amodau Hawliau Cyffredinol, set o ddyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i rwydweithiau neu ddarparwyr cyfathrebiadau electronig lynu wrthynt. Ar ôl ymgynghori, rydym wedi cael gwared ar bwerau diangen a diddefnydd i wneud yn siŵr bod yr Amodau Cyffredinol yn adlewyrchu ein blaenoriaethau polisi presennol, a'u bod yn addas i'r diben yn y farchnad sydd ohoni. Bydd set newydd o Amodau Cyffredinol, sy'n fwy clir ac yn fwy ymarferol, yn

dod i rym fis Hydref 2018<sup>8</sup>. Dylai hyn ei gwneud yn haws i fusnesau sicrhau eu bod yn cydymffurfio, ac yn haws i Ofcom orfodi cydymffurfiad er budd y cyhoedd a defnyddwyr.

- 3.33 Rydym yn adolygu rheoliadau a chyfyngiadau presennol, ac yn ystyried a oes angen amdanynt o hyd. Er enghraifft, byddwn yn cwblhau ein hasesiad o rai rheolau prisio a chyfrifyddu y mae'r Post Brenhinol yn eu defnyddio wrth baratoi ei adroddiadau ariannol. Byddwn hefyd yn adolygu'r capiau diogelu prisiau ar gyfer llythyrau safonol ail ddsbarth, llythyrau mawr a pharseli bach a chanolig. Yn ogystal â hynny byddwn yn parhau â'n gwaith i edrych ar y defnydd o'r band sbectrwm 3.8 i 4.2 Ghz yn y dyfodol, gyda'r bwriad o ymgynghori ar gynigion i alluogi rhagor o fynediad wedi'i rannu rhwng defnyddwyr presennol a newydd.
- 3.34 Rydym yn edrych ar feysydd newydd lle gallwn rymuso rhanddeiliaid a defnyddwyr drwy ddarparu gwybodaeth sy'n well ac yn fwy hygyrch. Er enghraifft, rydym yn dal i hyrwyddo ein polisi data agored<sup>9</sup>, ac rydym wedi adolygu amserlen a strwythur ein rhaglen adolygiadau o'r farchnad er mwyn diwallu anghenion rhanddeiliaid yn well, a maes o law sicrhau manteision i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr. Byddwn yn parhau i ryddhau gwybodaeth am y defnydd o sbectrwm mewn fformat agored, gan gynnwys drwy gyhoeddi mapiau sbectrwm, er mwyn galluogi rhanddeiliaid i gael gwell dealltwriaeth o sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio.

---

<sup>8</sup> Ofcom, Medi 2017, *Adolygu'r Amodau Hawliau Cyffredinol*. <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/review-general-conditions>

<sup>9</sup> Ofcom, Ionawr 2018, *Data agored*. <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/data/opendata>

## 4. Gwaith parhaus i gyflawni ein nodau a'n dyletswyddau

- 4.1 Yn Adran 3 rydym wedi tynnu sylw at feysydd gwaith a fydd yn ein helpu i gyflawni ein nodau yn 2018/19 ar draws y DU. Mae ein rhaglen waith gyfredol ehangach hefyd yn ein helpu i gyflawni ein tri nod strategol. Mae'r adran hon yn nodi rhywfaint o'n gwaith cyfredol sy'n berthnasol i'r nodau hyn.
- 4.2 Mae llawer o raglen waith gyfredol Ofcom yn orfodol, ac mae wedi'i phennu mewn deddfwriaeth. Mae ein dyletswyddau wedi cael eu hymestyn, ac rydym bellach yn rheoleiddio'r BBC mewn perthynas â'i berfformiad, a yw'n cydymffurfio â safonau rhaglenni o ran cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni newyddion a materion cyfoes, a'i effaith ar gystadleuaeth. Yn 2018/19 byddwn yn ystyried y gofynion sy'n rhwystro is-gwmnïau masnachol y BBC rhag cael mantais gystadleuol annheg, a'n canllawiau ar weithgareddau masnachol a masnachu'r BBC.
- 4.3 Mae rhannau eraill o raglen waith gyfredol Ofcom yn ymwneud â meysydd gwaith allweddol blaenorol, ac yn helpu i'w rhoi ar waith. Er enghraifft, cwblhaodd Ofcom ei adolygiad o reoleiddio'r post yn 2017, ond fel rhan o'n gwaith parhaus byddwn yn parhau i fonitro amrywiaeth o ffactorau gan , gynnwys perfformiad y Post Brenhinol ar effeithlonrwydd, ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol, a chystadleuaeth mewn parseli a llythyrau. Yn yr un modd, rydym yn parhau i fonitro ansawdd rhwydweithiau telegyfathrebiadau ffibr a chopr er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r amodau a orfodir yn sgil ein hadolygiadau marchnad.
- 4.4 Yn ogystal â hynny, mae gwaith pwysig yn mynd rhagddo i sicrhau bod defnyddwyr yn cael canlyniadau cadarnhaol yn y marchnadoedd cyfathrebiadau, Er enghraifft, gwneud yn siŵr y gwneir y defnydd gorau posibl o rifau ffôn, er mwyn annog effeithlonrwydd ac arloesedd. Yn 2018/19, jbyddwn yn parhau â'n gwaith o fynd i'r afael â galwadau niwsans sy'n parhau i achosi pryder, yn enwedig i ddefnyddwyr bregus, a byddwn yn cyhoeddi diweddariad o'n cynllun gweithredu ar y cyd ar y cynnydd rydym wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

#### Dyrannu rhifau

- 4.5 Mae Ofcom yn dyrannu rhifau ffôn i ddarparwyr cyfathrebiadau, sydd wedyn yn eu rhoi i ddefnyddwyr. Rydym yn sicrhau y gwneir y defnydd effeithlon o rifau, gan leihau'r angen am fesurau costus sy'n tarfu i fynd i'r afael â phrinder rhifau.

## **Monitro teledu drwy dalu**

- 4.6 Mae Ofcom yn dilyn datblygiadau'r farchnad ar draws y gadwyn gwerth teledu drwy dalu er mwyn deall profiad y defnyddiwr a chystadleuaeth adwerthu wrth i'r sector esblygu. byddwn yn parhau i fonitro unrhyw bryderon mewn perthynas â mynediad at gynnwys teledu drwy dalu (gan gynnwys cyflenwi cynnwys chwaraeon premiwm) a llwyfannau teledu, gan ein galluogi i gamu i mewn yn gyflym pan fydd angen.

## **Achredu safleoedd cymharu prisiau**

- 4.7 Rydym yn sicrhau effeithiolrwydd y cynllun i wneud yn siŵr ei fod yn dal yn berthnasol yn y farchnad sydd ohoni.

## **Monitro effeithiolrwydd y fframwaith rheoleiddio ar gyfer post**

- 4.8 Fel un o'r prif ffyrdd o ddiogelu'r fframwaith rheoleiddio, byddwn yn parhau i fonitro amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys perfformiad y Post Brenhinol ar effeithlonrwydd, ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol, a chystadleuaeth mewn parseli a llythyrau. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro profiadau defnyddwyr yn y sector post.

## **Gorfodi amodau cystadleuaeth**

- 4.9 Mae Ofcom yn gorfodi'r amodau rheoleiddio rydym yn eu gosod ar ddarparwyr cyfathrebu i hyrwyddo cystadleuaeth. Rydym hefyd yn asesu cwynion ac yn penderfynu ar anghydfodau rhwng gwasanaethau a darparwyr rhwydweithiau cyfathrebu electronig ac rydym yn cynnal ymchwiliadau o dan gyfraith cystadleuaeth.

## **Rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol**

- 4.10 Mae gan Ofcom ddyletswydd i ystyried yr effaith andwyol bosibl ar gystadleuaeth yn sgil gwasanaethau cyhoeddus newydd y BBC, neu newidiadau sylweddol mae'r BBC yn eu cynnig ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus presennol. Mae gennym rôl barhaus yn monitro bod y BBC yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n rhwystro is-gwmnïau masnachol y BBC rhag cael mantais gystadleuol annheg neu ystumio'r farchnad o ganlyniad i'w perthynas â gwasanaethau cyhoeddus y BBC. Byddwn hefyd yn cynnal asesiadau masnachu a gwahanu yng nghyswllt y cynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i weithgareddau masnachol y BBC, ac yn ystyried y cwynion a gaiff eu cyfeirio atom ni ynglŷn â chydymffurfiaid y BBC â gofynion cystadleuaeth os na fydd y sawl sy'n cwyno yn fodlon ar y ffordd mae'r BBC wedi mynd i'r afael â'r gŵyn.



## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

### Rheoli sbectrwm a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol

- 4.11 Mae Ofcom yn sicrhau bod sbectrwm radio'r DU yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm yn y dyfodol, er enghraifft ar gyfer data symudol ac ôl-gludo di-wifr sefydlog. Byddwn yn parhau i gynnal dadansoddiadau cais a band penodol o ddefnydd sectorau penodol o'r sbectrwm, er mwyn ategu ein hadolygiadau strategol a llywio ein polisi.

### Dadansoddi a rhyddhau gwybodaeth am y defnydd o sbectrwm

- 4.12 Rydym yn rhyddhau gwybodaeth am y defnydd o sbectrwm mewn fformat agored, gan gynnwys drwy gyhoeddi mapiau sbectrwm rhyngweithiol i ddadansoddi'r agweddau daearyddol amrywiol ar y defnydd o sbectrwm, er mwyn galluogi rhanddeiliaid i gael gwell dealltwriaeth o sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio.

### Awdurdodi'r defnydd o sbectrwm

- 4.13 Mae Ofcom yn cynllunio'r defnydd effeithlon o'r sbectrwm radio yn y DU mewn ffyrdd sy'n lleihau ar ymyriant rhwng defnyddwyr ac yn sicrhau'r manteision gorau posibl i ddefnyddwyr. Rydym yn awdurdodi'r defnydd o sbectrwm drwy'r trwyddedau rydym yn eu cyhoeddi. Lle bo'n briodol, rydym hefyd yn gwneud eithriadau i ganiatáu defnydd sbectrwm heb drwydded. Rydym yn newid ein dull awdurdodi mewn ymateb i'n hadolygiadau sectoraidd, ac yn sicrhau bod gennym yr adnoddau cywir i sicrhau defnydd effeithlon o'r sbectrwm. Rydym hefyd yn adolygu ffioedd trwydded.

### Sicrhau a gorfodi'r defnydd dilys o sbectrwm

- 4.14 Mae Ofcom yn cynghori ac yn helpu defnyddwyr sbectrwm er mwyn cynorthwyo i ddatrys ymyriant niweidiol. Mae ein Timau Gorfodaeth, Peirianeg a Thechnoleg Sbectrwm yn delio ag adroddiadau o ymyriant ac yn ymgymryd â gweithgareddau i warchod a rheoli sbectrwm y DU. Mae'r rhain yn cynnwys ymchwilio i achosion o ymyriant, gan gynnwys i gyfathrebu diogelwch-bywyd a mynd ati'n rhagweithiol i atal defnyddio sbectrwm heb awdurdod drwy ganfod a mynd i'r afael â defnyddio sbectrwm heb drwydded a gwerthu neu ddefnyddio offer nad yw'n cydymffurfio. Mae Ofcom yn gweithio gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o ofynion Cyfarwyddeb Offer Radio'r Llywodraeth<sup>10</sup>, ac yn llunio strategaethau i orfodi ei darpariaethau.

---

<sup>10</sup> Darpariaeth Reoleiddiol a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Gorffennaf 2017, *Cyfarwyddeb Offer Radio*. <https://www.gov.uk/government/consultations/radio-equipment-directive>

## Monitro ansawdd gwasanaethau telegyfathrebiadau cyfanwerthol

- 4.15 Bydd Ofcom yn parhau i fonitro ansawdd gwasanaethau telegyfathrebiadau cyfanwerthol ffibr a chopr, ac ansawdd y gwaith atgyweirio a wneir arnynt, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r amodau a orfodir yn sgil ein hadolygiadau marchnad.

## Sicrhau bod gweithredwyr rhwydweithiau yn cydymffurfio â'r canllawiau ar ddiogelwch a chadernid

- 4.16 Mae'n ofynnol i weithredwyr rhwydweithiau ddylunio a gweithredu rhwydweithiau yn unol ag ymarfer diogelwch da, ac rydym yn gweithio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n canllawiau yn y maes hwn. Byddwn hefyd yn casglu adroddiadau ar fethiannau rhwydwaith. Mae crynodebau o'r rhain yn cael eu cyhoeddi yn ein hadroddiad *Cysylltu'r Gwledydd* blynyddol a'u darparu i'r Comisiwn Ewropeaidd. I leihau'r risg yn y dyfodol, rydym yn mynd ar drywydd digwyddiadau sydd wedi bod yn destun pryder er mwyn deall yr achosion a'r camau sydd wedi cael eu cymryd o ganlyniad, ac yn cymryd camau lle bo hynny'n briodol.

## Cymharu ansawdd gwasanaethau

- 4.17 Mae adroddiad blynyddol Ofcom, '*Cymharu Ansawdd Gwasanaethau*' yn rhoi metrigau mae modd eu cymharu ynghylch ansawdd gwasanaeth darparwyr cyfathrebiadau i ddefnyddwyr a'r diwydiant. Byddwn yn parhau i gynhyrchu cyhoeddiadau chwarterol sy'n cyflwyno data sy'n ymwneud â chwynion a gofnodwyd gan Ofcom yn erbyn y darparwyr teledu drwy dalu a thelegyfathrebiadau mwyaf.

## Cyhoeddi ein hadroddiad *Cysylltu'r Gwledydd*

- 4.18 Mae Ofcom yn cyhoeddi adroddiad *Cysylltu'r Gwledydd* bob blwyddyn, ac yn ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn. Mae apiau symudol ac adnoddau gweledol i gyd-fynd â'r adroddiad. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth hygrych mae modd ei chymharu i ddefnyddwyr am argaeledd ac amcan ynghylch cyflymderau band eang sefydlog cyflym iawn a thra chyflym ac ar gyfer rhwydweithiau symudol. Eleni byddwn yn cyhoeddi data ar ddarpariaeth symudol a band eang yn y gwanwyn a'r haf, yn ogystal â'n hadroddiad *Cysylltu'r Gwledydd* llawn fis Rhagfyr. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cynnydd tuag at ddarpariaeth band eang cyffredinol ac i ba mor ddiogel a chadarn yw gwasanaethau cyfathrebiadau. Hefyd, rydym yn parhau i ddarparu diweddariadau i Dasglu Cynhwysiant a Seilwaith Digidol y Llywodraeth ar gyflymderau band eang.

## Trwyddedu gwasanaethau darlledu teledu a radio

- 4.19 Mae Ofcom yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer pob gwasanaeth teledu masnachol lleol a chenedlaethol yn y DU a phob gwasanaeth radio masnachol a chymunedol analog a digidol. Mae hyn yn helpu i sicrhau ystod ac amrywiaeth o wasanaethau ar gael ledled y DU. Gall

Ofcom roi cosbau am ddiffyg cydymffurfiad â gofynion trwydded ac, mewn achosion difrifol, gall Ofcom diddymu trwyddedau.

## Gorfodi gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad

- 4.20 Mae Ofcom yn sicrhau bod darlledwyr yn darparu cyfran o'u rhaglenni â gwasanaethau mynediad i bobl sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw. Ddwywaith y flwyddyn rydym yn adrodd ar ddarpariaeth darlledwyr o is-deitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain. Mae Ofcom hefyd yn casglu data ar argaeledd gwasanaethau fideo ar-alwad sy'n cyfateb i'r diffiniad statudol o 'wasanaeth rhaglenni ar-alwad', ac mae'n gweithio i gysoni'r gwaith o adrodd ar argaeledd ar draws darllediadau a gwasanaethau ar-alwad.
- 4.21 2018/19 byddwn yn cwblhau ein hymgyngoriad er mwyn helpu i lywio rheoliadau'r Llywodraeth ynghylch argaeledd gwasanaethau rhaglenni ar-alwad<sup>11</sup>, ac yn dilyn hynny byddwn yn ymgynghori ar God newydd ar y Gofynion ar gyfer Gwasanaeth Mynediad yng nghyswllt y gwasanaethau hyn.

## Gwarchod defnyddwyr rhag niwed

### Lleihau nifer y galwadau niwsans

- 4.22 Mae Ofcom yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau cyfathrebu yn y DU i fonitro ac i rwystro traffig galwadau trafferthus, a gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol ar orfodi ac adnabod y sawl sy'n galw. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chyrrff eraill i leihau galwadau niwsans, sy'n arbennig o niweidiol i ddefnyddwyr bregus.

### Gorfodi safonau rhaglenni

- 4.23 Mae Ofcom yn sicrhau bod rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau teledu a radio yn cyrraedd safonau perthnasol, a bod cynulleidfaoedd yn cael eu gwarchod yn briodol rhag cynnwys niweidiol. Rydym yn ystyried cwynion a ddaw i law gan aelodau o'r cyhoedd os yw'r sawl sy'n cwyno yn credu bod rhaglen wedi methu cyrraedd y safonau hyn. Rydym yn ystyried y cwynion a ddaw i law yn erbyn y Cod Darlledu ac unrhyw ganllawiau a chodau perthnasol eraill. Ar ben hynny rydym yn gwirio am achosion o dorri ein rheolau safonau darlledu, ac yn canfod achosion o'r fath, a hynny drwy fonitro wedi'i dargedu parhaus.
- 4.24 Mae Ofcom hefyd yn rheoleiddio gwasanaethau fideo ar-alwad sy'n cyfateb i'r diffiniad statudol o 'wasanaeth rhaglenni ar-alwad'. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau hyn fodloni set benodol o ofynion o ran safonau golygyddol.
- 4.25 O ran cynnwys ar sianeli teledu'r BBC, gorsafodded radio'r BBC, iPlayer a gwefan y BBC, mae Ofcom fel arfer yn ystyried cwynion sy'n cael eu hatgyfeirio atom ni os nad yw'r sawl sy'n

---

<sup>11</sup> Ofcom, Rhagfyr 2017, *Ymgynghoriad: Sut dylid gwneud Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad yn hygyrch?*  
<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/odps-accessibility>

cwyno yn fodlon ar y ffordd mae'r BBC wedi mynd i'r afael â'r gŵyn. O ran deunydd ar-lein ar wefan ac apiau'r BBC, gellir atgyfeirio cwynion at Ofcom i gael ei farn arnynt.

## **Gorfodi amodau rheoleiddio i warchod defnyddwyr**

- 4.26 Mae Ofcom yn mynd ati'n weithredol i orfodi'r amodau rheoleiddio rydym yn eu gosod ar ddarparwyr cyfathrebu, yn ogystal â chyfraith defnyddwyr gyffredinol. Rydym yn monitro cwynion, yn dadansoddi tystiolaeth ac yn cymryd camau'n ddiymdroi i ddelio yn gadarn ac yn effeithiol pan fyddwn ni'n gweld niwed, gan gynnwys ymchwiliadau ffurfiol a chosbau pan fydd hynny'n briodol.

## **Gwella'r broses o ddelio â chwynion a gwella gwasanaethau i gwsmeriaid**

- 4.27 Mae'n rhaid i ddarparwyr cyfathrebiadau gael gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer delio â chwynion sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom. Mae gennym raglen barhaus i sbarduno gwelliannau yn y maes hwn, gan gynnwys gwella safonau gwasanaethau i gwsmeriaid. Diben hyn yw sicrhau bod defnyddwyr yn cael profiad cadarnhaol wrth ddelio â'u darparwyr ac yn cael gwybod am eu hawliau i droi at y drefn ADR (dulliau amgen o ddatrys anghydfod) os yw eu cwyn yn dal heb ei datrys.

## **Gorfodi niwtraliaeth y rhyngwyd**

- 4.28 Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau Rhyngwyd ganiatáu i ddefnyddwyr weld a dosbarthu'r wybodaeth a'r cynnwys o'u dewis, defnyddio neu ddarparu'r rhaglenni a'r gwasanaethau o'u dewis, a defnyddio'r offer terfynell o'u dewis, a hynny drwy eu gwasanaeth mynediad i'r rhyngwyd. Rydym yn mynd ati i werthuso cwynion, cynigion ac ymarfer Darparwyr Gwasanaethau Rhyngwyd, ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i gwestiynau ynglŷn â chydymffurfio godi, a phan fo hynny'n briodol, rydym yn cymryd camau gorfodi. Mae Ofcom yn adrodd ar ei weithgareddau yn flynyddol.

## **Gorfodi rheoliad crwydro rhyngwladol**

- 4.29 Ers 15 Mehefin 2017, mae defnyddwyr sydd â gwasanaethau crwydro rhyngwladol wedi gallu defnyddio eu ffonau dramor yn yr UE heb gostau ychwanegol, yn amodol ar rai mesurau diogelu. Rydym yn monitro cydymffurfiaid â'r rheolau crwydro, gan gynnwys drwy gwynion defnyddwyr, ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid pan fydd pryderon o ran cydymffurfio yn codi, ac yn cymryd camau gorfodi pan fo hynny'n briodol.

## **Gwaith arall ar draws ein nodau**

### **Cynnal ymchwil i'r farchnad ac adroddiadau gwybodaeth am y farchnad**

- 4.30 Mae Ofcom yn cynnal rhaglen ymchwil eang i farchnadoedd cyfathrebiadau ac ymddygiad defnyddwyr a beth sydd orau ganddynt. Mae'r ymchwil hwn yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth drwyadl a chyfredol o ddefnyddwyr yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Mae ein gwaith ar wybodaeth am y farchnad yn casglu data'n uniongyrchol

gan randdeiliaid y diwydiant ac yn ei darparu drwy gyhoeddiadau a diweddariadau data ar y wefan. Mae ein cyhoeddiadau arfaethedig allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1. Mae ein *Calendr Rhyddhau Ystadegau*<sup>12</sup> yn darparu dolenni i'n holl gyhoeddiadau data ystadegol.

## **Adroddiadau ar agweddau a defnydd plant ac oedolion o gyfryngau**

- 4.31 Fel rhan o'n dyletswyddau llythrennedd yn y cyfryngau, rydym yn cyhoeddi adroddiadau a fydd yn rhoi data ar agweddau a defnydd oedolion a phlant ar draws teledu, radio, gemau, darpariaeth symudol a'r rhyngwrwyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar agweddau a defnydd ar-lein.

## **Monitro a dadansoddi datblygiadau technegol a masnachol**

- 4.32 Mae Ofcom yn monitro ac yn dadansoddi datblygiadau technegol a masnachol yn y farchnad er mwyn llywio ein gwaith polisi a sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â phroblemau'r dyfodol.

## **Ymgysylltu â Llywodraeth y DU, llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a chyrrff eraill, ynghylch gwarchod cynulleidfaedd, a rhoi cyngor iddynt yn ei gylch**

- 4.33 Mae Ofcom yn ymgysylltu â llywodraethau, diwydiant a chyrrff eraill i hyrwyddo diogelwch cynulleidfaedd, yn enwedig plant ar draws amgylcheddau traddodiadol ac ar-lein. Rydym yn chwarae rhan weithredol i gefnogi Cyngor Diogelwch Rhyngwrwyd Plant Llywodraeth y DU (UKCCIS). Rydym hefyd yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill ar draws Ewrop, drwy wasanaethau cyfryngau'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Clyweledol (ERGA), i wella'r amddiffyniad ar gyfer gwasanaethau clyweledol.

## **Ymgysylltu â Llywodraeth y DU, llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a chyrrff eraill, ynghylch seilwaith rhwydweithiau, a rhoi cyngor iddynt yn ei gylch**

- 4.34 Mae Ofcom yn ymgysylltu â llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a nifer o gyrrff eraill ar draws y DU, gan roi cyngor ar faterion technegol. Er enghraifft, rydym yn cynghori Llywodraeth y DU a llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig ar faterion sy'n ymwneud ag argaeledd drwy ein gwaith fel rhan o'r Tasglu Seilwaith Digidol ac rydym, yn darparu cefnogaeth i wella darpariaeth symudol ar draws y DU.

## **Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol**

- 4.35 Mae Ofcom yn ymgysylltu â nifer o rhanddeiliaid rhyngwladol ym maes rheoleiddio cyfathrebiadau, i ddysgu o'u profiadau a sicrhau bod syniadau polisi sy'n dod i'r fei, ac

---

<sup>12</sup> Ofcom, Tachwedd 2017, *Calendrau rhyddhau ystadegau*. <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/data/statistics>

unrhyw fentrau deddfwriaethol perthnasol, yn ymateb i anghenion sector cyfathrebiadau'r DU. Byddwn yn parhau i ddatblygu perthnasoedd presennol a meithrin rhai newydd â rhanddeiliaid yn Ewrop ac yng ngweddill y byd. Rydym yn cyfrannu'n frwd at rwydweithiau rheoleiddio Ewropeaidd, gan gynnwys Rheoleiddwyr Cyfathrebiadau Electronig Ewrop (BEREC), y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio (RSPG), y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (ERGA), y Grŵp Rheoleiddwyr ' Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP), a sefydliadau rhanbarthol fel Llwyfan Awdurdodau Rheoleiddio Ewrop (EPRA). Rydym yn cynrychioli'r DU, o dan Gyfarwyddyd y Gweinidog, yn yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU) a'r Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau (CEPT), lle rydym yn cymryd rhan mewn trafodaethau byd-eang a rhanbarthol ar amrywiaeth o faterion. Mae gennym hefyd raglen ymgysylltu amlochrog weithredol â rhanddeiliaid a chymheiriaid rheoleiddio o bob cwr o'r byd (fel yr FCC yn yr Unol Daleithiau, yr ACMA yn Awstralia, yr IFT yn Mecsico, a'r IMDA yn Singapôr, ymysg eraill).

## 5. Cyflawni ein nodau ledled y DU

- 5.1 Mae ystod lawn gwaith Ofcom ar reoleiddio gwasanaethau cyfathrebu, post a darlledu yn bwysig i bobl ac i fusnesau ar draws y DU. Mae gwasanaethau cyfathrebu o ansawdd da yn hollbwysig i bobl ac i fusnesau lle bynnag y bônt. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rai agweddau o'n gwaith dros y flwyddyn nesaf sy'n gyffredin i bob gwlad, ynghyd â rhywfaint o waith penodol sydd â pherthnasedd penodol i'r gwledydd unigol.
- 5.2 Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein nodau ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr ar draws holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae angen i ni ystyried amrywiaeth rhanbarthol a chenedlaethol. Rydym yn gwneud hyn drwy ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ym mhob gwlad drwy ein swyddfeydd cenedlaethol, a drwy weithio'n agos gyda phedwar Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol Ofcom.
- 5.3 Mae rhagor o ddatganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at newidiadau i drefn llywodraethu Ofcom. Mae'r gweinyddiaethau yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast bellach yn gyfrifol yn eu tro am benodi aelod newydd i Fwrdd Ofcom, a hynny mewn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Digidol Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cafodd Bob Downes, aelod yr Alban o Fwrdd Ofcom, ei benodi ym mis Chwefror 2018. Mae disgwyl i aelodau ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon gael eu penodi yn y man.
- 5.4 Ar ben hynny, bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng y gweinyddiaethau datganoledig, yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom yn nodi proses Ofcom ar gyfer ymgynghori â'r deddfwrfeydd a'r llywodraethau datganoledig ynghylch ein Cynllun Blynyddol, pa mor aml mae Ofcom yn ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig, a dyletswydd Ofcom i ddarparu tystiolaeth i Bwyllgorau Seneddol a Chynulliad. Mae Ofcom yn rhoi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd ganddo â Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a Senedd yr Alban ar waith.<sup>13</sup> Mae disgwyl y bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth tebyg yn cael eu cytuno â'r gweinyddiaethau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon a'u rhoi ar waith yn 2018/19 a thu hwnt.

### Heriau cyffredin

- 5.5 Mae darparu gwasanaethau band eang sefydlog, symudol a phost sy'n diwallu anghenion defnyddwyr a busnesau bach a chanolig eu maint mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn peri heriau penodol. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u lleoli yn anghymesur yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ond mae'r un heriau yn effeithio ar rai o ranbarthau Lloegr hefyd.

---

<sup>13</sup> Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Senedd yr Alban a'r Swyddfa Gyfathrebiadau, Ebrill 2017 <https://www.gov.uk/government/publications/memorandum-of-understanding-between-the-uk-government-scottish-government-scottish-parliament-and-the-office-of-communications>

- 5.6 Dylai gwasanaethau darlledu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol hefyd ddiwallu anghenion ac adlewyrchu amrywiaeth cynulleidfaoedd ar draws rhanbarthau a gwledydd y DU.
- 5.7 Byddwn yn gwneud y canlynol yn ystod cyfnod 2018/19:
- 5.8 Cyhoeddi ein **hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd** ar ddarpariaeth a chyflymderau band eang a symudol, gan gynnwys yr amrywiaethau rhwng defnyddwyr gwledig a dinesig ac mewn gwahanol rannau o'r DU. Bydd y wybodaeth hon ar gael i ddefnyddwyr drwy apiau a nodweddion i annog defnydd a dewisiadau gwybodus.
- 5.9 Ymgynghori ar **wella darpariaeth symudol**, gan gynnwys cynigion i ddarparu targedau darpariaeth penodol ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.<sup>14</sup>
- 5.10 **Ymgynghori ar y rhwymedigaeth gwasanaethau cyffredinol yng nghyswllt band eang (USO).** Mae canran uwch o bobl yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon nad oes ganddynt fynediad i wasanaeth band eang teilwng. Mae Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi mentrau band eang sy'n cael cyllid cyhoeddus a bydd y rhain, ochr yn ochr ag USO band eang, yn helpu i fynd i'r afael â hyn.
- 5.11 Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch ein canfyddiadau mewn cysylltiad ag achosion ac effeithiau **codi tâl ychwanegol am barseli** yng Ngogledd Iwerddon ac Ucheldir ac Ynysoedd yr Alban.
- 5.12 Cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar **berfformiad y BBC yn erbyn y gofynion yn ei Drwydded Weithredu**, gan gynnwys y gofynion penodol i'r BBC eu bodloni ym mhob un o wledydd y DU. Ar ben hynny, byddwn yn canolbwyntio ein **hadolygiad thematig cyntaf ar sut mae'r BBC yn cynrychioli ac yn portreadu cymunedau amrywiol gwledydd a rhanbarthau'r DU.**
- 5.13 Adolygu'r canllawiau i **ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain ac yn y gwledydd**, fel sy'n ofynnol dan amodau eu trwydded, ac ystyried a yw'r rhain yn dal yn addas i'r diben o ran cefnogi a chryfhau cynhyrchu ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

## Lloegr

- 5.14 Yn ogystal â mater cysylltedd mewn ardaloedd gwledig, mae'r dwysedd poblogaeth uchel yn ardaloedd trefol Lloegr - a Llundain yn arbennig - yn cyflwyno heriau gwahanol i weithredwyr rhwydweithiau. Bydd ein gwaith ar gyflymderau band eang symudol, ac ymchwil ymysg defnyddwyr ar dderbyniad a mynediad hwylus yn ein helpu i ganfod problemau yn ymwneud â rhwydwaith ac ansawdd gwasanaeth, gan gynnwys problemau posibl ar gyfer defnyddwyr trefol.

---

<sup>14</sup> Ofcom, Mawrth 2018, *Gwella darpariaeth symudol: Cynigion ar gyfer rhwymedigaethau darpariaeth wrth ddyfarnu'r band sbectrum 700MHz*. [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0022/111937/consultation-700mhz-coverage-obligations.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/111937/consultation-700mhz-coverage-obligations.pdf)



- 5.15 O ganlyniad i faint daearyddol Lloegr a'i phoblogaeth fawr, mae cryn amrywiaeth o ran ffactorau cymdeithasol a grwpiau economaidd-gymdeithasol o fewn gwahanol gymunedau a rhyngddynt. Bydd gwaith Ofcom yn ystyried yr amrywiaeth hon.

## Gogledd Iwerddon

- 5.16 Mae ffin Gogledd Iwerddon â Gweriniaeth Iwerddon yn peri heriau unigryw, gyda nifer o wasanaethau ar gael yn y naill awdurdodaeth a'r llall. Wrth i'r DU baratoi ar gyfer gadael yr UE, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon, ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon er mwyn cydlynu a chynnal gwasanaethau trawsffiniol.
- 5.17 Byddwn yn monitro'r broses o roi Protocol BT ar gyfer Gogledd Iwerddon ar waith, ac yn gweithio gydag Uned Fonitro Openreach i sicrhau bod amgylchiadau arbennig lle mae is-adran Rhwydweithiau Gogledd Iwerddon BT yn gweithredu fel asiant Openreach, hefyd yn caniatáu i randdeiliaid yng Ngogledd Iwerddon elwa ar y trefniadau newydd.
- 5.18 Byddwn yn cynnig cyngor rheoleiddiol a thechnegol, yn arbennig i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaeth band eang gwell a darpariaeth symudol well, i adrannau Llywodraeth Gogledd Iwerddon ac i gynghorau lleol yno.

## Yr Alban

- 5.19 Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth yr Alban, Pwyllgorau ac Aelodau o Senedd yr Alban a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, gan gynnwys drwy ddarparu cyngor technegol a data perthnasol pan fo hynny'n briodol. Byddwn yn ymgysylltu'n rhagweithiol â chynigion Llywodraeth yr Alban i greu Tasglu Defnyddwyr yr Alban yng nghyswllt y marchnadoedd perthnasol mae Ofcom yn eu rheoleiddio. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu ysgrifenyddiaeth i Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Gyfranogiad Digidol, ac yn ymgysylltu â Grwpiau Trawsbleidiol perthnasol eraill.
- 5.20 Mae Ofcom wedi datblygu ei adeiladau newydd yng Nghaeredin yn ganolfan polisi a gweithrediadau er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn gallu ymgynghori'n effeithiol â rhanddeiliaid, a chynrychioli buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, a hynny nid yn unig yn yr Alban, ond ar faterion sy'n berthnasol ledled y DU. O ran yr Alban yn benodol, bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch ein hasesiad o gynigion y BBC ar gyfer sianel deledu BBC Scotland newydd. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda MG Alba ar adolygu ein protocol â nhw, ac ar benodi aelodau i Fwrdd MG Alba. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â Lywodraeth yr Alban ar yr holl agweddau perthnasol ar ei Strategaeth Ddigidol,<sup>15</sup> gan gynnwys ei fenter Reaching 100%<sup>16</sup> (sydd wedi'i ddylunio i ddarparu cyflymderau o 30 Mbit/s i 100% o adeiladau yn yr Alban erbyn 2021) yn ogystal â'i

---

<sup>15</sup> Llywodraeth yr Alban, Mawrth 2017, *Realising Scotland's full potential in a digital world: A Digital Strategy for Scotland*. <http://www.gov.scot/Publications/2017/03/7843>

<sup>16</sup> Llywodraeth yr Alban, Gorffennaf 2017, *Digital Scotland – Reaching 100% Programme*. <http://www.gov.scot/Publications/2017/07/4529/343135>

gynlluniau i fynd i'r afael â darpariaeth symudol i fannau digyswllt yn rhai o ardaloedd mwy gwledig yr Alban.

## Cymru

- 5.21 Yn dilyn cyhoeddiad ei Chynllun Gweithredu Ffonau Symudol<sup>17</sup>, byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru i wella cysylltedd data a llais symudol. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu cyngor technegol ac i rannu data lle bo hynny'n briodol, er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgais o ddod o hyd i atebion creadigol ac arloesol ar gyfer gwella darpariaeth. Erbyn i brosiect Cyflymu Cymru ddod i ben, bydd 96% o eiddo yng Nghymru yn gallu elwa ar fand eang cyflym iawn. Byddwn yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru o ran ei hymdrechion i ddarparu gwasanaethau cyflym iawn i'r eiddo sydd heb fynediad.
- 5.22 Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ac S4C i weithredu ar unrhyw argymhellion sy'n ymwneud ag Ofcom a godir o'r adolygiad annibynnol o S4C.<sup>18</sup>
- 5.23 Byddwn yn ymestyn ein hanes llwyddiannus o gadw at Safonau'r Iaith Gymraeg, ac yn bodloni'r gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol, yn amlinellu ein perfformiad hyd yma, i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg.

---

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru, 2017, *Cynllun Gweithredu Symudol*. <http://gov.wales/docs/det/publications/171003-mobile-action-plan-for-wales-cy.pdf>

<sup>18</sup> Y Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Awst 2017, *Adolygiad o Gylch Gorchwyl - S4C*. <https://www.gov.uk/government/publications/s4c-review-terms-of-reference.cy>

## 6. Sicrhau gwerth am arian

### Byddwn yn parhau i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion arian

- 6.1 Rydym yn dechrau ar y drydedd flwyddyn yng nghyfnod Adolygiad o Wariant 2015 Llywodraeth y DU, ac rydym wedi ymrwmo o hyd i sicrhau arbedion - termau real sy'n gyson â'r sector cyhoeddus, ac wedi ymrwmo hefyd i'n hymgyrch ni i fod yn rheoleiddiwr effeithlon ac effeithiol ar gyfer sector cyfathrebiadau deinamig.
- 6.2 Yn sgil pasio Deddf yr Economi Ddigidol 2017, mae gan Ofcom fodel ariannu mwy ymarferol. Rydym bellach yn cael ein hariannu'n gyfan gwbl drwy ffioedd a thaliadau gan y diwydiant. Mae hyn yn helpu i bwysleisio ein hannibyniaeth.
- 6.3 Mae'r cynigion sydd wedi'u nodi ar gyfer 2018/19 yn adeiladu ar ein gwaith blaenorol i gymedroli ein cyllideb. Mae Ofcom yn parhau i sicrhau arbedion cyllidebol cyfatebol mewn termau real, a bydd yn parhau i ganfod arbedion o ran effeithlonrwydd lle bo'n bosibl.

### Ein cyllideb ar gyfer 2018/19

- 6.4 Wrth i ni ysgwyddo heriau a chyfrifoldebau newydd yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio, rydym yn dal i ganolbwyntio ar sicrhau gwerth am arian. Yn ein *Cynllun Blynyddol Arfaethedig*, nodwn gyllideb arfaethedig o £121.2m ar gyfer 2018/19 (a ddiwygiwyd i £121.4m ar ôl hynny). Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi gofyn i Ofcom ehangu ei gylch gwaith, gyda rolau newydd neu wedi'u hehangu yng nghyswllt gwasanaeth cyffredinol band eang a diogelwch seibr. Mae ein cyllideb derfynol yn cynnwys capasiti cynyddrannol i gyflawni'r rolau a'r dyletswyddau newydd hyn. Felly, £124.2m fydd ein cyllideb ar gyfer 2018/19, sef cynnydd o £2.8m. Heb gynnwys y dyletswyddau newydd hyn, mae ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cynrychioli gostyngiad termau real o'i gymharu â 2017/18.
- 6.5 Bydd y costau ar gyfer 2018/19 yn ôl sector rhanddeiliaid yn cael eu cyhoeddi yn ein *Tablau Tariff*.<sup>19</sup> Mae ein cynllun gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y tariffau rydym wedi'u gosod, a does dim newid wedi bod yn y dull rydym wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r costau hyn.

### Sut byddwn yn rheoli ein hadnoddau yn 2018/19

- 6.6 Rydym yn ystyried yn gyson sut yr ydym yn cyflawni ein gwaith i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn cefnogi ein nod i wneud i'r marchnadoedd cyfathrebu weithio i bawb. Os yw'r adnoddau'n gyfyngedig, byddwn yn gwneud dewisiadau, wedi'u tywys gan ein nodau a'n dyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

---

<sup>19</sup> Ofcom, *Tablau Tariff*. <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/annual-reports-and-plans/tariff-tables>

- 6.7 Rydym yn mabwysiadu dull mwy effeithiol, strategol ac integredig ar gyfer ein cyllidebau blynyddol, gan ganolbwyntio ar yr adnoddau, y sgiliau a'r capasiti sydd eu hangen arnom i gyflawni ein cynlluniau a'n dyletswyddau. Bydd hyn yn llifo i sut rydym yn asesu ein cynnydd yn ystod y flwyddyn, gyda dull tymor hirach, mwy cynyddol o gynllunio.
- 6.8 Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n pencadlys yn Llundain, rydym yn parhau i addasu'r adeilad i adlewyrchu'r newid i weithio'n ystwyth ac i wneud ein gweithlu mor hyblyg â phosibl. Bydd hyn yn lleihau ein hól-troed yn Llundain tua 25% yn y pen draw, ac yn lleihau ein gorbenion eiddo yn y dyfodol. Mae gweithio'n ystwyth yn gyfle i ni elwa i'r eithaf ar ein hadnoddau drwy gydol y flwyddyn, ac i ymateb i unrhyw waith adweithiol a ddaw i'r fei.
- 6.9 Mae llwyddo i adleoli nifer o rolau i swyddfeydd yng ngogledd orllewin Lloegr a'r Alban yn rhan hanfodol o'n proses o symud i amgylchedd gweithio'n ystwyth, ac yn sicrhau ein bod yn defnyddio ein holl ofod swyddfa mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.
- 6.10 Fel rhan o'n prosiect gweithio'n ystwyth, rydym hefyd yn buddsoddi mewn TGCh i symud rhai o'n swyddogaethau a'n systemau i lwyfannau yn y cwmwl ac i gefnogi ffordd fwy cydweithredol o weithio. Byddwn yn ymgorffori adnoddau cynllunio ac adrodd newydd i gefnogi ein gwaith prosiect ac i hyrwyddo sut gallwn ddefnyddio ein hadnoddau orau.
- 6.11 Mae gennym fframwaith sicrwydd cadarn ar waith gyda ffocws i sicrhau gwerth am arian ar y rhaglen clirio sbectrum 700 MHz, a chynyddu'r manteision i economi'r DU yn ehangach, ac rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i gyflawni amcanion y rhaglen yn ôl cynllun darparu cyflymach.
- 6.12 Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cwblhau nifer o fentrau pwysig sy'n lleihau costau ac yn cynyddu effeithlonrwydd. Bydd yr arbedion o'r rhain yn dal i lifo i'r flwyddyn hon a blynyddoedd i ddod.

## A1. Y rhaglen waith ar gyfer 2018/19

A1.1 Isod, rydym yn nodi ein rhaglen waith ar gyfer 2018/19. Rydym yn darparu manylion am y prosiectau sy'n sail i'n meysydd gwaith blaenoriaeth, yn ogystal â'n cynllun gwaith ehangach i gyflawni ein nodau. Ers y Cynllun arfaethedig, rydym wedi ychwanegu sawl prosiect yn dilyn cyhoeddiadau rheoleiddio diweddar, ac rydym hefyd wedi cadarnhau ein prif gyhoeddiadau o ran ymchwil i'r farchnad.

### Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

Manylion y Prosiect	Cyfarwyddwr y Prosiect	Carreg Filtir
<b>Cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith rhwydweithiau:</b> Byddwn yn gweithredu rheoleiddio yn sgil ein hadolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol, ac yn parhau i weithio gyda phob cyfranogwr yn y diwydiant yn ôl yr angen er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i ystod o fuddsoddiadau mewn seilwaith rhwydweithiau ffibr llawn uwch sy'n cystadlu â'i gilydd - gan gynnwys cyd-fuddsoddiad.	Paul Jacobus/ Tim Cross	Cynhadledd Fuddsoddi Ch1 2018/19
<b>Diwygio Openreach yn effeithiol:</b> Rydym yn monitro ac yn adrodd ar y cynnydd o ran y trefniadau i wahanu Openreach a BT yn gyfreithiol. Byddwn yn asesu effeithiolrwydd y camau a gymerir i sicrhau manteision i ddefnyddwyr, gan gynnwys mynd i'r afael â'n pryderon o ran cystadleuaeth ac annog buddsoddiad newydd mewn rhwydweithiau.	Gaicho Rasmussen	Adroddiad gweithredu Ch1 2018/19; Adroddiad monitro Ch3 2018/19
<b>Paratoi ar gyfer yr adolygiadau nesaf o'r farchnad, gan gynnwys asesiad o anghenion busnesau a chwmnïau telegyfathrebiadau a gwasanaethau llinellau ar les (y Farchnad Cysylltedd Busnes).</b>	Tim Cross	Ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes Ch1 2018/19; Datganiad BCMR Ch4 2018/19
<b>Helpu defnyddwyr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig, i ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau:</b> Byddwn yn cyhoeddi ymchwil i rwystrau o ran cystadleuaeth a gwneud dewisiadau, ac yn ymgynghori ar ddatrysiadau posibl pan fo hynny'n berthnasol.	Jane Walsh	Cyhoeddi ymchwil a diweddariad Ch1 2018/19; Ymgynghoriad Ch2 2018/19; Datganiad Ch4 2018/19
<b>Paratoi ar gyfer dyfarniadau sbectrwm yn y dyfodol wrth iddynt gael eu clirio a'u rhyddhau.</b> Bydd hyn yn cynnwys dylunio unrhyw arwerthiannau, goblygiadau a	Gideon Senensieb	Ymgynghoriad Ch3 2018/19

mesurau i hyrwyddo cystadleuaeth fel rhan o ddyfarnu trwydded ar gyfer y bandiau 700MHz a 3.6 i 3.8.		
<b>Cwblhau BCA o BBC Scotland:</b> Byddwn yn cynnal ein hasesiad cystadleuaeth cyntaf o gynigion y BBC i lansio gwasanaeth teledu BBC Scotland newydd.	Siobhan Walsh	Datganiad Ch1 2018/19
<b>Adolygiad o BBC Studios:</b> Byddwn yn casglu tystiolaeth ac yn ystyried a yw gweithgarwch BBC Studios yn dilyn y gofynion masnachu a gwahanu.	Siobhan Walsh	Cais am fewnbwn Ch4 2018/19
<b>Ymgynghori ar ganllawiau yn ymwneud â weithgareddau masnachol a masnachu'r BBC:</b> Byddwn yn ystyried diweddariadau i'n gofynion a'n canllawiau ynghylch gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC ac yn ymgynghori ar hynny.	Siobhan Walsh	Ymgynghoriad Ch2 2018/19; Datganiad a'r gofynion diweddaraf Ch3 2018/19
<b>Ymgynghori ar dull gweithredu Ofcom ar gyfer comisiynu'r BBC:</b> Byddwn yn ystyried y canllawiau a'r gofynion i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol ac yn ymgynghori ar hynny.	Siobhan Walsh	Ymgynghoriad Ch1 2018/19; Datganiad Ch3 2018/19
<b>Cwblhau'r adolygiad o'r farchnad terfynu galwadau 070:</b> Byddwn yn cwblhau ein hasesiad cystadleuaeth ar gyfer y farchnad terfynu galwadau i rifau ffôn 070.	Markham Sivak	Datganiad Ch1 2018/19
<b>Adolygiad o adroddiadau ariannol rheoleiddiol y gwasanaethau post:</b> Byddwn yn cwblhau ein hasesiad o rai rheolau prisio a chyfrifyddu y mae'r Post Brenhinol yn eu defnyddio wrth baratoi ei adroddiadau ariannol.	David Brown	Ymgynghoriad Ch2 2018/19; Datganiad Ch4 2018/19
<b>Cyngor ar reoleiddio parseli trawsffiniol:</b> Byddwn yn parhau i gynnig cyngor i'r Llywodraeth ynghylch y cynigion ar gyfer rheoliad i gynyddu goruchwyliaeth a thryloywder gwasanaethau danfon parseli ar draws ffiniau yn yr UE, yn cynnwys y diwygiadau a gynigiwyd mewn trafodaethau â Senedd Ewrop a Chyngor Ewrop, ac yn gweithio gyda'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP) i roi unrhyw fesurau y cytunir arnynt ar waith.	Philip Groves	Gweithredu mesurau Ch1-Ch3 2018/19

## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

Manylion y Prosiect	Cyfarwyddwr y Prosiect	Carreg Filtir
<b>Gwasanaeth cyffredinol band eang (USO):</b> Bydd Ofcom yn rhoi rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yng nghyswllt band eang ar waith ar ôl i'r Llywodraeth osod deddfwriaeth eilaidd yn nodi prif nodweddion y gwasanaeth. Byddwn yn ymgynghori ar ddynodi darparwr/darparwr gwasanaeth cyffredinol, sut caiff y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ei hariannu, a'r amodau a osodwyd ar y darparwyr gwasanaeth cyffredinol dynodedig.	Selina Chadha	Ymgynghoriad Ch3 2018/19

<b>Gwella darpariaeth symudol:</b> Rydym yn ymgynghori ar cynigion ar gyfer rhwymedigaethau trwydded newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i wella darpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig, yn gysylltiedig â dyfarnu'r band sbectrwm 700 MHz.	Richard Wronka / David Harrison	Ymateb i'r ymgynghoriad Ch3 2018/19
<b>Cyhoeddi Adroddiad blynyddol cyntaf Ofcom ar y BBC:</b> Byddwn yn nodi sut rydym wedi cynnal ein dyletswyddau newydd ac yn asesu cydymffurfiad y BBC â'r gofynion penodol yn y Fframwaith Gweithredu a'r Drwydded Weithredu. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar wahân yn mesur perfformiad y BBC o ran cyflawni'r genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus.	Siobhan Walsh / Jacquie Hughes / Tony Close	Datganiad Ch3 2018/19
<b>Cyhoeddi adolygiad thematig cyntaf o'r BBC:</b> Bydd yr adolygiad cyntaf yn ymwneud â dibenion cyhoeddus y BBC i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu'r cymunedau amrywiol o bob cwr o'r DU.	Rebecca Taylor	Adroddiad Ch3 2018/19
<b>Adolygu'r canllawiau i ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus ar gynhyrchu y tu allan i Lundain:</b> Byddwn yn adolygu'r canllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB) ar fodloni amodau eu trwydded o ran rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain ac yn y gwledydd, ac yn ystyried a yw'r rhain yn dal yn addas i'r diben o ran cefnogi a chryfhau cynhyrchu ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.	Simon Terrington	Ymgynghoriad Ch2 2018/19; Datganiad Ch4 2018/19
<b>Adolygu cynnwys plant:</b> Byddwn yn adolygu faint o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd iau, ynghyd â'i amrywiaeth a'i ansawdd, gan gynnwys y posibilrwydd o osod meini prawf ar gyfer rhaglenni plant.	Simon Terrington	Adroddiad Ch2 2018/19
<b>Hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu:</b> Byddwn yn cyhoeddi ein hail adroddiad blynyddol ar y diwydiant teledu yn y DU, a'n hadroddiad cyntaf ar y diwydiant radio yn y DU, er mwyn darparu darlun cynhwysfawr o berfformiad darlledwyr unigol – a'r diwydiant drwyddo draw – yng nghyswllt cyfleoedd cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyflogaeth.	Vikki Cook	Cyhoeddi adroddiad o'r diwydiant Radio Ch1 2018/19; Cyhoeddi adroddiad o'r diwydiant Teledu Ch2 2018/19;
<b>Adolygu'r Cod EPG ac Amlygrwydd PSB:</b> Mae'n rhaid i ni adrodd ar y wybodaeth a ddarperir ar gyfeirddion rhaglenni electronig am raglenni ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus neu wasanaethau rhaglenni ar-alwad PSB, a mynediad atynt. Byddwn yn adrodd ar amlygrwydd PSB fel y mae ar hyn o bryd, yn ystyried cwestiynau polisi ehangach sy'n codi o'r gwaith hwn ac yn adolygu Cod EPG Ofcom.	Simon Terrington	Ymgynghoriad Ch1 2018/19; Datganiad Ch3 2018/19
<b>Adolygu'r capiau diogelu ail ddsbarth ar gyfer llythyrau a pharseli gwasanaeth cyffredinol:</b> Byddwn yn asesu'r capiau diogelu ar gyfer llythyrau safonol ail ddsbarth, llythyrau mawr a pharseli bach a chanolig.	Richard Orpin	Ymgynghoriad Ch2 2018/19; Datganiad Ch4 2018/19

<b>Darledu sain ddigidol (DAB) ar raddfa fach:</b> Ar ôl ymgynghoriad a gorchymyn drafft sydd yn yr arfaeth gan y Llywodraeth, byddwn yn llunio cynlluniau ar gyfer gweithredu a thrwyddedu DAB ar raddfa fach.	Neil Stock	Ymgynghoriad (yn dilyn Gorchymyn drafft gan y Llywodraeth - i'w ddisgwyl yn Ch3 2018/19)
<b>Lleolrwydd mewn radio:</b> Bydd Ofcom yn adolygu ei ddull gweithredu ar gyfer rheoleiddio lleolrwydd mewn radio masnachol analog lleol.	Neil Stock	Ymgynghoriad Ch1 2018/19; Datganiad Ch3 2018/19
<b>Hyrwyddo hygyrchedd ar deledu a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad:</b> Byddwn yn cwblhau ein hymgynghoriad ar reoliadau ynghylch argaeledd gwasanaethau rhaglenni ar-alwad ac yn cyflwyno ein hargymhellion i'r Llywodraeth.	Tony Close	Argymhellion i'r Llywodraeth Ch2 2018/19
<b>Adolygiad o berchnogaeth cyfryngau:</b> Mae gennym ddyletswydd statudol i adolygu'r rheolau perchnogaeth cyfryngau y mae'r Senedd yn eu gosod, ac adrodd yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol, a hynny bob tair blynedd.	Simon Terrington	Adroddiad Ch3 2018/19
<b>Ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol Corfforaeth Channel 4:</b> Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad o sut mae Channel 4 yn cyflawni ei gynlluniau a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, fel y nodir yn ei ddatganiad, ac yn cyhoeddi ein hymateb i hynny.	Simon Terrington	Adroddiad Ch1 2018/19
<b>Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd:</b> Byddwn yn parhau i ddarparu gwybodaeth hygyrch mae modd ei chymharu i ddefnyddwyr am argaeledd ac amcan ynghylch cyflymderau band eang sefydlog cyflym iawn a thra chyflym ac ar gyfer rhwydweithiau symudol. <b>Bydd y data perthnasol yn cael eu cyhoeddi yn ein Hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol, ein diweddariadau cyfnodol i'r adroddiad, a'r apiau symudol a'r adnoddau gweledol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad. Byddwn yn adrodd ar wasanaeth band eang cyffredinol ac ar ba mor ddiogel a chadarn yw gwasanaethau cyfathrebiadau.</b> Ar ben hynny, byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau i Dasglu Cynhwysiant a Seilwaith Digidol Llywodraeth y DU ar gyflymderau band eang.	Gary Clemo	Diweddariadau a data Ch1 a Ch2 2018/19  Adroddiad, data ac adnoddau ar-lein Ch3 2018/19
<b>Gwella'r wybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch darpariaeth sefydlog a symudol a pherfformiad:</b> Byddwn yn gwella ein hadnodd gwirio band eang a'n hadnodd darpariaeth symudol er mwyn darparu gwybodaeth fwy cywir i ddefnyddwyr am ansawdd y profiad mae gwahanol wasanaethau'n ei ddarparu mewn gwahanol leoliadau. Byddwn yn diweddarau'r data a ddefnyddir yn yr adnoddau yn aml, gan weithio'n agos gyda'r diwydiant i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn adlewyrchu'r gwasanaethau sydd ar gael i ddefnyddwyr ar y pryd.	David Harrison	Diweddarau'r adnoddau Ch3 2018/19



<b>Adroddiad traws-sector ar farchnad gyfathrebu'r DU:</b> Byddwn yn cyhoeddi ein trosolwg blynyddol o farchnad gyfathrebu'r DU, gan amlygu'r prif ddatblygiadau yn y farchnad ac yn cyhoeddi data ar y meysydd canlynol: teledu a chlyweledol, radio a sain, ffonau llinellau sefydlog a symudol, defnydd o'r rhyngwyd, a'r post.	Ian Macrae	Cyhoeddi adroddiad Ch2 2018/19
<b>Adrodd ar ganlyniadau i gynulleidfaoedd y DU:</b> Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol newydd a fydd yn taro golwg gyffredinol ar sut wasanaeth mae cynulleidfaoedd y DU yn ei gael. Bydd hwn yn ymgorffori'r adroddiad ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r adroddiadau ar gydymffurfiaid gwasanaethau cyhoeddus yr ydym wedi eu cyhoeddi yn y gorffennol, a bydd hefyd yn ymwneud â chynnwys fideo ar-alwad a radio.	Ian Macrae	Cyhoeddi adroddiad Ch2 2018/19
<b>Adrodd ar berfformiad band eang yn y cartref:</b> Byddwn yn adrodd ar ddata a gasglwyd gan banel o ddefnyddwyr band eang preswyl sydd ag unedau monitro wedi'u cysylltu â'u llwybrydd band eang. Bydd yn cynnwys asesiadau o'r modd mae cyflymderau a metrigau perfformiad eraill yn amrywiol yn ôl technoleg, darparwr, amser o'r dydd a daearyddiaeth.	Ian Macrae	Cyhoeddi adroddiad Ch1 2018/19
<b>Adrodd ar brofiad symudol defnyddwyr:</b> Bydd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata wedi'i gasglu gan banel o ddefnyddwyr symudol sydd wedi lawrlwytho ap ymchwil Ofcom ar eu ffonau clyfar. Bydd yn cynnwys asesiad o berfformiad a argraffiadau defnyddwyr o gysylltiadau symudol ar gyfer gwasanaethau llais a data a sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl ystod o ffactorau gan gynnwys technoleg, daearyddiaeth ac amser o'r dydd.	Ian Macrae	Cyhoeddi adroddiad Ch1 2018/19
<b>Adrodd ar batrymau prisio:</b> Byddwn yn rhoi adroddiad ar batrymau mewn prisio gwasanaethau sefydlog, symudol a theledu drwy dalu. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r prisiau sydd ar gael i ddefnyddwyr sy'n prynu mathau gwahanol o wasanaethau a chrynodeb o beth mae defnyddwyr, ar gyfartaledd, yn ei dalu. Bydd hefyd yn edrych ar strwythurau tariff a sut mae prisiau 'gostyngedig' yn amrywio o brisiau safonol i brisiau 'rhestr'.	Ian Macrae	Cyhoeddi adroddiad Ch1 2018/19
<b>Darparu adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau yn y sectorau symudol a sefydlog:</b> Byddwn yn rhoi metrigau mae modd eu cymharu ynghylch ansawdd gwasanaeth darparwyr cyfathrebiadau i ddefnyddwyr a'r diwydiant.	Siobhan Pointer / Andrew Ward	Cyhoeddi adroddiad Ch1 2018/19; Adroddiad am gwynion bob chwarter
<b>Adroddiad ar newyddion:</b> Byddwn yn parhau i ddarparu trosolwg o agweddau ac arferion cael gafael ar newyddion ledled y DU, ar sail data ein harolwg blynyddol.	Deborah McCrudden	Cyhoeddi adroddiad Ch2 2018/19

<p><b>Rhoi adroddiad ar llythrennedd oedolion yn y cyfryngau:</b> Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, gan edrych ar lythrennedd yn y cyfryngau ymysg oedolion y DU. Bydd yn cynnwys data ar ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth oedolion 16 oed a hŷn yng nghyswllt cyfryngau, a sut mae'r rhain yn newid dros amser. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar y grwpiau hynny sy'n llai tebygol o gymryd rhan yn ddigidol.</p>	Emily Keaney	Adroddiad Ch1 2018/19
<p><b>Rhoi adroddiad ar lythrennedd plant yn y cyfryngau:</b> Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad ar Agweddau a Defnydd Plant o Gyfryngau blynyddol, gan roi tystiolaeth fanwl am ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc 5-15 oed, yn ogystal â gwybodaeth fanwl am fynediad i'r cyfryngau a defnydd ymhlith plant 3-4 oed. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys safbwyntiau rhieni am ddefnydd eu plant o gyfryngau, a'r ffyrdd mae rhieni yn monitro neu'n cyfyngu ar ddefnyddio gwahanol fathau o gyfryngau.</p>	Emily Keaney	Adroddiad Ch3 2018/19
<p><b>Clirio sbectrwm 700MHz:</b> Byddwn yn parhau i weithio i glirio gwasanaethau teledu daearol digidol (DTT) a gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) oddi ar y band 700 MHz er mwyn rhyddhau'r sbectrwm hwn ar gyfer data symudol. Byddwn hefyd yn gweithio i glirio gwasanaethau PMSE oddi ar y band ac yn cefnogi'r broses o fudo i ddyraniad sbectrwm newydd. Ein hamcan ar hyn o bryd yw sicrhau bod y band 700 MHz ar gael i wasanaethau symudol erbyn canol 2020.</p>	Graham Plumb	Bydd y digwyddiadau clirio'n dechrau mewn ardaloedd yng Nghymru, yr Alban, Lloegr ac Ynysoedd y Sianel yn 2018/19
<p><b>Cynllun grantiau ar gyfer clirio 700MHz:</b> Byddwn yn gweinyddu cynllun grantiau i ariannu'r costau ychwanegol a gaiff darlledwyr o ganlyniad i'r newidiadau mewn seilwaith sy'n gysylltiedig â chlirio 700 MHz. Byddwn hefyd yn datblygu cynllun grantiau i ariannu cyfran o'r costau mae defnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn eu hwynebu o ganlyniad i golli mynediad at y band 700 MHz.</p>	Helen Hearn	Datganiad Ch1 2018/19
<p><b>Rhannu mynediad yn y band 3.8 i 4.2 GHz:</b> Byddwn yn parhau â'n gwaith i alluogi rhagor o rannu mynediad yn y band hwn. Wrth wneud hyn ein nod yw gwarchod defnyddwyr presennol y band gan hyrwyddo mynediad i ddefnyddwyr newydd ar yr un pryd. Byddwn yn ymgynghori ar y cynigion, gan gynnwys ystyried y mecanwaith awdurdodi priodol a'r atebion cronfa ddata ar gyfer mynediad sbectrwm deinamig.</p>	Helen Hearn	Ymgynghoriad Ch4 2018/19
<p><b>Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC-19):</b> Caiff y Gynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd nesaf ei chynnal fis Hydref/Tachwedd 2019, a bydd yn ystyried amrywiaeth o faterion sbectrwm pwysig, gan gynnwys sbectrwm ar gyfer band eang symudol (5G), defnydd o loeren a Rhwydweithiau Ardal Leol Radio (wifi). Bydd Ofcom yn</p>	Chris Woolford	Diweddariadau yn y cyfnod cyn WRC 2019

gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid yn y DU a phartneriaid yn Ewrop i bennu safbwyntiau'r DU ac Ewrop ar gyfer WRC-19, gyda'r nod o sicrhau'r canlyniadau sy'n cyd-fynd orau â buddiannau'r DU.		
<b>Paratoi i ddarparu digon o sbectrwm ar gyfer 5G:</b> Byddwn yn parhau i ddiweddarau ein map sbectrwm i gefnogi'r twf mewn band eang di-wifr. Byddwn yn paratoi i ddarparu digon o sbectrwm ar gyfer technolegau di-wifr newydd gan gynnwys 5G er mwyn hwyluso cyflwyno gwasanaethau yn gyflym er mwyn sicrhau bod manteision 5G yn cael eu darparu i ddinasyddion a defnyddwyr ar draws y DU. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannu, yn ystod 2018/19, at astudiaethau rhyngwladol i ddiffinio'r amodau technegol ar gyfer 5G, a gwerthuso potensial bandiau gwahanol ar gyfer 5G.	Cristina Data	Parhaus
<b>Cynllunio 26 GHz:</b> Byddwn yn parhau â'n gwaith ar 26 GHz fel y band tonnau mm (mmWave) arloesol ar gyfer 5G. Ein ffocws yw sicrhau bod y sbectrwm yn cael ei awdurdodi mewn ffordd sy'n adlewyrchu nodweddion y sbectrwm a'r achosion defnydd posibl, a hynny i sicrhau rhagor o arloesi a chystadleuaeth. Byddwn yn monitro'r galw, yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn cyfrannu at y broses o baratoi WRC-19 er mwyn adnabod 26 GHz fel band byd-eang.	Cristina Data	Parhaus

## Gwarchod defnyddwyr rhag niwed

Manylion y Prosiect	Cyfarwyddwr y Prosiect	Carreg Filtir
<b>Adolygu'r gost o ffonio gwasanaethau ymholiadau rhifau ffôn:</b> Byddwn yn adolygu'r gost o ffonio gwasanaethau ymholiadau rhifau ffôn i wneud yn siŵr bod y prisiau'n dryloyw ac yn deg i ddefnyddwyr.	Andrew Ward / John O'Keefe	Ymgynghoriad Ch1 2018/19; Datganiad Ch4 2018/19
<b>Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwrwyd:</b> Byddwn yn nodi ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir yn sgil darparwyr cyfathrebiadau yn mudo i brotocol llais dros y rhyngwrwyd (VoIP), gan gynnwys y posibilrwydd o ddiffodd y Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus yn y dyfodol. Nod hynny yw gwarchod defnyddwyr rhag niwed a lleihau'r amhariad. Byddwn yn gosod egwyddorion ar gyfer cydymffurfio â GC3 (ar wasanaethau brys).	Alan Pridmore	Datganiad Ch2 2018/19
<b>Sicrhau bod gweithredwyr rhwydwaith yn dylunio ac yn gweithredu rhwydweithiau yn unol â'n canllawiau ac ymarfer diogelwch a chadernid da. Bydd hyn yn cynnwys paratoi a gweithredu gofynion arfaethedig y Gyfarwydddeb Rhwydwaith a Diogelwch Gwybodaeth a chefnogi cynllun peilot TBEST yr Adran dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer sicrwydd diogelwch seibr.</b>	Huw Saunders	Gweithredu o Ch1 2018/19 ymlaen

<b>Cyfranogiad a bregusrwydd:</b> Byddwn yn cyhoeddi ein hail adroddiad Mynediad a Chynhwysiant, gan archwilio'r defnydd o wasanaethau gan ddefnyddwyr anabl a defnyddwyr mewn amgylchiadau bregus.	Cristina Luna-Esteban	Adroddiad Ch4 2018/19
<b>Gwarchod a sicrhau cynulleidfaoedd:</b> Byddwn yn ystyried a oes angen datblygu'r fframwaith rheoleiddio ymhellach er mwyn gwarchod cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol, a hyrwyddo diogelwch a sicrwydd mewn amgylchedd ar-lein.	Tony Close	Parhaus
<b>Gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd:</b> Rydym yn ystyried a yw'n briodol diweddar rheolau yn y Cod Darlledu sy'n ymwneud â diogelu plant. Yn benodol, a ddylai darlledwyr allu dangos rhaglennu sy'n fwy addas i oedolion yn ystod y dydd, ar yr amod bod system warchod sy'n defnyddio PIN gorfodol ar waith.	Tony Close	Datganiad Ch2 2018/19

## Ymgysylltu yn ystod newidiadau i ddeddfwriaeth Ewropeaidd

Manylion y Prosiect	Cyfarwyddwr y Prosiect	Carreg Filtir
<b>Diogelu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a busnesau yn y DU drwy gydol proses Brexit:</b> Byddwn yn ystyried sut gallai ein perthynas newydd â'r UE effeithio ar farchnadoedd a deddfwriaeth berthnasol. Rydym yn rhoi cyngor i Lywodraeth y DU ynghylch y pynciau sy'n ymwneud â'r sectorau sy'n cael eu rheoleiddio gennym, a byddwn yn parhau helpu'r Llywodraeth â'i thrafodaethau yn y dyfodol.	Liz Bates	Parhaus
<b>Cyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol:</b> Cafodd cynigion yn adolygu'r Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol eu cyhoeddi ym mis Mai 2016, ac mae'r trafodaethau yn parhau. Mae ein hymgysylltiad yn ceisio sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau cyfryngau clyweledol yn dal i roi'r warchodaeth y mae cynulleidfaoedd yn ei disgwyl ac i hyrwyddo marchnad cynnwys Ewropeaidd fywiog yn yr oes ddigidol.	Camilla Bustani	Parhaus - Disgwyl mabwysiadu yn ystod 2018
<b>Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig yr UE:</b> Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion yn adolygu'r Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig ym mis Medi 2016. Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau Ewropeaidd, rheoleiddwyr Ewropeaidd eraill a Llywodraeth y DU i helpu i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn gymesur, yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r sector ac yn diwallu anghenion defnyddwyr heddiw ac yn y dyfodol.	Camilla Bustani	Parhaus - disgwyl mabwysiadu yn ystod 2018.

## A2. Ymatebion i'r ymgynghoriad

### Digwyddiadau ymgynghori ac ymatebion

- A2.1 Fe wnaethom gyhoeddi ein *Cynllun Blynyddol Arfaethedig* ar 1 Rhagfyr 2017 ar gyfer ymgynghoriad.
- A2.2 Ym mis Ionawr 2018 gwnaethom gynnal digwyddiadau yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain. Roedd hyn yn gyfle i ni ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid a chlywed safbwyntiau amrywiol ar flaenoriaethau Ofcom o bob cwr o'r DU.
- A2.3 Cawsom 46 o ymatebion ysgrifenedig i'n Cynllun Blynyddol Arfaethedig gan gwmnïau sy'n gweithio mewn amrywiaeth o farchnadoedd cyfathrebu, yn ogystal â chyrrff masnach sefydliadau budd defnyddwyr, ac unigolion.
- A2.4 Rydym wedi ystyried pob cyflwyniad wrth lunio ein Cynllun Blynyddol terfynol, ac rydym wedi cyhoeddi pob cyflwyniad nad oedd yn gyfrinachol yn llawn ar ein gwefan.<sup>20</sup> Isod rydym wedi darparu crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ynghyd â'n hymatebion i'r prif bwntiau a godwyd, wedi'u grwpio yn ôl thema a nod strategol.

### Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

#### Cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith rhwydweithiau

- A2.5 Dywedodd **Openreach** y byddai diddordeb ganddo mewn cael mwy o wybodaeth am y gynhadledd fuddsoddi sy'n cael ei chrybwyll yn y cynllun.
- A2.6 Roedd **Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon** yn credu bod gan Ofcom rôl i'w chwarae fel hwylusydd ymysg partïon sydd â diddordeb er mwyn sicrhau bod gwasanaethau band eang cyflymach yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus ledled Gogledd Iwerddon.
- A2.7 Soniodd **Chris Barwise** am ei brofiadau personol o wasanaethau band eang a'i fod yn credu y dylid buddsoddi mewn ffibr i'r adeilad gan fod hynny'n addas ar gyfer y dyfodol.
- A2.8 Dywedodd **George Adam** fod gan ddefnyddwyr yn yr Alban lai o ddarparwyr gwasanaethau rhyngwrwd i ddewis o'u plith, a gofynnodd pwy fyddai'n darparu'r capasiti ôl-gludo i alluogi mwy o ddarparwyr gwasanaethau rhyngwrwd i gysylltu eu rhwydweithiau a chystadlu. Roedd yn poeni am y posibilrwydd o fonopoli pe na bai cyflenwyr yn darparu gwasanaeth cyfanwerthu i ddarparwyr gwasanaethau rhyngwrwd eraill.
- A2.9 Dywedodd y **Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu** ei fod yn cefnogi'r broses o gyflwyno ffibr i'r adeilad, ond nid goradeiladu. Roedd am weld y diwydiant yn cydweithio er mwyn

<sup>20</sup> Ofcom, Rhagfyr 2017, *Ymgynghoriad: Cynllun Blynyddol Arfaethedig 2018-19*.

<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/proposed-annual-plan-2018-19>

galluogi newid ar draws gwahanol lwyfannau a thechnolegau, ac roedd yn poeni y byddai cynnyrch cyfanwerthu newydd Openreach (SOGEA a SOGfast) yn gwneud perthynas ei aelodau ag Openreach yn un fwy pell ei ffordd. Gwnaeth hefyd annog Ofcom i ystyried dylanwadu ar reoliadau cynllunio ar gyfer datblygiadau adeiladau newydd er mwyn gwneud cysylltedd rhyngryd yn ofynnol ynddynt.

- A2.10 Dywedodd **Telefonica** y byddai Ofcom yn hollbwysig o ran cyflwyno 5G, ond y dylai ganolbwyntio ar gael gwared ar y rhwystrau i fuddsoddi, nid ar bennu'r model i ddarparwyr rhwydweithiau. Galwodd ar Ofcom i weithio gyda'r Llywodraeth i edrych ar reoliadau cynllunio er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno rhwydweithiau.
- A2.11 Dywedodd **Llywodraeth Cymru** mai dim ond ffibr llawn fydd yn gallu bodloni gofynion o ran lled band yn y dyfodol, a bod angen adlewyrchu hyn mewn polisiau, rheoliadau a phenderfyniadau buddsoddi. Nododd ei bod yn disgwyl i'r mater hwn gael lle blaenllaw yn rhaglenni gwaith Ofcom yn y dyfodol.
- A2.12 Anogodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cyngori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** Ofcom i "wella ansawdd a dibynadwyedd, nid dim ond cyflymder" o ran profiadau defnyddwyr band eang a symudol, gan nodi bod gwasanaeth dibynadwy a gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid yn bwysig dros ben i ddefnyddwyr.

### Ein hymateb

- A2.13 Cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith rhwydweithiau yw un o brif flaenoriaethau Ofcom yn y flwyddyn sydd i ddod. Rydym yn cytuno bod angen rhagor o fuddsoddiad er mwyn datblygu rhwydweithiau band eang sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau ffibr llawn sy'n gallu darparu cyflymderau o fwy na 1Gbit yr eiliad; sy'n fwy dibynadwy na rhwydweithiau copr ac sy'n cael pum gwaith yn llai o namau; ac sy'n gallu perfformio'n fwy cyson gyda chyflymderau agosach i'r rheini sy'n cael eu hysbysebu. Rydym yn credu mai cystadleuaeth rhwng gwahanol rwydweithiau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sbarduno rhagor o arloesi a buddsoddi mewn rhwydweithiau ffibr o ansawdd da.
- A2.14 Mae hyrwyddo cystadleuaeth yn ganolog i'n hymdrechion i ysgogi buddsoddiad yn sector telegyfathrebiadau'r DU a'r seilwaith sydd ei hangen ar y wlad. Rydym felly wedi mabwysiadu newid strategol mawr yn ein hadolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol er mwyn annog buddsoddiad ar raddfa fawr mewn rhwydweithiau ffibr llawn, gan bellhau o'r ddibyniaeth ar dechnolegau copr yn bennaf yn rhwydwaith presennol BT. Bydd y dull gweithredu rheoleiddiol hwn yn ategu ymrwymadau diweddar gan gwmnïau band eang i gysylltu miliynau o adeiladau â ffibr llawn dros y blynyddoedd nesaf, ac mae wedi'i ddylunio i hybu rhagor o fuddsoddiad ar gyfer uchelgeisiau eraill.
- A2.15 Mae dau fesur ategol y gallwn eu defnyddio i annog buddsoddiad cystadleuol mewn rhwydweithiau:
- i) lleihau'r gost a'i gwneud yn gyflymach ac yn haws i ddarparwyr sy'n cystadlu ddatblygu eu rhwydweithiau eu hunain (gan ddefnyddio polion a phibellau BT); a

- ii) sicrhau bod gan ddarparwyr sy'n cystadlu gymhellion priodol i ddatblygu eu rhwydweithiau eu hunain yn hytrach na phrynu gwasanaethau cyfanwerthol gan Openreach (drwy beidio â rheoleiddio prisiau cynnyrch band eang cyflym iawn cyfanwerthol cyflymaf Openreach).

- A2.16 Yn 2018/19 byddwn yn rhoi rheoliadau ar waith ar ôl yr adolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol.<sup>21</sup> Yn benodol, byddwn yn gweithio gydag Openreach a darparwyr telegyfathrebiadau wrth iddynt fwrw ymlaen â rhoi'r ateb ar gyfer mynediad i bolion a phibellau ar waith yn fanwl, gan gynnwys cyhoeddi'r cynnig cyfeirio. Ar ben hynny, byddwn yn gweithredu rhaglen fonitro barhaus er mwyn gwneud yn siŵr bod y mynediad i bolion a phibellau yn gweithio'n effeithiol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant yn ôl yr angen er mwyn cefnogi buddsoddiad mewn uwch seilwaith rhwydweithiau sy'n cystadlu, gan gynnwys cyd-fuddsoddiad. Byddwn hefyd yn cynnal cynhadledd fuddsoddi yn ystod Chwarter 1. Bydd hyn yn casglu ynghyd y gymuned o fuddsoddwyr a phobl sy'n gwneud penderfyniadau o bob rhan o'r diwydiant a'r llywodraeth i gynyddu'r buddsoddiad mewn seilwaith ffibr llawn. Bydd cyfle i'r rheini sy'n bresennol glywed gan fuddsoddwyr o'r DU ac o dramor, gan dynnu sylw at y galw cynyddol am gysylltedd cyflym iawn yn y DU, a sut mae rhwystrau o ran seilwaith yn cael eu goresgyn i helpu cwmnïau i osod eu rhwydweithiau ffibr llawn eu hunain. Bydd y digwyddiad yn dangos sut bydd ymrwymiad Ofcom a Llywodraeth y DU i wella cysylltedd yn darparu rhagor o sicrwydd ac eglurder i'r penderfyniadau buddsoddi sydd angen eu cymryd er mwyn gwireddu'r syniad o ffibr llawn.
- A2.17 O ran buddsoddi mewn 5G, bwriad Ofcom yw sicrhau nad yw gwaith rheoleiddio yn atal arloesi ym maes 5G. Fel y nodwyd yn ein dogfen drafod *Enabling 5G in the UK*<sup>22</sup>, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau nad yw'r fframwaith rheoleiddio, ac yn benodol y rheolau ynghylch niwtraliaeth y rhyngwrwd sydd wedi'u dylunio i ddiogelu manteision y rhyngwrwd agored, yn atal defnydd arloesol o 5G. Rydym yn parhau i weithio ar sicrhau bod sbectrwm ychwanegol yn barod ar gyfer y genhedlaeth nesaf o rwydweithiau symudol, gan sbarduno gwelliannau yn narpariaeth gwasanaethau symudol presennol.
- A2.18 Nid yw Ofcom yn gyfrifol am reoliadau cynllunio, ond rydym yn parhau i ymgysylltu mewn modd rhagweithiol â'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol i geisio sicrhau nad yw'r rhain yn atal buddsoddiad.

---

## Diwygio Openreach yn effeithiol

- A2.19 Anogodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** Ofcom i sicrhau bod y manteision i gystadleuwyr BT yn sgil gwahanu Openreach a BT yn cael eu trosglwyddo ymlaen i'r

---

<sup>21</sup> Ofcom, Mawrth 2018, *Adolygu'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol*. <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/wholesale-local-access-market-review>

<sup>22</sup> Ofcom, Mawrth 2018, *Galluogi 5G yn y DU*. [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0022/111883/enabling-5g-uk.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/111883/enabling-5g-uk.pdf)

defnyddwyr, a bod canlyniadau i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried hefyd.

- A2.20 Mynegodd y **Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu** bryder ynglŷn â'r ffaith y bydd BT plc yn dal i fod yn berchen ar asedau Openreach, yn hytrach nag Openreach ei hun. Mae'n poeni mai cynnal y rhwydwaith yn unig fydd Openreach yn ei wneud, ac na fydd cymhellion i fuddsoddi. Mae'n galw am dryloywder wrth bennu cyllideb Openreach a chyfyngiadau ar symud staff rhwng Openreach a BT Group yn ehangach.
- A2.21 Er mwyn i Openreach drin ei holl gwsmeriaid yn wirioneddol gyfartal wrth iddo gyflwyno cynnyrch eiddo i'r adeilad BT, mae **Telefonica** yn credu bod yn rhaid i Openreach glirio, trwsio a mapio'r rhwydwaith polion er mwyn i ddarparwyr sy'n cystadlu allu eu ddefnyddio. Mae hefyd yn awgrymu y dylai BT orfod defnyddio'r un ateb ar gyfer mynediad i bolion a phibellau â'i gystadleuwyr.

### Ein hymateb

- A2.22 Dylid ystyried y gwaith o wahanu Openreach yng nghyd-destun yr holl weithgarwch a ddaw yn sgil yr Adolygiad o Gyfathrebiadau Digidol a'n gwaith ar sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio i ddefnyddwyr. Yn ein barn ni, bydd gan Openreach mwy annibynnol, sy'n gweithio er budd ei holl gwsmeriaid, y cymhellion cywir i fuddsoddi mewn rhwydweithiau o ansawdd da er mwyn sicrhau gwelliannau go iawn mewn gwasanaethau band eang i fusnesau ac i ddefnyddwyr. Byddwn yn monitro perfformiad Openreach yn erbyn amrywiaeth o fesurau canlyniadau mewn cyfres o adroddiadau gan ddefnyddio data o gyhoeddiadau allanol Ofcom, fel ein hymchwil *Cysylltu'r Gwledydd*, a gwybodaeth gan Uned Monitro Openreach. Bydd hyn yn cynnwys asesu effeithiolrwydd y trefniadau newydd o ran cefnogi canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr a busnesau ledled y DU (gan gynnwys Gogledd Iwerddon). Rydym yn credu ei bod yn debygol y bydd i ba raddau y mae'r model newydd yn llwyddo i gyflawni'r manteision hyn ar gyfer defnyddwyr a busnesau yn dod yn amlwg cyn pen tair blynedd ar ôl ei roi ar waith.
- A2.23 Byddwn yn monitro'r trefniadau newydd yn gadarn ac yn rhagweithiol er mwyn asesu a yw BT ac Openreach yn dilyn eu hymrwymadau mewn gweithred ac mewn ysbryd. Bydd hyn yn cynnwys a yw'r rheolau llywodraethu yn cael eu dilyn, ac i ba raddau mae Openreach yn gweithredu'n annibynnol ac yn trin ei holl gwsmeriaid yn gyfartal. Rydyn wedi nodi'r materion penodol mae'r Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu wedi eu codi yn ei ymateb. Bydd gweithgarwch Uned Monitro Openreach yn canolbwyntio ar fonitro'r ymrwymadau fel y cawsant eu nodi i Ofcom ym mis Mawrth 2017. Rydym yn croesawu adborth gan randdeiliaid y diwydiant er mwyn deall sut bydd y trefniadau newydd yn gweithio'n ymarferol; bydd hyn yn cyfrannu at asesiad ehangach Ofcom ynghylch a yw'r model newydd yn gweithio fel y bwriadwyd dros amser.

- 
- A2.24 Roedd **Vodafone** o'r farn fod sicrhau argaeledd gwybodaeth gyson a dibynadwy o ansawdd da o ran cyfrifyddu rheoleiddiol yng nghyswllt Openreach yn bwysig, ac y dylai Ofcom fuddsoddi amser ac adnoddau i wella'r cyfrifon. Ychwanegodd mai'r unig ffordd o fynd i'r



afael â'r anghymesuredde gwybodaeth yw cyfrifon rheoleiddiol tryloyw a dibynadwy o ansawdd uchel.

### Ein hymateb

- A2.25 Byddwn yn parhau i adolygu a diweddarau gofynion BT o ran adroddiadau ariannol rheoleiddiol i sicrhau eu bod yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i wneud penderfyniadau rheoleiddio ar sail gwybodaeth, ac i ddarparu hyder rhesymol i randdeiliaid bod BT wedi cydymffurfio â'i amodau Pŵer Sylweddol yn y Farchnad, gan ychwanegu hygrededd i'r drefn ar gyfer darparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol.

---

## Canllawiau ac asesiadau cystadleuaeth y BBC

- A2.26 Soniodd y Gynghrair Cynhyrchwyr Sinema a Theledu (**PACT**) am y broses asesu cystadleuaeth y BBC gyntaf ar gyfer sianel BBC Scotland newydd, ei diddordeb petai'r canlyniad yn golygu ailedrych ar drwydded weithredu'r BBC, a'i dymuniad i'r Gynghrair a thrydydd partïon eraill gael cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar y mater hwn. Roedd PACT yn credu y dylai Ofcom gynnal adolygiad ad-hoc o BBC Three ar unwaith, ar sail ei gyfrifoldebau o ran perfformiad a chystadleuaeth. Roedd PACT yn credu hefyd y dylai Ofcom adolygu BBC Studios cyn gynted ag y bo modd o ganlyniad i'r uno diweddar â BBC Worldwide. Roedd yn credu hefyd bod angen i Ofcom sefydlu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer cael mynediad at drefniadau prisio'r BBC ar gyfer trosglwyddo rhwng is-adrannau, a'u monitro.

### Ein hymateb

- A2.27 Pe baem yn penderfynu cymeradwyo cynnig y BBC ar gyfer lansio sianel BBC Scotland newydd, mae'n debygol y byddai'n rhaid i ni asesu unrhyw oblygiadau i'r Drwydded Weithredu gyfredol. Pe bai unrhyw newidiadau'n cael eu cynnig o ganlyniad i'r gwasanaeth newydd, byddem yn ymgynghori â'r BBC ac unrhyw bartïon sydd â diddordeb cyn diwygio'r drwydded.
- A2.28 Nid oes cynlluniau i gynnal adolygiad ad-hoc o BBC Three ar y gweill gennym ar hyn o bryd, ond byddwn yn ei fonitro yn unol â'n dyletswyddau, gan gynnwys drwy'r ystod o amodau trwydded a mesurau perfformiad priodol.
- A2.29 Yn sgil yr uno rhwng BBC Studios a BBC Worldwide a'n gwaith i ennill gwell dealltwriaeth o weithgareddau masnachol y BBC, cyhoeddwn yn ddiweddar ein bwriad i adolygu BBC Studios, gan ddechrau yn 2018/19. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf i'n helpu ni i ddatblygu hyd a lled yr adolygiad.
- A2.30 Ym mis Hydref 2017 gosodwn ni amserlenni ar y BBC ar gyfer cyhoeddi a darparu gwybodaeth i Ofcom am ei weithgareddau masnachol a masnachu. Roedd hynny'n cynnwys gofyniad i gyhoeddi'r methodolegau a ddefnyddiwyd gan y BBC i bennu ei brisiau trosglwyddo ar gyfer ei is-gwmnïau masnachol. Yn ddiweddar cyhoeddwn ni ein bwriad i ymgynghori ar ddiweddariadau arfaethedig i'n gofynion a'n canllawiau o ran

gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC, ac mae'r prosiect hwn wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Blynyddol terfynol. Bydd hyn yn cynnwys cynigion sy'n ymwneud a'r wybodaeth mae'r BBC yn ei darparu i Ofcom a'i chyhoeddi. Bydd rhanddeiliaid yn gallu gwneud sylwadau ar ein cynigion yng nghyd-destun y wybodaeth y bydd y BBC wedi'i chyhoeddi bryd hynny.

---

## Dyfarnu bandiau sbectrwm yn y dyfodol

- A2.31 Soniodd **Cymdeithas Gweithredwyr Lloeren EMEA** am gynlluniau Ofcom i ehangu mynediad symudol yn y band 3.6-3.8GHz, gan nodi bod y diwydiant lloeren yn dibynnu ar y sbectrwm hwn ar gyfer cyflwyno lloeren yn y dyfodol ac, os caiff y band hwn ei ailddosbarthu ar gyfer gwasanaethau 5G/data, mewn rhai achosion efallai na fydd hi'n bosib i orsafoedd daear lloeren symud i fandiau newydd neu i ffyrdd eraill o ddarparu.
- A2.32 Anogodd **BT** Ofcom i "fynd ar drywydd clirio 3.6-3.8 GHz erbyn canol y 2020au gyda'r un egni â phan aeth ati i gwblhau'r arwerthiant 2.3 a 3.4 GHz" ac i gyflwyno cynlluniau i ymgynghori ar ddyfarnu bandiau sbectrwm 700MHz a 3.6-3.8 GHz o Chwarter 3 2018-19 ymlaen, "o ystyried pwysigrwydd cael y sbectrwm i'r farchnad yn brydlon."

### Ein hymateb

- A2.33 Roedd ein cynlluniau i ehangu mynediad sbectrwm ar gyfer gwasanaethau symudol yn y band 3.6-3.8 GHz yn y dyfodol yn destun ymgynghoriadau ym mis Hydref 2016 a mis Gorffennaf 2017, a chawsom nifer o ymatebion gan gynnwys rhai gan weithredwyr lloeren. Ym mis Hydref 2017 cyhoeddodd ni ddatganiad<sup>23</sup> yn cadarnhau ein dull gweithredu ar gyfer defnyddwyr cofrestredig presennol y band: tynnu awdurdodiadau presennol ar gyfer cysylltiadau sefydlog, a rhoi'r gorau i ystyried gorsafoedd daear lloeren cofrestredig â chydran derbyn yn y band 3.6-3.8 GHz at ddibenion rheoli amleddau. Gwnaethom felly ddechrau ar y broses statudol i gynnig (i) amrywio awdurdodiadau presennol ar gyfer gorsafoedd daear lloeren sy'n gweithredu o dan drwyddedau Gorsafoedd Daear Parhaol a dyfarniadau Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig ar gyfer Gorsafoedd Daear Derbyn yn Unig, a (ii) dirymu trwyddedau ar gyfer cysylltiadau sefydlog Ar ôl ystyried yn ofalus y sylwadau a wnaed gan ddefnyddwyr presennol y band, dygwyd y broses hon i ben gennym ym mis Rhagfyr.
- A2.34 Ym mis Gorffennaf 2017, nodon ni ein bwriad i wneud y band 3.6 GHz - 3.8 GHz ar gael ar gyfer defnydd symudol cyn gynted ag y bo modd, ac yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi diweddariad ar ba bryd fydd y sbectrwm hwn ar gael.<sup>24</sup> Effaith ein penderfyniadau yw y

---

<sup>23</sup> Ofcom, Hydref 2017, *Gwella mynediad defnyddwyr at wasanaethau symudol yn y bandiau 3.6GHz i 3.8GHz*.

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0022/107356/Gwella-mynediad-defnyddwyr-at-wasanaethau-symudol-o-3.6GHz-i-3.8GHz.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/107356/Gwella-mynediad-defnyddwyr-at-wasanaethau-symudol-o-3.6GHz-i-3.8GHz.pdf)

<sup>24</sup> Ofcom, *Gorffennaf 2017, Gwella mynediad defnyddwyr at wasanaethau symudol yn y bandiau 3.6GHz i 3.8GHz – datganiad ac ymgynghoriad*. [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0022/107356/Gwella-mynediad-defnyddwyr-at-wasanaethau-symudol-o-3.6GHz-i-3.8GHz.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/107356/Gwella-mynediad-defnyddwyr-at-wasanaethau-symudol-o-3.6GHz-i-3.8GHz.pdf)

bydd y sbectrwm ar gael i alluogi cyflwyno gwasanaethau symudol yn y band 3.6 GHz-3.8GHz yn y dyfodol mewn sawl ardal o fis Mehefin 2020 ymlaen, ond nid yn genedlaethol o reidrwydd cyn diwedd 2022. Rydym wedi ystyried awgrym BT sef y dylem ymgynghori ar ddyfarnu 700 MHz a 3.6-3.8 GHz yn gynharach na'n cynllun presennol, ond ein barn ar hyn o bryd yw bod hynny'n annhebygol o fod yn ymarferol.

---

## Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes

- A2.35 Mae **Three** yn credu bod angen mynediad wedi'i reoleiddio at ffibr tywyll Openreach ac ateb ar gyfer mynediad i bolion a phibellau, a hynny i fynd i'r afael â materion cystadleuaeth yn y farchnad llinellau ar brydles ac i alluogi cyflwyno 5G.
- A2.36 Anogodd **Openreach** Ofcom i ystyried yn llawn dyfarniad y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth ynghylch Adolygiad 2016 o'r Farchnad Cysylltedd Busnes, ac yn benodol ei ddyfarniadau ynghylch y diffiniad o'r farchnad cynnyrch, y diffiniad o'r farchnad ddaearyddol, a'r craidd cystadleuol. Aeth ymlaen i annog Ofcom i sicrhau bod ei ddull gweithredu yn cyd-fynd ag egwyddorion y fframwaith rheoleiddio, bod yr atebion yn gymesur ac mai hybu buddsoddiad effeithlon yw'r effaith maent yn ei chael. Dywedon nhw bod hyn yn golygu bod yn rhaid i'r lefelau gwasanaeth sylfaenol gorfodol fod yn gyraeddadwy, y dylid eu gosod gan ddefnyddio tystiolaeth gyfoes, a bod yn rhaid i reolaethau prisiau ei gwneud yn bosibl adennill costau a geir yn effeithlon yn llawn. Ailadroddodd Openreach ei farn y dylai Ofcom ystyried yr ateb ffibr tywyll fel rhan o'r Adolygiad nesaf o'r Farchnad Cysylltedd Busnes ar ôl cynnal dadansoddiad llawn o'r farchnad ac asesiad o'r costau a'r manteision.
- A2.37 Dywedodd y **Gymdeithas Darparwyf Gwasanaethau Rhyngryd** y byddai'r amserlen ar gyfer yr Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes yn rhoi baich diangen ar ei aelodau er mwyn ymateb yn llawn.
- A2.38 Mae **Zayo** yn credu bod dull gweithredu Ofcom ar gyfer rheoleiddio dwy farchnad sydd â chysylltiad agos iawn â'i gilydd yn anghyson. Y marchnadoedd hyn yw'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol, lle mae Ofcom yn annog cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau, a'r farchnad cysylltedd busnes, lle nad yw'n cefnogi cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau. Nododd er mwyn iddo allu cyfiawnhau buddsoddi mewn rhwydweithiau ffibr newydd, rhaid iddo gael mynediad i bob ffrwd referniw o'r marchnadoedd adwerthu a chyfanwerthu i greu cyfradd enillion ddigonol. Anogodd Ofcom i asesu sut gallai fynd ati orau i reoleiddio pob marchnad sy'n defnyddio rhwydweithiau ffibr ac annog buddsoddiad ynddynt. Cyfeiriodd Zayo at ei ymateb blaenorol i ymgynghoriad gan Ofcom ar ateb ar gyfer mynediad ffibr tywyll ac ailadroddodd ei farn ei fod yn ystyried yr ateb yn un difeddwl, ac y dylai Ofcom ddod â'i ymgynghoriad i ben a chanolbwyntio'n hytrach ar rwydweithiau ffibr newydd sy'n gwasanaethu pob marchnad berthnasol.

### Ein hymateb

- A2.39 Yn ystod 2018/19, bydd Ofcom yn ystyried trefn reoleiddio briodol ar gyfer marchnadoedd cysylltedd busnes. Byddwn yn ystyried yn llawn canfyddiadau penderfyniad y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth ynghylch Adolygiad 2016 o'r Farchnad Cysylltedd Busnes o ran dadansoddiad o'r farchnad. Fel rhan o'r adolygiad, byddwn hefyd yn ystyried a yw ein dull gweithredu ar gyfer marchnadoedd mynediad lleol cyfanwerthol yn gyson. Fodd bynnag, os yw amgylchiadau'r farchnad yn wahanol i'r gwasanaethau perthnasol, efallai y byddai'n briodol mabwysiadu dull gweithredu gwahanol ar gyfer rheoleiddio.
- A2.40 O ganlyniad i'r amser a gymerwyd ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad Ofcom ynghylch gwasanaethau cysylltedd busnes yn 2016, mae llai o amser na fyddai fel arfer cyn i waith rheoleiddio 2016 ddod i ben, felly mae'n rhaid cwblhau'r adolygiad yn gyflym. Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r diwydiant fel rhan o'i waith a byddai'n croesawu unrhyw awgrymiadau ar sut mae lleihau'r baich ar randdeiliaid wrth wneud hynny.

---

## Adolygiad o adroddiadau ariannol rheoleiddiol y gwasanaethau post

- A2.41 Mae'r **Post Brenhinol** yn credu ei fod yn faich rheoleiddiol diangen ar Ofcom i adeiladu model costau o'i fusnes ac y bydd hyn yn creu ansicrwydd. Mae'n credu bod Ofcom yn gallu gweld sut mae ei gostau'n cael eu dyrannu o dan ei ddyletswyddau presennol, ac y bydd adolygiad yn gostus, yn cymryd llawer o amser ac yn mynd ag amser y tîm rheoli. Mae o'r farn fod y sector parseli yn dra datblygedig a chystadleuol, felly byddai ymyriad rheoleiddiol yn ddiangen ac yn anghymesur. Yn hytrach, gofynnodd i Ofcom ymgysylltu â'r Post Brenhinol ynghylch ei fodel costau ychwanegol cyfartalog tymor hir ei hun.

### Ein hymateb

- A2.42 Adeiladu ein model costau ein hunain yw cam nesaf ein hymdrech i ennill gwell dealltwriaeth o fusnes a gweithrediadau'r Post Brenhinol, a sut gallai newidiadau yn y farchnad a'n gwaith rheoleiddio ni effeithio arno. Mae'n adnodd rheoleiddiol i alluogi rhagor o dryloywder ac nid oes rheswm i gredu y gallai arwain at unrhyw ansicrwydd i'r Post Brenhinol dros unrhyw gyfnod. Mae ein hadolygiad o ddyraniadau cost y Post Brenhinol yn rhan o'r gwaith ac yn ein datganiad ym mis Mawrth 2017, rhoddon addewid i randdeiliaid y byddem yn gwneud hynny er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw posibilrwydd o gymorthdaliadau amhriodol rhwng llythyrau a pharseli. Nid ydym yn disgwyl i'r gwaith hwn achosi baich rheoleiddiol sylweddol, ac yn y tymor hir dylai leihau ansicrwydd yn hytrach na'i gynyddu.
- A2.43 Anogodd y **Post Brenhinol** Ofcom i gynnal adolygiad sylfaenol o ddyluniad ei reolaeth gwasgu elw. Dywedodd fod rheoleiddio prisiau contractau unigol yn anghymesur ac yn rhy ragnodol. Roedd o'r farn y dylai Ofcom gael gwared ar y prawf contractau neu, os nad yw'n gwneud hynny, yn defnyddio'r model costau ychwanegol cyfartalog tymor hir.

### Ein hymateb

A2.44 Gwnaeth y Post Brenhinol bwynt tebyg yn ei ymateb i'n Hadolygiad o'r Broses o Ddarparu Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol ar gyfer y Post Brenhinol yn 2017. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion yn ymwneud â'r rheolaeth gwasgu elw ac yn ystyried ymateb y Post Brenhinol fel rhan o'r adolygiad hwn.

---

A2.45 Galwodd **Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu** ar Ofcom i beidio â phennu disgwyliadau afresymol o ran effeithlonrwydd ar gyfer y Post Brenhinol, ac i gyflwyno safonau ansawdd sylfaenol yn y farchnad parseli.

### Ein hymateb

A2.46 Nid ydym yn gosod unrhyw ddyletswyddau penodol o ran effeithlonrwydd ar y Post Brenhinol. Byddwn yn parhau i fonitro a chyhoeddi ein barn ar gyfradd perfformiad y Post Brenhinol o ran effeithlonrwydd er budd defnyddwyr gwasanaethau post a chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol. Rydym eisoes yn mynnu bod gan bob gweithredwr post weithdrefnau cwynion syml, rhad a thryloyw ar waith. Gwnaethom ystyried yr achos dros osod rhagor o reoliadau ar weithredwyr parseli yn ystod ein hadolygiad o'r broses o reoleiddio'r Post Brenhinol yn 2017: fodd bynnag, daethom i'r casgliad nad oedd y dystiolaeth yn cefnogi hyn. Byddwn yn parhau i fonitro'r farchnad post yn ofalus, gan gynnwys pa mor fodlon yw defnyddwyr ar y gwasanaethau post, ac yn ystyried goblygiadau rheoleiddiol y canfyddiadau hyn yn y dyfodol.

---

## Ymgysylltu â'r defnyddwyr

A2.47 Dywedodd **BT** fod gan Ofcom raglen waith gyfredol ar ymgysylltu â defnyddwyr ac y byddai'n croesawu mwy o gydlynw a thryloywder rhwng Ofcom a'r Llywodraeth yn hyn o beth, a thryloywder o ran trefn y gwaith er mwyn sicrhau bod y mentrau'n gyson ac nad ydynt yn cael eu dyblygu.

A2.48 Anogodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** Ofcom i fynd ati'n benodol i gynnwys barn pobl anabl a phobl a busnesau mewn ardaloedd daearyddol anoddach eu cyrraedd wrth ystyried mentrau i wella cystadleuaeth ac ymgysylltiad. Awgrymodd y Panel hefyd fod Ofcom yn mynnu bod darparwyr yn hyrwyddo eu gwasanaethau i gwsmeriaid anabl i bob cwsmer er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau hynny.

A2.49 Ym marn **Roger Mann**, un o'r prif bethau sy'n atal pobl rhag symud i ddarparwyr gwasanaethau rhynggrwyd gwahanol yw bod yn rhaid newid cyfeiriad e-bost, oherwydd er ei bod yn dechnegol bosibl cadw'r un cyfeiriad, mae darparwyr gwasanaethau rhynggrwyd yn gyndyn o wneud hynny, a dylai gwasanaeth o'r fath gael ei gynnig am ddim i ddefnyddwyr er mwyn annog cystadleuaeth.

### Ein hymateb

- A2.50 Darparon ni drosolwg o'n gwaith ar ymgysylltu â defnyddwyr yn ein Cais am Fewnbwn<sup>25</sup> ym mis Gorffennaf 2017. Byddwn yn nodi camau nesaf ein gwaith yn 2018/19 ac yn trafod y rhain â Llywodraeth y DU yng nghyd-destun ei Phapur Gwyrdd ar Ddefnyddwyr. Mae Ofcom yn diweddarau Llywodraeth y DU a'r llywodraethu datganoledig ar ei raglen waith yn rheolaidd.
- A2.51 Rydym wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil ansoddol a meintiol helaeth er mwyn gwella ein dealltwriaeth o unrhyw rwystrau posibl i ymgysylltu ac archwilio'r posibilrwydd o atebion, lle bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys edrych ar a yw defnyddwyr bregus yn wynebu problemau gwahanol neu ychwanegol wrth ymgysylltu â marchnadoedd a llywio drwyddynt.
- A2.52 Mae Ofcom yn canolbwyntio'n gryf ar fregusrwydd defnyddwyr a pholisïau clir o ran mynediad a chynhwysiant; er enghraifft, gweithio i helpu defnyddwyr anabl i gael gafael ar wasanaethau cyfathrebu a gorfodi trwsio namau blaenoriaeth, ymholiadau rhifau ffôn am ddim, cyfnewid testun, rheoli biliau trydydd parti a biliau hwylus. Mae gan Ofcom reolau newydd yn dod i rym yn 2018/19 a fydd yn mynnu bod darparwyr cyfathrebiadau yn sefydlu, yn cyhoeddi ac yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau ar gyfer trin defnyddwyr, y gallai eu hamgylchiadau eu gwneud yn fregus, yn deg ac yn briodol.
- A2.53 O ran cludadwyedd e-bost, nid ydym yn credu bod hyn yn rhwystr mawr i newid. Mae eisoes yn bosibl i ddefnyddwyr greu cyfeiriadau e-bost cludadwy am ddim (ee Gmail, Yahoo Mail) os ydynt yn dymuno, gan ei gwneud yn eithaf hawdd cludo cyfeiriadau, ac mae'r rhwystrau technegol i gludo e-bost yn isel. Mae darparwyr eisoes yn gadael i gwsmeriaid ddefnyddio eu hen gyfeiriadau e-bost/gwasanaethau cyfrifon ar ôl iddynt newid eu gwasanaethau, er dim ond am gyfnod cyfyngedig mae rhai yn darparu mynediad.

---

## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

### Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang

- A2.54 Soniodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** am rôl bosibl Ofcom mewn Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ac roedd diddordeb ganddo yn null gweithredu Ofcom ar gyfer hybu ac amddiffyn buddiannau pob defnyddiwr, gan gynnwys microfusnesau, yn y cyd-destun hwn. Hoffai weld Ofcom yn annog darparwyr cyfathrebiadau i wella darpariaeth fel bod llai o aelwydydd yn dibynnu ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol pan gaiff ei chyflwyno.
- A2.55 Soniodd **Openreach** am rôl bosibl Ofcom mewn Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band ac roedd o'r farn y byddai hynny'n "golygu bod yn rhaid i Ofcom nodi'r darparwr gwasanaeth cyffredinol, canfod faint o faich cost net ar y Rhwymedigaeth fydd yn rhaid ei ariannu, a sefydlu cronfa'r Rhwymedigaeth gyda rheolau clir ar gyfer pennu pwy sy'n

---

<sup>25</sup> Ofcom, Gorffennaf 2017, *Cais am fewnbwn: Helpu defnyddwyr i ymgysylltu â'r marchnadoedd cyfathrebiadau.* <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/helping-consumers-engage-communications-markets>

gorfod cyfrannu ac ar ba sail...rydym yn barod i helpu Ofcom i ddatblygu atebion ymarferol gan gynnwys datblygu Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang sy'n addas i'r diben."

- A2.56 Dywedodd **BT Group** bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bod yn cyflwyno Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol rheoleiddiol ers i Ofcom gyhoeddi ei Gynllun Blynyddol Arfaethedig. Roedd yn edrych ymlaen at eglurhad Ofcom ar hyn ac yn awyddus i gynnig sylwadau a mewnbwn.
- A2.57 Roedd **Llywodraeth Cymru** yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o wybodaeth am ddyluniad y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol rheoleiddiol a'r broses o'i chyflwyno; yn benodol, sut bydd Ofcom yn ymgysylltu â'i randdeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

### Ein hymateb

- A2.58 Rydym yn dechrau paratoi ar gyfer rhoi'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang ar waith ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno'r Gorchymyn Gwasanaeth Cyffredinol yn nodi'r fanyleb ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Yn 2018/19 bydd Ofcom yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori a fydd yn nodi ein cynigion ar gyfer sut bydd darparwr/darparwyr gwasanaeth cyffredinol yn cael eu dynodi, sut caiff y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ei hariannu, a'r amodau byddwn yn eu gosod ar y darparwyr gwasanaeth cyffredinol dynodedig. Mae hwn bellach yn brosiect blaenoriaeth yn ein Cynllun Blynyddol terfynol.

- 
- A2.59 Soniodd **Cymdeithas Gweithredwyr Lloeren EMEA** am rôl bosibl Ofcom mewn Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ac yn gwella darpariaeth symudol, tynnodd sylw at y manteision mae'n ei gredu mae darpariaeth lloeren yn eu cynnig, ac anogodd Ofcom i ailystyried rôl bosibl band eang lloeren wrth sefydlu'r Rhwymedigaeth. Gwnaeth **Hughes Network Systems Europe** hefyd annog Ofcom i gydnabod pwysigrwydd gwasanaethau lloeren ar gyfer darparu gwasanaethau 5G a chysylltedd band eang i ddefnyddwyr yn y DU.

### Ein hymateb

- A2.60 Rydym yn cydnabod rôl lloeren o ran darparu cysylltedd band eang i ddefnyddwyr yn y DU. Gwnaeth ein hadolygiad o'r sector gofod dynnu sylw at rôl band eang lloeren, ac un o'n blaenoriaethau sbectrwm ni yw galluogi twf ym maes cyfathrebiadau band eang lloeren.

---

## Amrywiaeth mewn darlledu

- A2.61 Roedd Simon Albury o'r **Campaign for Broadcasting Equality** yn cefnogi'r syniad o Uwchgynhadledd Amrywiaeth i ddarlledwyr. Roedd yn credu y dylai Ofcom, cyn yr uwchgynhadledd, ofyn i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a Sky gyflwyno adroddiad ar eu cynlluniau gweithredu, fel y nodwyd yn 2000 wrth sefydlu'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol. Roedd yn credu y dylai Ofcom ofyn i'r BBC glustnodi cyllid ar gyfer cynrychiadau

amrywiol ac y dylai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol archwilio ei wariant ar fentrau o'r fath. Roedd yn meddwl y dylai Ofcom gasglu a chyhoeddi data ar amrywiaeth cynhyrchwyr ar lefel rhaglenni, gan gynnwys yn y sector cynrychiadau annibynnol, ac os oes angen dylai Ofcom ofyn i'r Llywodraeth am y pwerau i wneud hynny.

- A2.62 Roedd **BECTU** (yr Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebiadau a Theatr) yn croesawu agwedd Ofcom at amrywiaeth ym maes darlledu, ond anogodd Ofcom i wneud newidiadau wrth gyhoeddi ei ail adroddiad ar y diwydiant teledu yn y DU, a'i adroddiad cyntaf ar radio er mwyn: cynnwys pob darlledwr cymwys; cyhoeddi data monitro cydraddoldeb a hynny nid fesul darlledwr ond fesul trwydded; a mynnu bod darlledwyr yn monitro'r gweithwyr llawrydd maent yn eu cyflogi. Gwnaeth BECTU hefyd annog Ofcom i gyflwyno cydymffurfriad â contractau i ddarlledwyr; mynnodd y dylid cyhoeddi data monitro Project Diamond ar lefel rhaglenni cymwys; a mynnodd gamau gweithredu i alluogi gweithwyr proffesiynol BAME profiadol i ddatblygu eu gyrfa.

### Ein hymateb

- A2.63 Mae'n rhesymol i ddinasyddion a defnyddwyr ddisgwyl gweld a chlywed eu hunain yn cael eu hadlewyrchu a'u cynrychioli ar y teledu a'r radio, a themlo bod cynnwys sydd o ddiddordeb iddyn nhw a'u cymunedau yn cael ei ddarparu.
- A2.64 Rydym wrthi'n llunio'r agenda derfynol ar gyfer yr uwchgynhadledd i Brif Weithredwyr fis Ebrill, a byddwn yn defnyddio'r trafodaethau i lywio ein gwaith ar sbarduno amrywiaeth a chynhwysiant yn y diwydiant. Mae cyhoeddiadau 2018 Ofcom<sup>26</sup> sy'n ymwneud ag amrywiaeth ar gael ar ei wefan, a byddwn yn ystyried cyhoeddiadau ychwanegol fel lle bo hynny'n briodol.
- A2.65 Rydym wedi gosod ystod o ddyletswyddau ar y BBC mewn cysylltiad ag amrywiaeth, a byddwn yn asesu ei gydymffurfriad â'r dyletswyddau hyn yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC. Ar ben hynny, rydym yn cynnal adolygiad thematig o gynrychiolaeth a phortread er mwyn deall yn well beth mae cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl gan y BBC, ac a yw'r BBC yn adlewyrchu ac yn portreadu bywydau pawb ym mhob rhan o'r DU.
- A2.66 Cafodd cyllid wedi'i glustnodi ei ystyried fel rhan o ymgynghoriad Ofcom ar Drwydded Weithredu'r BBC, a phenderfynwyd nad oedd hynny'n briodol bryd hynny. Nid ydym yn goruchwyllo cyllideb y BBC, ac nid lle Ofcom yw awgrymu bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn adolygu cynlluniau unigol. Byddwn yn parhau i asesu perfformiad y BBC yn flynyddol ac yn adolygu gwahanol opsiynau ar gyfer y BBC a darlledwyr eraill o ran hybu cyfleoedd cyfartal.
- A2.67 Yn 2017, ysgrifennodd Ofcom at Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon bryd hynny yn nodi rhai meysydd lle roedd Ofcom yn credu y gallai ei bwerau o ran cyfleoedd cyfartal gael budd o adolygiad. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol

---

<sup>26</sup> Ofcom, Chwefror 2018, *Trosolwg o waith Ofcom ar gydraddoldeb ac amrywiaeth 2018/19*  
<https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/diversity/ofcoms-role/overview-work>



yn gefnogol o'n gwaith ac awgrymodd fod Ofcom yn parhau i annog darlledwyr i wella'r meysydd hyn ar sail wirfoddol er mwyn gwneud yn siŵr ein bod wedi ymchwilio i bob opsiwn.

- A2.68 Rydym yn adolygu'r wybodaeth rydyn yn ei chasglu yn barhaus er mwyn ennill gwell dealltwriaeth o'r amrywiaeth yn y diwydiant a nodi'r meysydd i'w gwella. Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau BECTU am ddata 'trwydded fesul trwydded' ac rydym wedi ystyried hynny, ond ar hyn o bryd rydym wedi penderfynu byddwn yn ennill gwell dealltwriaeth drwy ganolbwyntio ar wella prosesau casglu data ar lefel darlledwyr a chynnig rhagor o eglurder ynghylch mathau o swyddi, fel gwahanu cefn swyddfa a rolau creadigol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â'r pum prif ddarlledwr a darlledwyr eraill ar draws y diwydiant, ond byddwn yn canolbwyntio o hyd ar y cyflogwyr mwyaf â'r cynulleidfaoedd mwyaf, gan fod ganddynt rôl allweddol i'w chwarae o ran yr effaith ar y diwydiant yn ehangach. Nid oes gan Ofcom gylch gwaith na phwerau mewn cysylltiad â gweithwyr llawrydd neu gwmnïau cynyrchiadau annibynnol, ond lle mae darlledwyr yn cyflogi staff cynhyrchu yn uniongyrchol, cânt eu cynnwys yn ein hadroddiad. Rydym yn parhau i annog darlledwyr i wella datblygiad i bob grŵp a dangynrychiolir a bydd yn cynnwys mentrau perthnasol yn ein hadroddiad. Byddwn yn gofyn i ddarlledwyr a oes ganddynt unrhyw fentrau penodol ar waith sydd wedi'u dylunio i hybu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau, neu unrhyw fentrau amrywiaeth sydd wedi'u targedu mewn lleoliadau penodol. Rydym yn gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn helpu darlledwyr i nodi pa grwpiau sy'n brin o lais yng nghyswllt creu rhaglenni, a lle gallant wella.

---

## Cod ar Wasanaethau Mynediad

- A2.69 Mae'r **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** yn edrych ymlaen at gyfrannu at y Cod ar Wasanaethau Mynediad ac yn gobeithio y bydd yn codi ymwybyddiaeth o wasanaethau mynediad ymysg cynulleidfaoedd, ac yn codi proffil gwasanaethau mynediad i ddarparuwr.

### Ein hymateb

- A2.70 Rydym yn rhannu'r nod o gynyddu mynediad at wasanaethau ar-alwad a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau mynediad yn fwy cyffredinol. Fel y nodir yn Atodiad 1, byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth ar ei rheoliadau arfaethedig ac yn ymgynghori wedyn ar y rheolau newydd yn y maes hwn. Rydym yn parhau i gwrdd yn rheolaidd â grwpiau defnyddwyr a diwydiant i drafod y materion hyn, ac yn 2018 byddwn yn eu helpu i greu ymgyrch ymwybyddiaeth o ddisgrifiadau sain.

---

## Adroddiadau blynyddol cyntaf Ofcom ar y BBC

- A2.71 Dywedodd **Voice of the Listener and Viewer** ei fod wedi siomi y bydd y broses o asesu perfformiad y BBC yn cynnwys trafodaethau â rhanddeiliaid ond nid ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, ac roedd yn cwestiynu tryloywder y dull hwn. Roedd o'r farn nad oes fforwm ar gael i ddinasyddion ddarparu adborth cyffredinol ar berfformiad y BBC, sy'n

golygu gostyngiad sylweddol yn atebolrwydd y BBC, ac y dylai Ofcom sicrhau ei fod felly'n cynnal ymgysylltiad â rhanddeiliad wrth wneud ei waith yn rheoleiddio'r BBC.

- A2.72 Mae **John Holder** yn credu bod y BBC "yn cael trafferth llenwi ei sianeli gydag unrhyw beth o sylwedd ac ystyried y cynnydd sylweddol mewn ailddarllodiadau a'r arfer o ailadrodd rhaglenni newydd y diwrnod canlynol" ac y dylai cynllun Ofcom roi mwy o bwys o lawer ar hyn a sut gellid ei ddarparu'n iawn.
- A2.73 Cyfeiriodd **Llywodraeth Cymru** at ei hymateb i ymgynghoriad Ofcom ar Drwydded Weithredu'r BBC yn 2017 a mynegodd ei siom nad oedd y drwydded wedi cael ei diwygio i adlewyrchu nifer o welliannau yr oedd wedi'u hawgrymu yn ei hymateb. Dywedodd "y bydd Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ill dau yn monitro cynnydd y BBC yn erbyn gofynion y Drwydded Gwasanaeth yn ofalus...ac yn croesawu sicrwydd (Ofcom) y bydd y Drwydded Weithredu a'r mesurau perfformiad yn esblygu dros amser."
- A2.74 Roedd y **BBC** yn credu "y bydd hon yn ddogfen bwysig, ond yn ddogfen bontio o reidrwydd...gan mai dim ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafodd llawer o'r dyletswyddau a osodir yn Fframwaith Gweithredu Ofcom a'r Drwydded Weithredu eu cyflwyno" neu eu bod yn dod i rym yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

### Ein hymateb

- A2.75 Gwnaethom ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer y Fframwaith Gweithredu a'r Drwydded Weithredu yn 2017<sup>27</sup>, ac rydym wedi ystyried yr ymatebion cawson ni wrth baratoi ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar y BBC. Er nad ydym yn bwriadu ymgynghori ar yr adroddiad hwn ar hyn o bryd, gan ei fod yn canolbwyntio ar gydymffurfio ag amodau penodol, byddwn yn croesawu sylwadau rhanddeiliaid ar ôl ei gyhoeddi. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar wahân yn mesur perfformiad y BBC o ran cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus.
- A2.76 Rydym wedi nodi ymateb Llywodraeth Cymru sy'n tynnu sylw at ei chynigion yn ei hymateb i ymateb Ofcom ar Drwydded Weithredu arfaethedig y BBC. Cafodd yr ymateb hwn ei ystyried gennym bryd hynny, ynghyd â rhai eraill, a nodon ni'r rhesymau dros ein penderfyniadau ynghylch y Drwydded Weithredu yn ein datganiad yn 2017. Yn y datganiad hwn nodon ni y bydd y drwydded a'r mesurau perfformiad yn esblygu dros amser a'n bod yn disgwyl i'r BBC barhau i wella ei berfformiad o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Bydd ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar y BBC yn asesu ei gydymffurfiaid ag amodau'r Drwydded Weithredu am y tro cyntaf a bydd ein Hadroddiad Perfformiad cyntaf yn edrych ar sut mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, yn hytrach na bod yn adolygiad pellach o'r gofynion eu hunain.
- A2.77 Fel rhan o'n dull ar gyfer mesur perfformiad y BBC, rydym wedi datblygu traciwr ymchwil newydd ar gyfer y BBC a fydd yn casglu barn amrywiaeth o gynulleidfaedd ar y BBC yn barhaus. Ein traciwr ar gyfer y BBC yw ein prif adnodd ar gyfer casglu barn cynulleidfaedd

---

<sup>27</sup>Ofcom, Hydref 2017, *Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaedd: Perfformiad y BBC*.  
[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0022/107077/bbc-performance-statement-cymraeg.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/107077/bbc-performance-statement-cymraeg.pdf)

cynrychioladol ar berfformiad y BBC. Bydd yr arolwg hwn yn ymwneud ag amrywiaeth eang o grwpiau cynulleidfa gan gynnwys rhyw, oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhanbarth/gwlad. Rydym yn monitro is-grwpiau ar gyfer ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd, lle bo maint y sampl yn caniatáu.

- A2.78 Dengys ein hymchwil fod cynnwys gwreiddiol sy'n cael ei gomisiynu yn y DU yn bwysig i gynulleidfaedd a'u bod yn disgwyl hynny gan y BBC. Yn ein Trwydded Weithredu ar gyfer y BBC, rydym wedi gosod amodau penodol er mwyn pwyelsio cynnwys newydd a gwreiddiol, gan gynnwys mwy o ofynion ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol ar BBC One, BBC Two, CBBC a BBC Four. Bydd ystod allbwn y BBC ar draws ei holl wasanaethau yn cael ei mesur a'i monitro gennym yn barhaus er mwyn sicrhau bod y BBC yn darparu ar gyfer pob cynulleidfa.

---

## Adolygu'r canllawiau ar gynhyrchu y tu allan i Lundain

- A2.79 Dywedodd **KMTV** ei fod yn cefnogi'r adolygiad yn gryf a'i fod am gael y cyfle i wneud rhagor o sylwadau ar adeg briodol.
- A2.80 Mynegodd **Llywodraeth Cymru** ei siom fod Ofcom, yn Nhrwydded Weithredu'r BBC, wedi "cadarnhau'r targedau annigonol o ran cyfran y boblogaeth ar gyfer cynhyrchu yn y gwledydd". Croesawodd adolygiad Ofcom o'r canllawiau ond roedd yn credu y byddai gwelliannau yn hyn o beth yn sicrhau canlyniadau gwell o lawer i'r gwledydd a'r rhanbarthau cyhyd â bod cwotâu cynhyrchu yn cael sylw hefyd.
- A2.81 Dywedodd y **BBC** ei fod wedi ymrwymo i sefydlu a datblygu ymhellach canolfannau cynhyrchu cynaliadwy yn y gwledydd datganoledig ac yn rhanbarthau Lloegr, ac felly "mae'n bwysig bod y canllawiau yn addas i'r diben, a byddwn yn gweithio'n agos gydag Ofcom i gefnogi ei waith yn y maes hwn. Hoffem nodi hefyd y gallai newidiadau arwyddocaol i'r diffiniadau olygu bod yn rhaid diwygio'r cwotâu yn y Drwydded Weithredu."

### Ein hymateb

- A2.82 Cafodd y gofynion o ran cynhyrchu y tu allan i Lundain ar gyfer y BBC eu gosod yn y Drwydded Weithredu yn 2017. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar y canllawiau ar gyfer cynyrchiadau y tu allan i Lundain sy'n berthnasol i'r holl ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi cyhoeddi Cais am Dystiolaeth ac rydym yn croesawu mewnbwn rhanddeiliaid ar hyn.

---

## Clirio 700 MHz a chynllun grant

- A2.83 Soniodd **Grŵp Radio Diwydiant Adloniant Prydain** y datganiad sydd i ddod ar y cynllun ariannu ar gyfer perchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) sy'n cael eu disodli o ganlyniad i glirio'r band 700 MHz. Tynnodd sylw at y pwyntiau a wnaed yn ei ymateb i'r ymgynghoriad: na ddylai unrhyw berchennog a gweithredwr offer PMSE yr

effeithir arnynt mewn unrhyw ffordd gan y gwaith o glirio 700 MHz fod ar eu colled, ac y dylai Ofcom “unioni’r diffyg sbectrwm ar gyfer PMSE a achosir gan y gwaith o glirio’r band 700 MHz”, gan gynnwys ceisio cael gwared ar y rhwystrau i ddefnyddio’r band 960-1164 MHz a “bandiau mae gweinyddiaethau eraill yn Ewrop yn eu hagar ar gyfer PMSE.”

### Ein hymateb

- A2.84 Rydym wedi ymgynghori ar y cynllun ariannu a byddwn yn ystyried yr holl ymatebion gan randdeiliaid wrth wneud ein penderfyniad. Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad cyn bo hir yn amodol ar gymeradwyaeth y Trysorlys. Fel rhan o liniaru yn erbyn PMSE yn colli’r band 700 MHz rydym wedi caniatáu mynediad at y band gwarchod 700 MHz (694 i 703 MHz) ac wedi gwneud rhagor o sbectrwm ar gael yn y band 960 i 1164 MHz.

---

### Darpariaeth symudol

- A2.85 Roedd **Which?** yn credu bod sawl rhan o’r DU yn dal i ddioddef darpariaeth band eang, data symudol a llais gwael. Roedd yn croesawu'r gwaith mae Ofcom yn ei fwriadu er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau darpariaeth presennol yn cael eu cyflawni, a dywedodd ei fod yn hollbwysig fod canfyddiadau Ofcom yn sgil y gwaith hwn yn cael eu cyhoeddi. Gwnaeth hefyd annog Ofcom, fel rhan o’r rownd nesaf o arwerthiannau sbectrwm, i ystyried sut gallai ddefnyddio dyletswyddau darpariaeth neu gymhellion eraill i wella'r ddarpariaeth symudol yn y DU.
- A2.86 Roedd **Three** yn cefnogi'r uchelgais ar gyfer gwella’r ddarpariaeth symudol yn y DU, ond roedd yn credu nad yw hi, mewn rhai rhannau hynod o anghysbell ac anodd eu cyrraedd o’r DU, yn economaidd i weithredwyr rhwydweithiau symudol ddarparu darpariaeth symudol. Anogodd Ofcom a’r Llywodraeth i beidio â gorfodi gofynion darparu ychwanegol i bob gweithredwr rhwydweithiau symudol y tu hwnt i 90% o arwynebedd tir y DU “yn enwedig gan y byddai cost dyletswyddau darpariaeth symudol ychwanegol yn cael effaith anghymesur ar weithredwyr rhwydweithiau symudol llai, gan gynnwys Three.” Yn hytrach, roedd yn credu y byddai’n briodol defnyddio arian y Llywodraeth i sicrhau darpariaeth uwch, neu fel arall gallai Ofcom gynnwys dyletswydd darpariaeth yn un o’r trwyddedau 700 MHz sydd i’w dyfarnu.
- A2.87 Croesawodd **Llywodraeth Cymru** y cyfeiriad at y Cynllun Gweithredu Symudol i Gymru a’r ymrwymiad parhaus i gydweithio â Llywodraeth Cymru, ond roedd am i Ofcom ennill gwell dealltwriaeth o gyfleoedd a heriau rheoleiddio gwahaniaethol o ran daearyddiaeth. Roedd yn credu bod dyfarnu’r sbectrwm 700 MHz bosibilrwydd ardderchog o sicrhau darpariaeth data llais a symudol defnyddiadwy a dibynadwy mewn ardaloedd gwledig, mae am weld dyletswyddau daearyddol priodol ynghlwm wrth yr arwerthiant ac i gyflawni hyn, mae am i Ofcom ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru wrth ddylunio’r arwerthiant. Hoffai weld Ofcom yn ymchwilio i ymyriadau rheoleiddiol eraill, fel rhannu mastiau a chwydro, a sut gallai Ofcom ddefnyddio'r adnoddau rheoleiddio sydd ganddo i gyflwyno hyn.

A2.88 Roedd **Chris Barwise** yn credu y dylai'r ddarpariaeth o wasanaethau 4G "fod ar gael ym mhob man yn gyntaf cyn hyd yn oed ystyried 5G".

### Ein hymateb

- A2.89 Credwn y dylai gwasanaethau data o ansawdd da sy'n cael eu darparu dros rwydweithiau 4G fod ar gael yn eang iawn. Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddwn ni ganlyniad ein hasesiad o gydymffurfriad<sup>28</sup> a oedd yn cadarnhau bod y gweithredwyr symudol wedi cyflawni eu dyletswyddau darpariaeth. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad<sup>29</sup> yn nodi'r cynigion ar gyfer dyletswyddau darpariaeth newydd i'w rhoi ynghlwm wrth y trwyddedau sbectrum 700 MHz yr ydym yn disgwyl eu harwerthu yn 2019. Mae cynigion yr ymgynghoriad yn cynnwys gosod targedau darpariaeth yn holl wledydd y DU, gan ystyried eu gwahanol fannau cychwyn.
- A2.90 Mae ein gwaith i glirio'r band 700 MHz er mwyn iddo fod ar gael i wasanaethau symudol wedi hen ddechrau. Byddwn yn parhau â'n gwaith clirio gyda'r bwriad o sicrhau bod y band ar gael yn genedlaethol ar gyfer data symudol erbyn canol y 2020au. Rydym yn disgwyl dyfarnu ar gyfer y band hwn yn 2019.
- A2.91 Nid ydym yn credu y bydd yr amcan hwn yn gwrthdaro â chyflwyno'r gwasanaethau 5G cyntaf, yn rhannol oherwydd bydd y dyletswyddau darpariaeth newydd yn dod yn amodau trwydded ffurfiol y bydd yn rhaid i'r deiliaid trwyddedau eu bodloni.
- A2.92 Ar wahân i ddyletswyddau darpariaeth, mae gennym raglen waith ehangach i helpu i wella'r ddarpariaeth symudol, er enghraifft gwaith i gefnogi cysylltedd gwell ar lwybrau trafnidiaeth, ac archwilio'r rôl y gallai lefelau uwch o rannu seilwaith ei chwarae.

---

## Adolygu amlygrwydd PSB a'r cyfeirydd rhaglenni electronig (EPG)

- A2.93 Soniodd **Pwyllgor Cyngori Lloegr** Ofcom am y gwaith ar amlygrwydd EPG ac anogodd Ofcom i dalu sylw i'r ffyrdd o gael gafael ar wasanaethau os oes gan y teclyn rheoli o bell fotymau wedi'u rhagosod ar gyfer gwasanaethau ar-alwad a allai osgoi unrhyw EPG ar gyfer gwasanaethau llinellol. Soniodd **Pwyllgor Cyngori Gogledd Iwerddon** Ofcom am y gwaith a gofynnodd a allai gynnwys pa mor hawdd yw dod o hyd i wasanaethau fel TG4 (gwasanaeth Gwyddeleg).
- A2.94 Croesawodd y **BBC** "ddull prydlon Ofcom o lansio'r adolygiad hwn a byddai'n annog Ofcom i wneud argymhellion mewn da bryd ar gyfer gwneud unrhyw argymhellion statudol a fydd yn cael eu gwneud yn y Senedd hon."

---

<sup>28</sup> Ofcom, Mawrth 2018, *Rhwymedigaeth o ran darpariaeth symudol*.

<https://www.ofcom.org.uk/cymru/spectrum/information/cellular-coverage>

<sup>29</sup> Ofcom, Mawrth 2018, *Gwella darpariaeth symudol: Cynigion ar gyfer rhwymedigaethau darpariaeth wrth ddyfarnu'r band sbectrum 700MHz*. [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0022/111937/consultation-700mhz-coverage-obligations.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/111937/consultation-700mhz-coverage-obligations.pdf)

### Ein hymateb

A2.95 Nodir dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â'r rheoliad EPG yn Neddf Cyfathrebiadau 2003, a gosodwyd y telerau ar gyfer ein hadolygiad gan y Senedd yn Neddf yr Economi Ddigidol 2017. Fel y nodwyd yn ein papur diweddar *Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn yr Oes Ddigidol*<sup>30</sup>, rydym yn ceisio sicrhau'r amlygrwydd a'r argaeledd ehangaf i ddarlledu gwasanaethau cyhoeddus, a bydd hwn yn faes blaenoriaeth yn 2018/19. Byddwn yn cynnal adolygiad o'r Cod EPG ac yn ymgynghori ar gynigion, a byddem yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar yr ymgynghoriad hwn.

---

### Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd

A2.96 Roedd **uSwitch** yn siomedig nad oedd prosiect a oedd yn edrych yn benodol ar fynediad at ddata darpariaeth symudol a chyflymder band eang sy'n benodol i ddarparwyr a chynnyrch drwy APIs. Gofynnodd **George Adam** a fyddai'n bosibl hyrwyddo rhaglen y gwiriwr darpariaeth yn ehangach ar-lein, ac a fyddai modd darparu rhestr o ddarparwyr gwasanaethau rhyngwyd gweithredol mewn ardal.

### Ein hymateb

A2.97 Mae Ofcom yn cydnabod y manteision i ddefnyddwyr sy'n deillio o ddarparu gwybodaeth well ar wasanaethau symudol a band eang sefydlog. Rydym eisoes yn darparu gwybodaeth o'r fath i defnyddwyr drwy ein rhaglen symudol a'n gwiriwr darpariaeth ar-lein, a byddwn yn parhau i ddatblygu ymarferoldeb yr adnoddau hyn. Mae gennym gysylltiadau gwaith da â nifer o ddarparwyr band eang sefydlog a gwybodaeth am ddarpariaeth symudol, gan gynnwys trwy ein cynllun achredu gwefannau cymharu prisiau, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r darparwyr hyn i edrych ar ffyrdd o ddarparu gwybodaeth gywir mae modd ei chymharu i gynifer o ddefnyddwyr â phosibl.

---

### Adolygu'r capiau diogelu ail ddothbarth ar gyfer llythyrau a pharseli gwasanaeth cyffredinol

A2.98 Anogodd **Uned Dyfodol Defnyddwyr** (Cyngor ar Bopeth yr Alban) Ofcom i sicrhau bod yr adolygiad yn ystyried yr effaith ar yr holl ddefnyddwyr, yn enwedig defnyddwyr bregus a'r rheini sydd ar incwm isel. Mynegodd **Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon** bryderon tebyg ac roedd hefyd yn awyddus i weld atebion ar gyfer gwella tryloywder prisiau yn y farchnad barseli ryngwladol drawsffiniol.

A2.99 Gofynnodd y **Post Brenhinol** am gyflymu'r gwaith ar y capiau diogelu ail ddothbarth. Gofynnodd am ganlyniad erbyn dechrau mis Medi 2018 ac ymgynghoriad erbyn mis Mai

---

<sup>30</sup> Ofcom, Mawrth 2018, *Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn yr oes ddigidol: Cefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y degawd nesaf a thu hwnt*. [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0026/111896/Public-service-broadcasting-in-the-digital-age.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0026/111896/Public-service-broadcasting-in-the-digital-age.pdf)

2018, er mwyn rhoi amser iddo ystyried unrhyw newidiadau wrth osod ei dariffau ar gyfer 2018-19. Nododd fod gosod tariffau yn broses hir a bod angen iddo ganiatáu digon o amser i gwsmeriaid roi'r newidiadau ar waith.

### Ein hymateb

- A2.100 Edrychwn ymlaen at weithio gyda phob un o'r cyrff eiriolaeth defnyddwyr wrth i ni fwrw ymlaen â'n gwaith o adolygu'r capiau diogelu ail ddsbarth. Byddwn yn ystyried yr angen i sicrhau bod y gwasanaethau perthnasol a ddiogelir gan y capiau yn parhau i fod yn fforddiadwy, yn ogystal â sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol.
- A2.101 Nid ydym yn bwriadu adolygu'r amserlen ar gyfer adolygu'r capiau diogelu ail ddsbarth. Ni fyddai'n briodol cyflymu'r adolygiad pwysig hwn dim ond i'w addasu ar gyfer ymarferion gweithredol y Post Brenhinol. Mae'n bwysig bod gan randdeiliaid – yn enwedig y rheini sy'n cynrychioli defnyddwyr bregus y mae'r capiau diogelu wedi'u dylunio i'w hamddiffyn – ddigon o amser i wneud sylw ar ein cynigion, a bod gan Ofcom amser i ystyried ymatebion. Mae'r amserlen rydym yn ei nodi yn ein Cynllun Blynyddol Arfaethedig eisoes yn rhagweld y bydd y Post Brenhinol yn cael o leiaf mis o rybudd rhwng ein penderfyniad terfynol a'r dyddiad y daw'r capiau diogelu presennol i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn er mwyn i'r Post Brenhinol gael digon o amser i fodloni ei rwymedigaethau rheoleiddio a rhoi mis o rybudd am unrhyw newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i delerau ac amodau gwasanaethau sydd yng nghwmpas y capiau diogelu, gan gynnwys prisiau, os bydd angen. Felly, rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad yn Ch2 2018/19 a datganiad yn Ch4.

---

## Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd

- A2.102 Roedd **Voice of the Listener and Viewer** yn pryderu y bydd dymuniad gweithredwyr rhwydweithiau symudol i gael rhagor o sbectrwm yn digwydd ar draul teledu daearol digidol ac y bydd yn niweidio darllediadau gwasanaeth cyhoeddus. Nododd nad yw sbectrwm ar gyfer teledu daearol digidol ar agenda'r gynhadledd a'i fod am i Ofcom gefnogi teledu daearol digidol a darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y gynhadledd.
- A2.103 Roedd y **BBC** yn credu ei bod yn bwysig i Ofcom gynnig cyfle i randdeiliaid roi eu barn ar holl eitemau'r agenda cyn y gynhadledd.

### Ein hymateb

- A2.104 Mae Ofcom rhoi llawer o ymdrech i baratoi at Gynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2019 (WRC-19). Nid oes eitem ar agenda WRC-19 sy'n ymwneud â'r sbectrwm a ddefnyddir gan deledu daearol digidol, felly nid ydym yn rhagweld y byddwn yn pennu safbwynt ffurfiol y DU ar y pwnc hwn. Er nad ydym yn disgwyl i'r mater hwn gael sylw yn WRC-19, mae'n werth nodi ein bod yn rhagweld y bydd y Gynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd nesaf, yn 2023, yn ystyried sbectrwm a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau symudol a sbectrwm a ddefnyddir gan deledu daearol digidol ar hyn o bryd. Bydd Ofcom yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid mewn perthynas â datblygu safbwyntiau'r DU ar Gynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2019, gan roi cyfle i randdeiliaid gyfrannu at y broses.

## Gwarchod defnyddwyr rhag niwed

### Adolygu'r gwasanaethau ymholiadau rhifau ffôn

A2.105 Croesawodd **Pwyllgor Cyngori Gogledd Iwerddon** a'r **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** hwn fel maes gwaith blaenoriaeth: roedd yr ail wedi awgrymu ymestyn yr adolygiad i gynnwys ffioedd mynediad ac i fonitro unrhyw ganlyniadau anfwriadol ac annheg yn sgil y fenter Galwadau'r Deyrnas Unedig a gyflwynwyd yn 2015.

#### Ein hymateb

A2.106 Yn dilyn pryderon am gost gynyddol y gwasanaethau ymholiadau rhifau ffôn (118), mae Ofcom wedi lansio Adolygiad o Gost Galwadau yn 2017 er mwyn sicrhau bod y prisiau'n dryloyw ac yn deg i ddefnyddwyr. Rydym wedi casglu tystiolaeth o nifer o ffynonellau ac rydym yn adolygu'r dystiolaeth i asesu natur a graddfa'r niwed mae defnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn wedi'i ddioddef. Yna byddwn yn ystyried a yw'r atebion yn briodol ac ar ba ffurf y byddent.

---

### Adroddiad ar gyfranogiad a bregusrwydd

A2.107 Roedd yr **Uned Dyfodol Defnyddwyr** yn awyddus i'r adroddiad hwn archwilio canlyniadau ar gyfer defnyddwyr bregus mewn marchnadoedd post, ac awgrymodd y dylai ymdrin â sgamiau post yn ogystal â fforddiadwyedd postio, a dibyniaeth defnyddwyr ar hynny.

#### Ein hymateb

A2.108 Bydd ein hadroddiad Mynediad a Chynhwysiant yn ystyried y defnydd o wasanaethau gan ddefnyddwyr anabl a defnyddwyr sydd mewn amgylchiadau bregus. Ar wahân i hynny, bydd ein gwaith ar wasanaethau post yn cynnwys gweithio gyda phob un o'r cyrff eiriolaeth defnyddwyr wrth i ni fwrw ymlaen i adolygu'r capiau diogelu ail ddsbarth a pharhau i fonitro fforddiadwyedd gwasanaethau post drwy ein harolygon traciwr post. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn ymgysylltu â Chyngor ar Bopeth yng nghyswllt ei waith ar sgamiau.

---

### Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwyd

A2.109 Croesawodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** waith Ofcom ar fudo gwasanaethau llais ac roedd yn credu y dylai Ofcom "sicrhau bod cefnogaeth, gwybodaeth ac effaith ar ddefnyddwyr yn rhan flaenllaw o'i syniadau".

A2.110 Roedd **Openreach** yn credu y byddai gan Ofcom ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o fudo unrhyw wasanaethau llais drwy ddarparu cefnogaeth 'mewn egwyddor' i'r cysyniad o newid i ddigidol; drwy sicrhau bod y gwaith mudo'n mynd rhagddo'n hwylus; a thrwy



ddileu rhwymedigaethau ar Openreach i ddarparu gwasanaethau llinellau copr lle a phryd y bo'n briodol.

### Ein hymateb

A2.111 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant i ddeall eu cynlluniau i sicrhau bod eu prosesau mudo arfaethedig yn cael eu cyfleu'n effeithiol ac nad ydynt yn arwain at unrhyw niwed neu ganlyniadau gwael i ddefnyddwyr a busnesau. Rydym yn ymwybodol o'r angen i sicrhau nad yw rheoleiddio yn atal arloesi neu fudo gwasanaethau i rwydweithiau mwy galluog ac effeithlon. Rydym wedi dangos ein bod yn barod i addasu rheoliadau yn ein hadolygiadau diweddar o'r farchnad. Er enghraifft, roedd ein hymgyngoriad diweddar ar waith rheoleiddio Hull yn cynnwys y cynnig i ddileu'r rhwymedigaeth dadfwdelu dolenni lleol copr ar KCOM yn Hull, nawr bod KCOM wedi buddsoddi mewn rhwydwaith FTTP ar draws y ddinas.

---

## Diogelwch a chadernid rhwydweithiau

A2.112 Gofynnodd y **Gymdeithas Darparwyr Gwasanaethau Rhyngwryd** am ragor o eglurder ar gylch gwaith reoleiddio Ofcom a rheoleiddwyr eraill mewn perthynas â diogelwch seibr. Soniodd bod llawer o gyrff rheoleiddio a mecanweithiau cofnodi ac roeddent yn credu bod cydymffurfio yn fwy o faich nag y dylai fod.

### Ein hymateb

A2.113 Yn 2017, fe wnaethom ymgynghori ar ddiwygiadau i'n canllawiau cyhoeddedig yng nghydestun sut y byddwn yn gweithredu Adran 105A y Ddeddf Cyfathrebiadau sy'n gosod rhwymedigaethau ar y ffordd mae darparwyr cyfathrebiadau yn sicrhau diogelwch a chadernid rhwydweithiau. Mae'r canllawiau diwygiedig<sup>31</sup> yn nodi sut bydd y berthynas yn gweithio rhwng ein cylch gwaith ni a chylch gwaith yr NCSC a chyrrff eraill sydd ag awdurdodaeth sy'n gorgyffwrdd ar faterion yn ymwneud â diogelwch seibr.

---

## Diogelu cynulleidfaoedd

A2.114 Roedd **Mediawatch-UK** am i Ofcom amlinellu camau ar gyfer mynd i'r afael â nifer o rieni sy'n bryderus am yr hyn mae eu plant wedi'i weld ar y teledu cyn y trothwy, ac roedd am i Ofcom archwilio pam nad oes llawer o wylwyr yn defnyddio'r broses gwyno yng nghyswllt darllediadau mewn ymateb i ddeunydd tramgwyddus. Roedd Mediawatch-UK yn awyddus iddo ef a sefydliadau tebyg gyfarfod ag Ofcom bob chwe mis a chael gwahoddiad i gyfrannu at drafodaethau'r dyfodol sy'n ymwneud â datblygu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer diogelu cynulleidfaoedd.

---

<sup>31</sup> Ofcom, Mehefin 2017, *Datganiad: Adolygu Canllawiau Diogelwch*. <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/review-security-guidance>

## Ein hymateb

A2.115 Diogelu plant rhag cynnwys darlledu anaddas yw un o ddyletswyddau pwysicaf Ofcom. Canfu ein hadroddiad *Plant a Rhieni: Agweddau a Defnydd o Gyfryngau* fod 6% o rieni plant 3-4 oed a 9% o rieni plant 5-15 oed yn 2016 yn bryderus am yr hyn roedd eu plant wedi'i weld ar y teledu cyn y trothwy, er bod y rhan fwyaf yn parhau i ddweud nad ydynt yn bryderus. Canfu ein hadroddiad ar agweddau cynulleidfaoedd y DU at y cyfryngau darlledu yn 2017 fod un rhan o bump (19%) o oedolion wedi'u tramgwyddo'n bersonol gan rywbeth roeddent wedi'i weld ar y teledu yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cyd-fynd â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol. Yr ymateb mwyaf cyffredin wrth weld deunydd tramgwyddus oedd newid i sianel wahanol (43%), o'i gymharu â 2% a oedd yn ymateb drwy gwyno i'r darlledwr neu'r rheoleiddiwr. Gall barn ar raglenni amrywio yn sylweddol, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod ein rheolau ar dramgwydd wedi cael eu torri. Rydym yn asesu pob cwyn a gawn yn ofalus i sicrhau bod ein rheolau ynglŷn â deunyddiau cyn y trothwy yn cael eu dilyn, ac rydym yn cymryd camau cadarn pan nad ydynt yn cael eu dilyn. Rydym yn parhau i sicrhau ei bod yn hawdd i bob gwylwr a gwrandawr ddefnyddio ein proses gwyno os ydynt am wneud cwyn, a bod unrhyw newidiadau arfaethedig i'n rheolau yn cael eu hystyried drwy broses ymgynghori sydd ar agor i'r cyhoedd. Rydym yn barod i ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr a rhanddeiliaid i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â safonau darlledu hefyd.

---

## Ymgysylltu yn ystod newidiadau i ddeddfwriaeth Ewropeaidd

### Diogelu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a busnesau'r DU yn ystod Brexit

- A2.116 Mae sawl ymatebydd wedi annog Ofcom i sicrhau fod buddiannau defnyddwyr a busnesau yn cael eu diogelu yn ystod Brexit. Awgrymodd **Openreach** ddeialog gyda'r diwydiant ynglŷn â sut y bydd y fframwaith rheoleiddio yn edrych ar ôl Brexit. Roedd y **Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu** o'r farn y byddai rheoliadau gan Ofcom yn y dyfodol sydd heb eu cyfyngu gan gyfraith yr UE yn adlewyrchu natur mwyfwy cydgyfeiriol marchnadoedd. Mynegodd y **Post Brenhinol** bryder am barseli'n cael eu cludo'n rhwydd ar draws ffiniau, yn enwedig yn sgil newidiadau i drethi a thollau tramor ar bost ar draws ffiniau.
- A2.117 Tynnodd **Cymdeithas Gweithredwyr Lloeren EMEA** sylw at arwyddocâd arbennig rôl Ofcom yng nghyswllt gweithredwyr lloeren rhyngwladol yn y DU, neu rai mae'r DU yn eu gweinyddu, ac sy'n dibynnu ar fynediad rhyngwladol i safleoedd orbitol, cydlynu lloeren, a sbectrwm wedi'i gysoni. Dywedodd y byddai'n falch o ymgysylltu mewn ffyrdd a fyddai'n galluogi Ofcom i barhau i chwarae rhan ragweithiol ac awdurdodol yn rhyngwladol.

## Ein hymateb

A2.118 Mae'r trafodaethau Brexit ac unrhyw newidiadau i fframwaith deddfwriaethol y DU yn y dyfodol yn fater i'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae Ofcom yn fwy na pharod i drafod y meysydd hyn â'r diwydiant fel rhan o'i waith parhaus o ymgysylltu â'r diwydiant ar Brexit.

Rydym yn cydnabod bod angen i fframweithiau ar gyfer dadansoddi'r farchnad esblygu dros amser i adlewyrchu amodau'r farchnad sy'n newid; mae'r Fframwaith Ewropeaidd ei hun wedi newid dros amser oherwydd y rheswm hwn. Byddwn yn parhau i ystyried y ffordd orau o ddiffinio ac asesu marchnadoedd o dan fframwaith cyfreithiol y DU sy'n esblygu ac sy'n ein llywodraethu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i sicrhau cyn lleied o aflonyddwch â phosibl ar y sector post. Fodd bynnag, mae unrhyw newidiadau i'r tollau neu'r gyfundrefn drethi yn fater i'r Llywodraeth ac nid oes gan Ofcom unrhyw ran yn y meysydd hyn.

- A2.119 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall eu safbwyntiau ar faterion rhyngwladol a byddwn yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yn y trafodaethau rhyngwladol ar y materion pwysicaf ar gyfer y DU. Rydym yn cydnabod bod rôl Ofcom mewn cynrychioli'r DU ar gyrff rhyngwladol sy'n ymwneud â sbectrwm yn hynod o bwysig i'r sector lloeren.

---

## Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig yr UE a Chyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol

- A2.120 Roedd **Openreach** yn credu ei bod yn hanfodol cadw nodweddion cadarnhaol y Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig presennol a gwrthsefyll cynigion y mae'n credu a fyddai'n difrodi buddsoddiadau ac yn atal cystadleuaeth mewn perthynas â'r rhwydwaith.
- A2.121 Nododd y **BBC** fod y Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig a'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yn gyfleoedd pwysig i foderneiddio'r rheolau ar gyfer safonau cynnwys a dosbarthu. Nododd ei fod am osgoi rhagor o faich gweinyddol wrth ddarlledu ar draws ffiniau yn yr UE, ac roedd am weld y rheolau ar gyfer diogelu dosbarthiad sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar y prif lwyfannau teledu yn cael eu hymestyn i gynnwys dulliau diogelu tebyg ar gyfer gwasanaethau ar-alwad.

### Ein hymateb

- A2.122 Mae Ofcom yn parhau i gynnal trafodaethau â deddfwyr Ewropeaidd er mwyn sicrhau bod y Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig diwygiedig yn parhau i fod o blaid cystadleuaeth a buddsoddi, ac yn parhau i wasanaethu anghenion defnyddwyr a busnesau y DU. Rydym yn helpu'r Llywodraeth mewn trafodaethau ar y fframwaith pan fydd cwmpas y darpariaethau rhaid-cludo yn cael eu trafod. Hefyd, rydym yn dilyn y trafodaethau ar y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yn fanwl ac rydym o blaid yr egwyddor Gwlad Wreiddiol. Byddem hefyd yn hoffi osgoi rhagor o feichiau gweinyddol fel y mae'r BBC yn eu disgrifio.

## Gwaith parhaus i gyflawni ein nodau

### Rheoli sbectrwm, cynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol ac awdurdodi'r defnydd o sbectrwm

- A2.123 Awgrymodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** fod Ofcom yn “parhau i feddwl yn greadigol” am ddyrannu sbectrwm. Er enghraifft, mae'n ymgorffori cymal ‘ei ddefnyddio neu ei gollu’, “fel bod gan y darparwr reolaeth dros y tonnau awyr heb eu defnyddio i wella profiadau defnyddwyr a microfusnesau.”
- A2.124 Roedd **Cymdeithas Gweithredwyr Lloeren EMEA** o'r farn nad yw rheolau presennol Ofcom yn caniatáu i orsafoedd daear lloeren heb eu cydlynu (sefydlog, crwydrol neu symudol) weithredu yn hanner uchaf y band sbectrwm 14.25-14.5 GHz oherwydd bod y band yn cael ei rannu â'r Gwasanaethau Sefydlog, a gofynnodd a fyddai Ofcom yn gallu cadarnhau bod strategaeth yn cael ei mabwysiadu i gael gwared â'r dolenni gwasanaethau sefydlog sydd ar ôl yn y band hwn erbyn 2020.
- A2.125 Roedd **Joint Radio Company** yn credu y byddai anghenion cyfathrebu gweithredol cyfleustodau ynni angen mynediad at sbectrwm ychwanegol, ac anogodd Ofcom i sefydlu eitem waith benodol i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Nododd waith y Timau Trwyddedu Sbectrwm a Thimau Maes Ofcom, ond dywedodd fod yr uchafswm o 21 diwrnod ar gyfer prosesu trwyddedau wedi dyblu i 42 diwrnod yn y blynyddoedd diwethaf a bod angen mynd i'r afael â hyn. Cafodd hyn hefyd ei nodi gan y **Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu**, a oedd hefyd yn credu y dylai Ofcom barhau i sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo ar gyfer cynyddu mynediad i sbectrwm drwy sector radio busnes, ac i sicrhau nad oes unrhyw beth yn tarfu ar y sbectrwm radio.
- A2.126 Yng nghyswllt offer trydanol, gofynnodd **Roger Laphorn** i Ofcom “sicrhau cydymffurfiad llwyr â safonau gorfodol...dyfeisiau ar y farchnad yn y DU (er enghraifft cyflenwadau pŵer penodol ar ffurf switsis) nad ydynt yn cydymffurfio ac sy'n achosi ymyriant niweidiol a llygredd sbectrwm.”
- A2.127 Roedd llawer o randdeiliaid – **Nominet, Microsoft a Dynamic Spectrum Alliance** – yn credu y dylai Cynllun Ofcom ar gyfer 2018/19 gynnwys adolygiad o'r Fframwaith Bylchau Gwyn Teledu a ddaeth i rym yn 2015, sef yr adeg y dywedodd Ofcom ei fod yn bwriadu adolygu a fyddai angen cyfundrefn drwyddedu erbyn diwedd 2018.
- A2.128 Roedd **Thingitude** yn credu bod Cynllun Ofcom yn “ymddangos fel pe bai'n anwybyddu rhyngrwyd pethau yn llwyr, yn enwedig absenoldeb rhwydweithiau ardal eang pŵer isel cenedlaethol yn y DU”, a gofynnodd beth oedd Ofcom yn ei wneud i annog cystadleuaeth ac argaeledd rhwydweithiau LPWAN.

### Ein hymateb

- A2.129 Rydym yn gwneud ein gwaith yn unol â'n dyletswyddau statudol, gan gynnwys ein dyletswydd i sicrhau'r defnydd gorau o sbectrwm.

- A2.130 Mae rhan isaf y band 14 GHz eisoes yn darparu 250 Mhz o led band sydd ar gael ar gyfer gorsafoedd daear lloeren heb eu cydlynu yn y DU, ac mae hanner uchaf y band hwn (14.25-14.5 GHz) ar gael ar gyfer gorsafoedd daear lloeren parhaol a gydlynir a gorsafoedd daear lloeren traws-gludadwy. Nid ydym ar hyn o bryd yn bwriadu cael gwared â'r cysylltiadau sefydlog sydd ar ôl yn hanner uchaf y band. Er hynny, rydym yn croesawu unrhyw dystiolaeth bellach gan randdeiliaid o fanteision cael 250 MHz yn ychwanegol o led band mewn gorsafoedd daear lloeren heb eu cydlynu, a thystiolaeth bellach o'r galw am hynny.
- A2.131 Yn ein Datganiad ar yr adolygiad strategol o Fand 1 a Band 2 UHF<sup>32</sup> rydym yn cydnabod y newidiadau sydd ar y gweill mewn perthynas ag anghenion cyfathrebu ar gyfer cyfleustodau, yn enwedig ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu trydan. Fe wnaethom nodi bod dewisiadau amrywiol ar gyfer cyfathrebiadau, ac nad yw neilltuo sbectrwm yn angenrheidiol, ond y byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddeall eu hanghenion yn well ac i ganfod y ffordd orau o'u diwallu. Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid cyfleustodau, yn unigol ac ar y cyd, a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i ni ddatblygu ein dealltwriaeth o anghenion sbectrwm y sector.
- A2.132 Mae newidiadau mawr wedi digwydd i adnoddau a systemau tîm Trwyddedu Sbectrwm Ofcom yn ddiweddar, ac rydym yn derbyn bod y newidiadau hyn wedi effeithio ar amseroedd prosesu. Rhoddwyd sylw i'r materion a oedd yn effeithio ar amseroedd prosesu ac, o fis Chwefror ymlaen, 19 diwrnod fydd yr amser prosesu cyfartalog ar gyfer ceisiadau newydd ar draws yr holl gynnyrch, a 12 diwrnod ar gyfer amrywiadau i drwyddedau sydd eisoes yn bodoli. 42 diwrnod yw targed statudol Ofcom ar gyfer ceisiadau newydd, neu 65 diwrnod os oes angen cydlynu rhyngwladol. Rydym yn parhau i fonitro ein prosesau a'n gwasanaethau i ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon o weithio gyda busnesau a defnyddwyr.
- A2.133 Rydym yn nodi pryderon y Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu mewn perthynas ag effaith yr ymyriant ac rydym yn credu bod y lefel bresennol o adnoddau yn ddigon i fodloni'r galw presennol. Fodd bynnag, mae ein hadnoddau yn gyfyngedig, ac rydym yn blaenoriaethu achosion mwy difrifol. Mae gwybodaeth bellach am ein dull o orfodi ar gael yn llawn ar ein gwefan.<sup>33</sup>
- A2.134 Rydym yn cydnabod ein bod wedi cynnig adolygiad cyffredinol o'r fframwaith Bylchau Gwyn Teledu, ac roeddem wedi awgrymu i ddechrau y gallai hyn fod o fewn 18 mis i roi'r fframwaith ar waith. Yn ein Datganiad<sup>34</sup>, eglurwyd mai'r "sbardun allweddol ar gyfer adolygiad o'r fath fydd ceisiadau sylweddol yn dod i'r amlwg gyda photensial i ledaenu ar lefel uchel, ac felly bydd yn cadw'r amseriad ar agor am y tro, tra byddwn yn parhau i adolygu'r gwaith o ddatblygu offer bylchau gwyn a'r defnydd ohonynt." Rydym o'r farn nad yw lefel bresennol y dosbarthiad yn cyfiawnhau adolygiad sylweddol o'r fframwaith ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid Bylchau Gwyn Teledu,

---

<sup>32</sup> Ofcom, Rhagfyr 2016, *Datganiad ar yr Adolygiad Strategol o Fand 1 a Band 2 UHF – 410 i 470 MHz*.

<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/strategic-review-of-uhf-band-1-and-band-2>

<sup>33</sup> Ofcom, Tachwedd 2017, *Gorfodi sbectrwm*. <https://www.ofcom.org.uk/spectrum/interference-enforcement/spectrum-enforcement>

<sup>34</sup> Ofcom, Chwefror 2015, *Gweithredu Bylchau Gwyn Teledu*.

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0034/68668/tvws-statement.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0034/68668/tvws-statement.pdf)

gan gynnwys darparwyr a gweithredwyr cronfeydd data, ac rydym yn ymwybodol o faterion allweddol penodol y mae rhanddeiliaid wedi'u codi mewn perthynas â'r fframwaith a'r gwaith o'i weithredu. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector i fynd i'r afael â'r rhain o dan reolaeth cyffredinol y fframwaith.

---

## Monitro effeithiolrwydd y fframwaith rheoleiddio ar gyfer post

A2.135 Roedd **Pwyllgor Cynghori Lloegr** Ofcom yn bryderus bod llai o sylw'n cael ei roi i wasanaethau post nag i feysydd eraill, ac roedd am weld mwy o bwyslais yn cael ei roi ar brofiadau defnyddwyr ochr yn ochr ag adolygiad economaidd o'r farchnad.

### Ein hymateb

A2.136 Ar ôl i ni gwblhau adolygiad sylfaenol o'r gwaith o reoleiddio'r Post Brenhinol yn 2017, mae ein rhaglen waith ar gyfer y gwasanaeth post yn fwrriadol yn fwy penodol yn 2018-19. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fonitro anghenion a dewisiadau defnyddwyr y gwasanaeth post yn ofalus fel rhan o'n harolygon traciwr post blynyddol a thrwy ein trefn fonitro. Erbyn hyn rydym yn rhoi mwy o bwyslais ar anghenion a dewisiadau defnyddwyr post yn ein hadroddiadau monitro blynyddol, gyda phennod bwrpasol: *Profiad defnyddwyr a busnesau o'r gwasanaethau post.*

---

A2.137 Roedd **The Depot Box Ltd** am weld y Post Brenhinol yn defnyddio system cod bar mewn blychau adneuo fel prawf danfon.

### Ein hymateb

A2.138 Mae'r rhain yn faterion gweithredol manwl y byddai'n well i'r diwydiant fwrw ymlaen â nhw. Nid ydym yn credu bod gan Ofcom rôl mewn materion o'r fath.

---

A2.139 Roedd **Uned Dyfodol Defnyddwyr (Cyngor ar Bopeth yr Alban)** am i Ofcom adolygu eithriadau'r ardal cod post yn nhargedau ansawdd gwasanaethau'r Post Brenhinol, a gofynnodd a ddylai'r eithriadau fod yn berthnasol i'r holl gyfeiriadau yn y codau post hynny. Nododd nad yw danfoniadau i ynysoedd penodol yn cael eu cynnwys yn y targedau danfon cyffredinol oherwydd natur anghysbell yr ynysoedd, ond hefyd oherwydd bod gan rai ardaloedd sydd wedi'u heithrio o godau post (KW, ZE a HS) gyfeiriadau ar y tir mawr, ac mae gan rai ardaloedd codau post eraill (KA, IV, PA a PH) gyfeiriadau anghysbell neu gyfeiriadau ar ynysoedd ond nad ydynt wedi'u heithio.

### Ein hymateb

A2.140 Mae'r Post Brenhinol yn destun nifer o rwymedigaethau ansawdd gwasanaeth sylfaenol i sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth post cyffredinol yn cael gwasanaeth safonol sy'n diwallu eu hanghenion rhesymol. Dim ond un o'r targedau hyn yw'r targed sy'n ymwneud â pherfformiad ar lefel ardal cod post. Yng ngoleuni'r heriau penodol o ran danfon i

ardaloedd codau post HS, ZE a KW, mae'r rhain wedi'u heithrio o darged y perfformiad ar lefel ardal cod post. Fodd bynnag, caiff perfformiad y Post Brenhinol yn yr ardaloedd cod post hyn ei asesu fel rhan o'i berfformiad yn erbyn pob un o'r safonau perthnasol eraill. Mae hyn yn cynnwys safonau ansawdd gwasanaeth cenedlaethol y dosbarth cyntaf a'r ail ddosbarth. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i adolygu fframwaith ansawdd y gwasanaeth yn 2018/19. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl cynnal adolygiad o anghenion defnyddwyr post cyn 2022, a allai ddarparu cyfle i ystyried pa mor briodol yw fframwaith ansawdd y gwasanaeth.

---

- A2.141 Gofynnodd y **Post Brenhinol** am ymyriad rheoleiddiol i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol. Dylai hyn gynnwys adolygu cwmpas y gwasanaeth cyffredinol, gan ddiwygio trefn ansawdd y gwasanaeth, codi safonau defnyddwyr ar draws y diwydiant a chwilio am arferion cyflogaeth yn y diwydiant.

#### Ein hymateb

- A2.142 Fe wnaethom gwblhau adolygiad sylfaenol o'r gwaith o reoleiddio'r Post Brenhinol 2017. Rydym hefyd wedi egluro nad ydym yn cytuno â dadl y Post Brenhinol, sef bod angen mwy o ymyriadau rheoleiddio er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol i'r gwasanaeth post cyffredinol. Mae'r gyfundrefn reoleiddio eisoes yn rhoi hyblygrwydd masnachol sylweddol i'r Post Brenhinol ac rydym yn dal o'r farn mai hyblygrwydd o'r fath, ynghyd â chyfradd resymol o welliant mewn effeithlonrwydd yn y dyfodol, yw'r ffordd fwyaf tebygol y gall y Post Brenhinol sicrhau sefydlogrwydd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol, er gwaethaf yr heriau mae'n eu hwynebu.
- 

### Llythrennedd yn y cyfryngau

- A2.143 Dywedodd **Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon** Ofcom ei fod yn siomedig bod "dyletswydd statudol llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom yn gyfyngedig i un paragraff yn y cynllun arfaethedig...oherwydd gallai hyrwyddo a mesur llythrennedd yn y cyfryngau fod yn ddefnyddiol iawn i Ofcom."

#### Ein hymateb

- A2.144 Mae gan Ofcom ddyletswydd i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau ac i ymchwilio i hynny. Mae ein rhaglen ymchwil ar lythrennedd yn y cyfryngau, sy'n cael ei hegluro'n fanylach yn Atodiad 1, yn darparu dealltwriaeth fanwl o lythrennedd hollbwysig ymhlith oedolion a phlant, ac mae ein gwaith allgymorth a'n proses o rannu'r canfyddiadau â rhanddeiliaid yn eu helpu i flaenoriaethu gwaith. Ar wahân i hynny, rydym yn ymchwilio'n fanwl i agweddau ac arferion cael gafael ar newyddion ymhlith oedolion, sy'n rhoi rhagor o gymorth i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid gael dealltwriaeth gliriach o'r materion allweddol.
-

## Rhwydwaith ffonau talu cyhoeddus

- A2.145 Fel rhan o unrhyw waith ehangach y gall Ofcom ymgymryd ag ef yng nghyswllt USO, roedd **BT** yn credu ei fod yn gyfle i ailystyried a yw'r elfen sy'n ymwneud â ffonau talu cyhoeddus yn yr USO yn dal i fod yn berthnasol yng ngoleuni'r patrymau sy'n newid o ran defnyddio ffonau ac argaeledd dewisiadau amgen fel ffonau symudol.
- A2.146 Roedd **Vodafone** o'r farn bod angen i Ofcom gynnal adolygiad o ffonau talu ar frys, er mwyn rheoli'r gwaith o ledaenu ffonau talu trefol sy'n cael eu cymell gan hysbysebion yn unig, ac i gael gwared â ffioedd mynediad i ffonau talu sydd wedi dyddio.
- A2.147 Roedd yr ymgyrch **Campaign to Retain Payphones** (CARP) yn teimlo bod y system ar gyfer rheoleiddio blychau ffôn yn "anaddas i'r pwrpas" a bod "angen ei diwygio ar frys", ac nad oes cystadleuaeth ac eithrio "mewn ychydig o ddinasoedd mawr". Dadleuodd CARP bod Ofcom yn methu rheoleiddio prisiau nac annog cystadleuaeth, sy'n golygu bod y blychau ffôn yn "diflannu'n llawer cynt nag sydd raid".

### Ein hymateb

- A2.148 Mae gofyn i BT a KCOM, fel darparwyr gwasanaeth cyffredinol, sicrhau bod digon o flychau ffonio cyhoeddus yn cael eu darparu yn y DU er mwyn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr o ran cwmpas daearyddol, nifer y blychau ac ansawdd y gwasanaethau. Mae'n rhaid i BT a KCOM ymgynghori â'r awdurdodau lleol perthnasol cyn iddynt dynnu'r blwch olaf o safle, ac efallai na fyddant yn cael tynnu'r blwch hwnnw os bydd yr awdurdodau lleol yn gwrthwynebu hynny. Bydd Ofcom yn parhau i fonitro sut mae'r rheolau hyn yn cael eu rhoi ar waith.

---

## Galwadau niwsans

- A2.149 Roedd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** o'r farn bod "galwadau niwsans yn haeddu blaenoriaeth uwch ar agenda Ofcom na'r hyn a awgrymir yn y Cynllun, er mwyn adlewyrchu'r gwaith sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r mater hwn, sy'n dal i fod yn bryder mawr i lawer o bobl, gan gynnwys defnyddwyr bregus". Awgrymodd hefyd y dylai lleihau galwadau niwsans fod yn flaenoriaeth strategol i Ofcom. Roedd **Charles Meehan** hefyd o'r farn y dylai'r maes fod yn flaenoriaeth strategol a gofynnodd a oedd angen rhagor o bwerau ar Ofcom i orfodi ei ganllawiau ynghylch gallu gweld pwy sy'n galw er mwyn rhwystro galwadau. Roedd **Chris Barwise** o'r farn bod dirwyon gorfodi yn rhy isel mewn achosion pan fydd cwmniau'n peidio â chydymffurfio â rheolau Ofcom.
- A2.150 Roedd **Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon** Ofcom o'r farn bod galwadau niwsans yn parhau i fod yn broblem i ddefnyddwyr ac i'r diwydiant, ac awgrymodd y dylai gwaith Ofcom ystyried sgamiau; rhagor o eglurder ar gyfrifoldebau priodol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom; a gwybodaeth gliriach ynglŷn â pha sefydliadau y gall neu y dylai defnyddwyr gwyno wrthynt.

### Ein hymateb



A2.151 Mae galwadau niwsans yn parhau i fod yn bryder mawr, ac rydym yn ymrwymo i weithio'n barhaus ar sawl lefel i geisio lleihau'r galwadau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Darparwyr Cyfathrebiadau i roi atebion technegol ar waith i atal galwadau a tharfu arnynt ac i gryfhau'r gofynion sydd ar ddarparwyr cyfathrebiadau mewn perthynas â gallu gweld pwy sy'n galw. Mae natur y mater hwn, ac felly y gwaith sydd angen ei wneud i fynd i'r afael ag ef, yn waith amlochrog a pharhaus ac mae'n seiliedig ar orfodi. Rydym yn cyhoeddi diweddariad blynyddol ar Gynllun Gweithredu Ofcom ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.<sup>35</sup> Yn 2017 a 2018 roedd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ag eraill, gan gynnwys partneriaid rhyngwladol, ac asiantaethau gorfodi sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â sgamiau a thwyll, a pharhau i ganfod cyfleoedd drwy gydweithio ag asiantaethau a rheoleiddwyr eraill, i atal a chosbi sefydliadau ac unigolion sy'n gyfrifol am alwadau niwsans.

---

## Bwndelu prisiau

A2.152 Roedd **Three** yn credu y dylai Ofcom fonitro arferion prisio ar draws telegyfathrebiadau sefydlog a symudol, i sicrhau na all darparwyr hysbysebu prisiau isel nad oes modd eu cyflawni ar gyfer gwasanaethau symudol "a chuddio prisiau llawer uwch gwasanaethau sefydlog."

A2.153 Nododd sefydliad arall wahaniaethau mewn arferion prisio, bwndelu a thryloywder, a graddau'r gwaith rheoleiddio yn y cswllt hwn rhwng manwerthwyr a darparwyr gwasanaethau llinell sefydlog a symudol. Roedd hefyd yn credu y dylai'r cynllun achredu ar gyfer safleoedd cymharu prisiau symud i fodel haenog i adlewyrchu lefelau gwasanaeth gwahanol.

## Ein hymateb

A2.154 Rydym yn ystyried y mater sy'n ymwneud â chymhlethdod prisio a bwndelu cyfarpar â chynlluniau amser ar yr awyr fel rhan o'n gwaith ar ymgysylltiad defnyddwyr. Fel y nodir yn ein Cais am Fewnbwn<sup>36</sup> ar gyfer y prosiect hwn, rydym yn credu y gall bwndeli o wasanaethau cyfathrebiadau fod o fudd i ddefnyddwyr oherwydd eu bod yn gallu cynnig cyfleustod, dewis a gwerth, ond sy'n golygu mwy o gyfuniadau a thariffau amrywiol a all ei gwneud yn anodd i rai defnyddwyr lywio drwy'r farchnad (ee i gymharu prisiau cyffredinol gwasanaethau gwahanol). Rydym yn credu y dylai unrhyw bris fod yn dryloyw ac wedi'i nodi'n glir i ddefnyddwyr, ac mae gennym reolau i'r perwyl hwn. Rydym yn cynnwys strwythurau tariff yn ein hadroddiadau ar dueddiadau prisio.

---

<sup>35</sup> Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom, Chwefror 2018, *Negeseuon a Galwadau Niwsans: Diweddariad i'r cynllun gweithredu ar y cyd rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom.*

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0023/110957/nuisance-calls-joint-action-plan-2018.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/110957/nuisance-calls-joint-action-plan-2018.pdf)

<sup>36</sup> Ofcom, Gorffennaf 2017, *Cais am fewnbwn: Helpu defnyddwyr i ymgysylltu â'r marchnadoedd cyfathrebiadau.*

<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/helping-consumers-engage-communications-markets>

A2.155 Mae Ofcom yn achredu gwefannau cymharu prisiau ac mae hynny'n sicrhau defnyddwyr eu bod yn cael gwybodaeth gywir, dryloyw a chynhwysfawr am brisiau. Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod ein cynllun achredu gwirfoddol yn effeithiol wrth sicrhau bod y safleoedd hyn yn helpu defnyddwyr i ddewis gwasanaeth newydd, neu newid gwasanaeth.

---

## lawndal awtomatig a chyflymderau band eang

A2.156 Croesawodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** gasgliad gwaith Ofcom ar iawndal awtomatig ar gyfer defnyddwyr. Roedd yn gobeithio gweld y broses yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl, a symiau'r iawndal a gynigir yn cael eu hadolygu yn rheolaidd gan Ofcom. Roedd yn credu "o ran cyflymderau band eang, rydym yn credu bod achos cryf dros roi bilio cyfrannol ar waith...os bydd gwasanaeth band eang yn parhau i fethu darparu'r cyflymderau a oedd wedi'u gaddo, dylai'r cwsmer dalu llai yn gymesur â'r gwasanaeth hwnnw". Dywedodd y panel y byddai'n hoffi gweld Ofcom yn ystyried sut y gallai symud y farchnad yn y cyfeiriad hwn.

### Ein hymateb

A2.157 Rydym yn parhau i fonitro'r datblygiad a'r broses o roi'r iawndal awtomatig ar waith, ac rydym wedi ymrwymo i adolygu'r cynllun ar ôl 12 mis.

A2.158 Mae ein Codau Ymarfer ar Gyflymderau Band Eang, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018,<sup>37</sup> yn nodi hawliau defnyddwyr i ymadael os bydd eu cyflymderau band eang yn gostwng islaw y lefel sylfaenol a warrantwyd. Yn ein barn ni, byddai biliau cyfrannol lle codir tâl ar bob defnyddiwr ar sail cyflymder mae'n ei gael yn achosi llawer mwy o gymhlethdod i ddefnyddwyr ac yn lleihau tryloywder. Hefyd, byddai bilio cyfrannol yn effeithio ar yr holl gwsmeriaid. Rydym o'r farn bod ein dull gweithredu ni'n fwy penodol a chymesur am ei fod yn canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n cael cyflymderau is na'r cyflymder llwytho i lawr a warrantwyd. Mae ein codau ymarfer hefyd yn annog darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd i ystyried rhoi gostyngiadau, ynghyd â'r hawl i adael y contract, ar gyfer y defnyddwyr hynny sydd â chyflymderau is na'r cyflymder sylfaenol a warrantwyd.

---

## Delio â chwynion a dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR)

A2.159 Roedd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** am weld eitem wedi'i hychwanegu at y rhaglen waith i ddangos bod Ofcom yn bwriadu annog darparwyr cyfathrebiadau i wella eu gwasanaeth i gwsmeriaid, eu prosesau o ddelio â chwynion a mynediad at ddulliau amgen o ddatrys anghydfod, gan eu dal i gyfrif pan fo'r angen.

---

<sup>37</sup> Ofcom, Mawrth 2018, *Gwybodaeth am Gyflymder Band Eang Gwell: Codau Ymarfer Gwirfoddol – Datganiad*. [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0024/111696/statement-broadband-speeds.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0024/111696/statement-broadband-speeds.pdf)

A2.160 Roedd y Gymdeithas Darparwyr Gwasanaethau Rhynggrwyd o'r farn bod ADR yn faes y gallai Ofcom arddel agwedd mwy rhagweithiol, i ddilyn ei waith yn 2017, ac mae'r Gymdeithas Darparwyr Gwasanaethau Rhynggrwyd wedi bod yn gweithio'n agos gydag aelodau i geisio gwella'r system ADR bresennol.

### Ein hymateb

A2.161 Mae gwella'r ffordd rydym yn delio â chwynion am y diwydiant a gwella safonau gwasanaeth i gwsmeriaid yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom. Mae gennym raglen orfodi barhaus ar draws y diwydiant i asesu cydymffurfiad darparwyr cyfathrebiadau â'r rheolau hyn. Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar leihau cwynion am wasanaeth i gwsmeriaid, a bydd hyn yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

A2.162 Daeth ein hadolygiad diweddar o gynllun Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod i'r casgliad bod y ddau'n bodloni'r meini prawf cymeradwyo gofynnol. Er na wnaethom weld tystiolaeth gadarn i awgrymu bod unrhyw faterion systemig yn ymwneud â derbyn achosion a ddylai fod y tu allan i'r cwmpas, yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd byddwn yn comisiynu gwasanaethau ymgynghori allanol ddechrau 2018 i adolygu sampl o achosion i weld a oes unrhyw faterion sylfaenol y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae'r ddau gynllun wedi cytuno i gymryd rhan yn y darn hwnnw o waith.

A2.163 rydym wedi gwella ymwybyddiaeth o ADR dros y blynyddoedd diwethaf drwy wella arwyddion ADR Darparwyr Cyfathrebiadau, gyda chynnydd sylweddol yn niferoedd y llythyrau ADR sy'n cael eu hanfon erbyn hyn. Er bod hyn yn gadarnhaol, rydym yn parhau i weithio gyda Darparwyr Cyfathrebiadau i ysgogi rhagor o welliannau ac rydym wedi cryfhau rheolau yn y maes hwn fel rhan o'r Amodau Cyffredinol newydd. Byddwn yn monitro cydymffurfiad Darparwyr Cyfathrebiadau â'r rheolau newydd i weld a ydynt yn arwain at ddatrys cwynion yn gyflymach neu at gyfeirio'n gynt at ADR. Mae data cwynion ADR hefyd yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol i ddefnyddwyr mewn perthynas â pherfformiad Darparwyr Cyfathrebiadau a gallai helpu iddynt ddewis pa Ddarparwyr Cyfathrebiadau y byddant yn ei ddefnyddio i brynu gwasanaethau. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r cynlluniau ADR i gyhoeddi mwy o ddata cwynion pan fyddwn ni'n fodlon ei fod yn gadarn a bod modd ei gymharu.

---

### Cludo rhifau

A2.164 Roedd y **Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu, Cymdeithas y Darparwyr Gwasanaethau Ffôn Rhynggrwyd** ac un sefydliad arall yn siomedig nad oedd cludadwyedd rhifau sefydlog wedi cael ei gynnwys yn adolygiad Ofcom o'r Amodau Cyffredinol yn 2017 na Chynllun Blynyddol arfaethedig Ofcom, am eu bod yn credu bod methiannau yn y system bresennol. Fe wnaethant dynnu sylw at eu pryderon hirdymor ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer cludo rhifau hen llinellau sefydlog, wrth i wasanaethau llais newid o gynnyrch copr i gynnyrch llais ar y rhynggrwyd a ddarperir dros gysylltiadau band eang ffibr sy'n cynyddu. Ymhlith pethau eraill, mynegwyd pryderon ynglŷn â chydymffurfiad â'n rheoliadau sy'n ei

gwneud yn ofynnol i ddarparwyr telegyfathrebiadau roi cludadwyedd rhifau i ddefnyddwyr. Roeddent wedi annog Ofcom i flaenoriaethu adolygiad o drefniadau cludadwyedd rhifau.

### Ein hymateb

- A2.165 Rydym wedi cydnabod bod lle i wella ar y ffordd mae rhifau sefydlog yn cael eu cludo heddiw ac rydym yn gwybod bod cludo rhifau yn fater sy'n achosi pryder, yn enwedig ar gyfer busnesau llai. Yn ein hadolygiad strategol o gyfathrebiadau digidol yn 2016, eglurir nad oeddem wedi gallu dod i gonsensws yn y diwydiant ynglŷn â sut i fwrw ymlaen â hyn wrth edrych ar y mater yn y gorffennol. Felly, fe wnaethom annog y diwydiant i ddod i ryw fath o gonsensws ynglŷn â'r ffordd y gellid gwneud gwelliannau, er enghraifft drwy'r fforymau OTA perthnasol.
- A2.166 Rydym yn deall bod cynrychiolwyr diwydiant sy'n gweithio gyda'r OTA nawr wedi datblygu cynnig i'w gyflwyno i ni. Mae'n nodi barn a rennir ynghylch sut mae angen i'r model gweithredu ar gyfer cludo rhifau sefydlog y DU gael ei weddnewid er mwyn diwallu anghenion y dyfodol, gan fynd i'r afael â diffygion presennol hefyd. Rydym yn disgwyl adolygu hyn cyn bo hir.
- A2.167 Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ymchwilio i gwynion am ddarparwyr telegyfathrebu nad ydynt yn llwyddo i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau i ddarparu cludadwyedd, a byddwn yn gorfodi ein rheoliadau lle bo angen.

---

### Codi tâl am rifau

- A2.168 Nododd **BT Group** ei fod yn dal yn aros am gasgliadau adolygiad Ofcom o'i gynllun peilot ar gyfer codi tâl am rifau daearyddol. Mae BT yn edrych ymlaen at gasgliadau Ofcom ac yn gobeithio am system wahanol sy'n gwobrwyo defnydd effeithlon.

### Ein hymateb

- A2.169 Rydym wedi ystyried cynigion gan BT a rhanddeiliaid eraill ar gyfer mesurau amgen ac rydym wedi ystyried newidiadau i'r cynllun codi tâl er mwyn ymgorffori eu cyfraniadau. Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad sy'n rhoi casgliad ein hadolygiad o'r cynllun peilot ar gyfer codi tâl am rifau daearyddol cyn bo hir.

---

### Trwyddedu gwasanaethau darlledu yng Nghymru

- A2.170 Pan fydd trwyddedau teledu a radio ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru yn cael eu dyfarnu neu eu hadolygu, mae **Llywodraeth Cymru** o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth deg i natur ddwyieithog Cymru ac i bwysigrwydd y Gymraeg, ac y dylai "amrywiaeth ieithyddol, yn enwedig y Gymraeg mewn gwasanaethau i Gymru, fod yn darged wrth roi grantiau a rheoleiddio gwasanaethau ar gyfer Cymru.

### Ein hymateb

A2.171 Mae gweithgareddau darlledu wedi'u heithrio o Fesur y Gymraeg 2011. Mae Ofcom yn trwyddedu nifer o orsafoedd teledu a radio yng Nghymru ac yn asesu ceisiadau ar gyfer y trwyddedau hyn (a newidiadau dilynol i'r trwyddedau) yn unol â meini prawf statudol penodol. Nid yw'r rhain yn cynnwys ystyriaethau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn benodol, er gall ceiswyr gynnig cynnwys yr iaith Gymraeg yn eu gwasanaethau, a byddai hynny'n cael ei gynnwys yn eu trwyddedau. Byddai newidiadau i'r meini prawf statudol yn gofyn am ddiwygio deddfwriaethol.

---

## Materion sefydliadol

### Aelodau Bwrdd Ofcom ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon, ac ymgysylltiad â Bwrdd Ofcom

- A2.172 Roedd **Pwyllgor Cyngori Gogledd Iwerddon** Ofcom yn bryderus am oedi posibl yn y gwaith o benodi Aelod o Fwrdd Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon ac roedd wedi gofyn i Ofcom a'r Llywodraeth sicrhau na fydd Gogledd Iwerddon dan anfantais oherwydd y sefyllfa hon.
- A2.173 Nododd **Llywodraeth Cymru** ei bod yn bwriadu parhau â'r gwaith o recriwtio aelod o Fwrdd Ofcom i Gymru cyn gynted â phosibl, ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal â swyddogion Ofcom Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Hefyd, byddai Gweinidogion Cymru yn croesawu'r cyfle i drafod nifer o ddatblygiadau parhaus a amlinellir yn ei ymateb â Chadeirydd newydd Ofcom, yn ogystal â pharhau'r ddeialog gyda Phrif Weithredwr Ofcom, a ddechreuodd ym mis Medi 2016.
- A2.174 Nododd **Llywodraeth Cymru** ei bod wedi gweithio gydag Ofcom a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n amlinellu'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ofcom, ac roedd yn gobeithio y byddai'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei lofnodi'n fuan.

### Ein hymateb

A2.175 Edrychwn ymlaen at y gwaith o benodi Aelodau Bwrdd Ofcom ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon, ac at y broses o lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, maes o law. Yn y cyfamser, mae Ofcom yn parhau i roi strwythurau yn eu lle i gynrychioli pryderon y bobl ym mhob gwlad, gan gynnwys ei Bwyllgor Cyngori Cenedlaethol, a chynrychiolwyr ar y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau. Mae aelodau Bwrdd Ofcom a Swyddog Gweithredol Ofcom hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r gweinyddiaethau datganoledig, pleidiau gwleidyddol a sefydliadau a chymunedau eraill yng ngwledydd y DU, a byddent yn falch o drafod unrhyw ddatblygiadau a amlinellir yn yr ymatebion.

---

## Capasiti Ofcom a recriwtio

A2.176 Mae **Llywodraeth Cymru** yn dal i bryderu ynghylch a oes gan Ofcom, ar lefel y DU ac yng Nghymru, ddigon o gapasiti i gyflawni ei gyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â'r BBC. Hefyd, nododd ei chwestiynau blaenorol ynghylch cynlluniau Ofcom i ehangu mewn ffordd debyg yn y gwledydd datganoledig eraill, gan gynnwys Cymru, i sicrhau cydraddoldeb â'r Alban. Nododd bod nifer cynyddol o swyddi'n cael eu hadleoli neu eu hysbysebu gan Ofcom yn Llundain, Gogledd Orllewin Lloegr a Chaeredin, ac roedd yn awyddus i gael gwybod y rhesymeg y tu ôl i hyn a'r rheswm nad yw Caerdydd wedi cael ei rhestru fel lleoliad.

### Ein hymateb

A2.177 Er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau newydd ar gyfer y BBC, rydym wedi recriwtio gweithwyr ar draws yr holl ddisgyblaethau, ond gyda ffocws penodol ar weithwyr proffesiynol ym maes polisi cynnwys a fydd yn gweithio i ddal y BBC i gyfrif am y gwaith o gyflawni ei gyfrifoldebau, gan gynnwys rhaglenni a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd a rhanbarthau'r DU. Rydym yn credu bod y nifer o weithwyr a gafodd eu recriwtio yn ddigon i gyflawni hyn.

A2.178 Penderfynodd Ofcom agor adeiladau newydd yng Nghaeredin ac yn Warrington fel rhan o'i strategaeth i symud rhan o'i weithrediadau i fannau y tu allan i Lundain, ac i ddatblygu gwasgariad gweithredol mwy amrywiol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Oherwydd adnoddau ac ystyriaethau eraill, ni allwn wneud hyn ar yr un raddfa ym mhob un o'n swyddfeydd. Bwriad ein hamcan o greu canolfan polisi a gweithrediadau yng Nghaeredin yw helpu i sicrhau ein bod yn gallu cynrychioli buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn effeithiol nid dim ond yn yr Alban ond ar draws y DU. Bydd y presenoldeb hwn yn sicrhau ein bod yn agosach at y prif heriau a wynebwr gan bob gwlad, gan gynnwys y rheini a ddaw yn sgil poblogaethau gwledig anghysbell a rhai sy'n wasgaredig yn ddaearyddol, a'r materion parhaus sy'n ymwneud â darpariaeth, dibynadwyedd ac argaeledd gwasanaethau cyfathrebu.

---

## Rôl cynrychioli defnyddwyr

A2.179 Dywedodd **Clare Milne** bod angen cynyddol i gynrychioli defnyddwyr annibynnol sydd ag adnoddau priodol ac "er nad yw Ofcom ei hun yn gallu cynnig llawer mwy o adnoddau ar gyfer cynrychioli defnyddwyr, gallai bwysu am newid deddfwriaethol er mwyn gallu neilltuo rhywfaint o refeniw cosbi i'r perwyl hwn (yn debyg i ddewisiadau gwneud iawn defnyddwyr Ofgem)." Hefyd roedd hi'n credu bod angen cynyddol i Ofcom weithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill, i gyflawni polisiâu cydlynol yn ogystal â gwaith gorfodi, o bosibl drwy gyfres o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth rhwng asiantaethau. Roedd hi hefyd o'r farn y dylid trefnu adolygiad o broses ymgynghori Ofcom, fel yr awgrymodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau.

### Ein hymateb

- A2.180 Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadu yn fwrdd cyngori statudol annibynnol i Ofcom. Rydym yn croesawu ei gyngor ar draws nifer o feysydd gwaith Ofcom, gan gynnwys ein Cynllun Blynyddol a'n prosesau ymgynghori. Mae Ofcom yn cynnal y Fforwm Defnyddwyr Cyfathrebu, fforwm anffurfiol ar gyfer cynrychioli defnyddwyr er mwyn rhannu gwybodaeth a safbwyntiau â'n gilydd, ac â phobl sy'n llunio ac yn gweithredu polisiau cyfathrebiadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr. Mater i'r Senedd fyddai unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth o ran ffioedd cosbi i ddarparu adnoddau ar gyfer cynrychioli defnyddwyr.
- A2.181 Mae Ofcom yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr economaidd, drwy Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU a fforymau eraill, i rannu profiadau ac enghreifftiau o arferion da, yn enwedig mewn perthynas â gwaith i wella gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr bregus. Er enghraifft, fel y nodir yn yr adran ar alwadau niwsans, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gynllun gweithredu ar y cyd.

---

## Cynllun gwaith Ofcom a mesur canlyniadau rheoleiddiol

- A2.182 Gofynnodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** i'r canlyniadau gael eu hesbonio'n fanylach i ddefnyddwyr (gan gynnwys microfusnesau) a dinasyddion yn yr holl brosiectau sydd wedi'u rhestru yn ein cynllun.
- A2.183 Dywedodd **Vodafone** y dylai Ofcom ystyried "y meini prawf llwyddiant ar gyfer ymyriad" cyn cyflawni un. Roedd yn teimlo y byddai diffinio dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol a rhoi gwybod i'r diwydiant amdanynt yn helpu rhanddeiliaid i asesu effeithiolrwydd ymyriadau, soniodd bod cyhoeddiad cyntaf *Ansawdd Gwasanaeth* yn enghraifft dda a gofynnodd am gael gwybod sut mae defnyddwyr wedi ymgysylltu â'r adroddiad hwn.
- A2.184 Gofynnodd y **Gymdeithas Darparwyr Gwasanaethau Rhyngwrdd** i Ofcom "leihau'r nifer o ymgynghoriadau mae'n eu lansio" a "sicrhau ei fod yn lleihau'r baich mae'n ei roi ar Ddarparwyr Gwasanaethau Rhyngwrdd, yn unol â'i ofynion o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, a chaniatáu lle i arloesi".
- A2.185 Roedd **BT Group** yn cydnabod bod angen i Ofcom fod yn ystwyth a gosod blaenoriaethau drwy gydol y flwyddyn, ond ailadroddodd ei gais i Ofcom gyfuno ei gynllun gwaith a'i raglen waith mewn un ddogfen. Hefyd, gofynnodd BT Group i Ofcom ystyried symud i gylchoedd hirach o adolygiadau o'r farchnad ac fe wnaeth ddadlau y byddai defnyddwyr a rhanddeiliaid yn elwa ar ddeall sut mae Ofcom yn gweld ei brosiectau dros fwy o amser. Byddai BT Group hefyd yn dymuno cael cyfle i roi mewnbyn i adroddiad blynyddol Ofcom ar ei berfformiad yn erbyn ei gynllun, gan awgrymu gweithdai cyhoeddus fel un dewis.

### Ein hymateb

- A2.186 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn rhoi dyletswydd statudol ar Ofcom i adolygu prosesau rheoleiddiol sy'n bodoli eisoes a rhai arfaethedig, er mwyn sicrhau nad ydym yn a) gorfodi beichiau diangen; neu b) yn cadw beichiau rheoleiddiol a orfodwyd yn y gorffennol sydd

bellach yn ddiangen. Rydym yn mynd ati i nodi meysydd lle rydym o'r farn bod dadreoleiddio yn bosibl; mae rhai o'r rhain wedi cael eu crynhoi yn Adran 3.

- A2.187 Rydym yn cyhoeddi ein rhaglen waith ochr yn ochr â'n Cynllun Blynyddol. Fodd bynnag, gan ein bod yn diweddarau'r rhaglen waith bob chwarter, ac yn cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol unwaith bob blwyddyn, nid ydym yn credu y byddai'n ymarferol cyfuno'r ddwy ddogfen yn un. Fodd bynnag, mae ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn cynnwys Adroddiad Perfformiad. Mae hwn yn darparu crynodeb o'n cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau ein cynllun blynyddol. Yn hwn, rydym yn darparu trosolwg o'r hyn rydym wedi'i wneud a pha ganlyniadau yn y farchnad yr ydym yn disgwyl i ddeillio o'n camau gweithredu. Rydym yn fodlon derbyn unrhyw sylwadau neu awgrymiadau gan randdeiliaid yng nghyswllt ei ganfyddiadau.
- A2.188 Pan fo'n bosibl, rydym yn ceisio dangos ein ymgynghoriadau a'n hadolygiadau rheoleiddiol eraill i randdeiliaid, ac yn ceisio nodi gweithgareddau arfaethedig tymor hirach, er enghraifft, o ran amseru adolygiadau statudol neu adolygiadau o'r farchnad. Mae ein Cynllun Blynyddol yn ffordd allweddol o wneud hyn. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau i'r farchnad, a rheoliadau, nid yw bob amser yn bosibl cynllunio neu ymrwymo i weithgaredd y tu hwnt i'r flwyddyn i ddod.

---

## Asesiadau o'r farchnad

- A2.189 Hoffai **Llywodraeth Cymru** i Ofcom ddatblygu dulliau rheoleiddio newydd sy'n ystyried amodau marchnad lleol penodol o ran topograffeg a phoblogaeth. Mae'n awgrymu y gallai dull newydd adnabod methiannau yn y farchnad nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu mewn asesiadau o'r farchnad ar lefel macro.
- A2.190 Galwodd **Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu** ar Ofcom i "gyflwyno newid pwyslais sylfaenol i godi safonau ansawdd sylfaenol a chymell buddsoddi er lles yr holl randdeiliaid", gan gynnwys gweithwyr yn y sector a defnyddwyr sydd â llai o bŵer marchnad. Dywedodd y dylid cyflwyno "strategaeth glir" i wella gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a bod yn rhaid i waith rheoleiddio ystyried cost y swyddi, y sgiliau a'r hyfforddiant ychwanegol sy'n angenrheidiol i ddatblygu "rhwydwaith digidol o'r radd flaenaf".

## Ein hymateb

- A2.191 Fel rhan o'n hasesiadau cystadleuaeth, rydym yn ystyried sut mae amodau cystadleuol yn amrywio ledled y wlad, oherwydd rydym yn gallu amrywio graddfa'r gwaith rheoleiddio mewn gwahanol ardaloedd. Mae ein hasesiadau hefyd yn ystyried yr effaith ar wahanol randdeiliaid. Fodd bynnag, nid oes gennym rôl benodol i'w chwarae yng nghyswllt cyflogaeth a hyfforddiant neu greu swyddi.
-



## Arloesi a chydgyfeirio yn y diwydiant

- A2.192 Roedd **ISPA** yn teimlo y dylem adlewyrchu ehangder y farchnad yn well mewn mentrau a phrosiectau polisi penodol. Roedd yn credu bod ein hadolygiadau o'r farchnad a'r diwydiant yn werthfawr, ond bod angen cynnwys rhagor o fanylion a gwybodaeth ynddynt am ehangder y farchnad.
- A2.193 Roedd y **Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu** yn credu bod gwasanaethau sefydlog a symudol yn dod yn fwyfwy cydgyfeiriol. Dadleuodd nad yw "gweithredwr rhwydwaith symudol yn cael eu rheoleiddio'n ddigonol i ddarparu unrhyw fath o fynediad cywerth drwy fodolau cyfanwerthu" a bod y gystadleuaeth rhwng gweithredwyr rhwydweithiau symudol yn cael ei hystyried yn "ddigonol" i arwain at fanteision i ddefnyddwyr. Ystyrir felly nad yw'r farchnad fusnes yn gallu gwireddu llawn botensial y technolegau cydgyfeiriol hyn.
- A2.194 Awgrymodd **Llywodraeth Cymru** y byddai'n ddefnyddiol gweld yn y Cynllun Blynyddol sut mae Ofcom yn bwriadu arloesi i gadw ar y blaen a sut y bydd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yma a thramor i ddatblygu datrysiadau arloesol, ac i edrych ar y gwaith mae Ofcom yn ei wneud i annog arloesi ac i ganfod ac atal rhwystrau rhag gwneud hynny.
- A2.195 Roedd y **BBC** o'r farn ei bod yn hanfodol i Ofcom ddeall yn llawn y newidiadau sydd i'w gweld yn y farchnad glyweledol, cyflymder y newidiadau hyn a'u goblygiadau ar gyfer gwaith rheoleiddio'r gwasanaeth darlledu cyhoeddus. Roedd o'r farn ei bod yn hollbwysig i Ofcom sicrhau chwarae teg i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r chwaraewyr byd-eang sy'n gweithredu ym marchnad y DU ac sy'n newid ei natur. Mae hefyd yn hollbwysig i Ofcom sicrhau bod newidiadau'n cyd-fynd â disgwyliadau defnyddwyr, gwerth cyhoeddus a safonau'r farchnad.

### Ein hymateb

- A2.196 Byddwn yn parhau i fonitro newidiadau i farchnadoedd yng nghyd-destun ein dyletswyddau, a byddwn yn mynd ati'n frwd i ymchwilio ac i fonitro datblygiadau yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Caiff enghreifftiau o ddeall newid eu crynhoi yn Adran 2 y ddogfen hon ac maent yn cael eu cefnogi gan ein rhaglen gynhwysfawr ar ymchwil a chanfyddiadau'r farchnad a nodir yn Atodiad 1. Mae hyn yn cynnwys ein dyletswyddau i gynnal a chryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus i ddefnyddwyr y DU. Er enghraifft, fe wnaethom gyhoeddi dogfen yn ddiweddar yn nodi'r heriau mae'r system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn eu hwynebu yng nghyd-destun newid yn y farchnad.<sup>38</sup>

---

<sup>38</sup> Ofcom, Mawrth 2018, *Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn yr oes ddigidol: Cefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y degawd nesaf a thu hwnt*. [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0026/111896/Public-service-broadcasting-in-the-digital-age.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0026/111896/Public-service-broadcasting-in-the-digital-age.pdf)

## Tariffiau a ffioedd Ofcom

- A2.197 Nododd **Vodafone** “[Rydym yn] annog Ofcom i gael y mesurau diogelwch angenrheidiol yn eu lle i atal unrhyw faes rhag cael ei anwybyddu, a byddem yn croesawu ffocws clir ar bob sector, y mae bob un ohonynt, yn eu rhinweddau eu hunain, yn hanfodol i lesiant economaidd a diwylliannol y DU. Y llynedd, roeddem yn siomedig bod cynnydd o 14% yn y taliadau gweinyddol roedd Ofcom wedi’u codi ar y sector cyfathrebiadau ar gyfer 2017/18. Oherwydd bod Ofcom wedi ehangu ei gylch gwaith, rydym yn gobeithio y bydd modd iddo weithredu mewn ffordd fwy effeithlon, ac y bydd costau cyffredin yn cael eu rhannu’n ehangach a’r baich yn cael ei ddosbarthu ar draws y sectorau amrywiol a reoleiddir gan Ofcom, gan arwain at ostyngiad yn ffioedd y sector cyfathrebiadau yn y blynyddoedd i ddod.
- A2.198 Gwnaeth y **Post Brenhinol** sylw ar ffioedd rheoleiddio. Nododd y Post Brenhinol bod “cynllun 2018-19 Ofcom yn dangos gostyngiad cyffredinol mewn gwaith post o’i gymharu â blynyddoedd blaenorol...Yng ngoleuni gostyngiad arfaethedig Ofcom i waith post - a’i amcan cyffredinol o sicrhau gostyngiad termau real yn ei gyllideb - rydym yn disgwyl gweld gostyngiad sylweddol mewn ffioedd yn 2018/19. Ailadroddodd ei fod o’r farn y dylid ymestyn y gwaith o adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio’r post i ddefnyddwyr gwasanaethau danfon llythyrau pen-i-ben a pharseli unigol a gwasanaethau mynediad, yn ogystal â’u hymestyn i weithredwyr parseli. Nododd hefyd bod “Ofcom wedi ymgynghori ar ddiwygiadau i adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio’r post ym mis Gorffennaf 2017”. Yn y ddau achos, byddai’n falch pe bai Ofcom yn “dod i benderfyniad yn ystod y flwyddyn ariannol hon fel bod modd i’r trefniadau newydd gael eu rhoi ar waith yn 2018-19.”

### Ein hymateb

- A2.199 Ers ei sefydlu, mae Ofcom wedi sicrhau arbedion mewn termau real yn gyson o ran costau rheoleiddio. Bydd y taliadau penodol a godir ar sectorau yn cynyddu/gostwng yn unol â’r rhaglen waith rydym yn bwriadu ymgymryd â hi bob blwyddyn fel y gwelir yn y sector gwasanaethau a rhwydweithiau.
- A2.200 Er bod Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn golygu ein bod ni nawr yn cael ein hariannu yn gyfan gwbl drwy ffioedd y diwydiant, mae’r Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl<sup>39</sup> presennol yn dal yn ddilys ac ni fydd newid o ran sut rydym yn gosod ffioedd ar gyfer y sectorau rheoleiddiol.
- A2.201 Cyhoeddir ein ffioedd a’n taliadau ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Nid ydym yn gwneud sylw ar lefel ein ffioedd rheoleiddiol cyn cyhoeddi’r tablau tariff.
- A2.202 Ers iddo ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros waith rheoleiddio post yn 2011, mae Ofcom wedi sicrhau gostyngiad o dros 50% yn nhermau real i gost rheoleiddio yn y sector post Fe wnaethom gwblhau ein hadolygiad cynhwysfawr o waith rheoleiddio’r Post Brenhinol yn 2017. Felly, mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post yn llai nag

---

<sup>39</sup> [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0019/51058/charging\\_principles.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0019/51058/charging_principles.pdf)

y bu yn y blynyddoedd blaenorol. Serch hynny, efallai na fydd tariffiau yn y dyfodol yn parhau ar y lefel hon, gan y byddant yn cael eu pennu gan y gwaith y mae angen i ni ei wneud neu yr ydym yn bwriadu ei wneud o un flwyddyn i'r llall.

- A2.203 Rydym eisoes wedi cael sylwadau gan y Post Brenhinol mewn perthynas â'n hadolygiad parhaus o adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio'r post.<sup>40</sup> Rydym wrthi'n ystyried y sylwadau hyn, ynghyd â safbwyntiau rhanddeiliaid eraill a wnaeth ymateb i'n cynigion ymgynghori, a disgwylwn gyhoeddi dogfen arall yn y dyfodol agos.

---

## Ceisiadau am wybodaeth statudol

- A2.204 Galwodd **Openrath** ar Ofcom i adolygu ei arferion yng nghyswllt prosesau ceisiadau am wybodaeth statudol i sicrhau eu bod yn gymesur ac wedi'u targedu, ac nad ydynt yn gosod baich diangen ar randdeiliaid, ac y dylai Ofcom gynnwys rhaglen waith ar gyfer 2018/19 yn hyn o beth.

### Ein hymateb

- A2.205 Mae arfer pwerau casglu gwybodaeth statudol yn rhan hanfodol o'r adnoddau sydd ar gael i helpu Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Gallai hyn achosi llawer o waith i ymatebwyr ar brydiau, ac mae Ofcom yn ymwybodol bod angen sicrhau bod unrhyw geisiadau'n cael eu targedu ac yn gymesur, ac felly nid yw'n gosod beichiau diangen ar randdeiliaid. I'r graddau mae rhanddeiliaid yn teimlo eu bod yn ddarostyngedig i geisiadau am wybodaeth sy'n anghymesur neu wedi'u targedu yn annigonol, rydym bob amser yn barod i ymgysylltu â nhw i ddatrys unrhyw bryderon o'r fath. Mae methiant i ddarparu gwybodaeth gywir a chyflawn yn fater difrifol iawn i Ofcom oherwydd mae methiannau o'r fath yn tanseilio integriti'r drefn reoleiddio. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cymryd camau gorfodi mewn nifer o achosion oherwydd methiant i gydymffurfio â'n cais statudol am wybodaeth, a byddwn yn parhau i gymryd camau gorfodi yn y maes hwn pan fo hynny'n briodol.

---

<sup>40</sup>Ofcom, Gorffennaf 2017, *Adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio'r post*.  
<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/recovering-postal-regulation-costs>